

Adolygiad o Gylchgronau Saesneg o Gymru

Gorffennaf 2013

Dogfen 1: Adolygiad o Gylchgronau Saesneg o Gymru
(gan Tony Bianchi, Tim Holmes ac Alex Clark)

Dogfen 2: Ymateb Cyngor Llyfrau Cymru i'r Adolygiad
(gan Adran Grantiau Cyhoeddi, Cyngor Llyfrau Cymru)

Dogfen 3: Ymchwil Marchnad o Ddarllenwyr Cylchgronau Saesneg a
Gyhoeddir yng Nghymru (gan Wavehill)

I ddarllen y dogfennau unigol, cliciwch ar y blychau uchod

Adolygiad o Gylchgronau Saesneg o Gymru

tudalen

Crynodeb	2
Cefndir	2
Hanes a'r sefyllfa bresennol	
Pam adolygu nawr?	
Cwmpas ac amcanion yr adolygiad	
Aelodau'r Panel	
Dulliau gweithredu	
Cwestiynau Allweddol	4
Cwestiwn 1: Pam y dylai (rhai) cylchgronau gael eu hariannu?	4
Cwestiwn 2: A yw'r cylchgronau'n rhoi gwerth da am arian?	6
Cwestiwn 3: A yw'r cylchgronau'n rhoi boddhad i'r darllenydd?	9
Cwestiwn 4: A yw'r cylchgronau'n llwyfan effeithiol i awduron Cymru?	10
Cwestiwn 5: A yw'r cylchgronau'n cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru?	11
Cwestiwn 6: Sut y gall y system ariannu hybu datblygiadau newydd?	13
Cwestiwn 7: Sut y dylai'r system ariannu ymateb i'r chwyldro digidol?	17
Casgliad	22
Modelau ariannu amgen	23
Model hyfforddi	25
Crynodeb o argymhellion	26
Atodiad 1 Cylchgronau a ariennir	28
Atodiad 2 Ymateb ymgynghorwyr Panel Adolygu Cylchgronau: ar y cyd	28

Crynodeb

Mae'r adolygiad hwn, a gomisiynwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru, yn edrych ar sefyllfa'r cylchgronau Saesneg sy'n derbyn cymhorthdal cyhoeddus yng Nghymru a sut y maent yn cael eu hyrwyddo a'u hariannu. Ystyrir dibenion ariannu a chyfraniad y cylchgronau tuag at gynnal cylch cyhoeddus iach ac amrywiol. Mae ymchwil i'r farchnad yn rhoi gwybodaeth am asesiad o ba mor bell y mae'r sector yn llwyddo i gynnig gwerth am arian a pha mor dda y mae'n gwasanaethu'r darllenwyr, y llenorion a'r diwydiant cyhoeddi. Mae'n rhoi sylw arbennig i'r bygythiadau a'r cyfleoedd a ddaw wrth symud o gyfrwng printiedig i gyfrwng digidol. Mae'r adolygiad yn dod i'r casgliad bod y sector mewn cyfnod swrth, gyda nifer y darllenwyr yn gostwng, y lefelau cyllido yn anghynaliadwy, ac anfodlonrwydd arwyddocaol (ond nid cyffredinol o bell ffordd) am rai agweddau o gynnwys ac amrywiaeth y deunydd sydd ar gael. Argymhellir ffyrdd o leihau'r ddibyniaeth ar gymhorthdal, o gyflwyno datblygiadau newydd ac annog mwy o amrywiaeth er mwyn bod o fewn cyrraedd y darllenwyr.

Cefndir

Hanes a'r sefyllfa bresennol

Rhwng 1967 a 2003, Cyngor Celfyddydau Cymru oedd yn gyfrifol am ariannu cylchgronau Saesneg o Gymru fel rhan o ddarpariaeth lenyddol y sefydliad hwnnw. Ar y dechrau, dyfarnwyd cymhorthdal o'r naill flwyddyn i'r llall; fodd bynnag, yn 1988 sefydlwyd system masnachfaint tair-blynedd agored a chystadleuol. Yn 2003 trosglwyddwyd y cyfrifoldebau ariannu i Gyngor Llyfrau Cymru (CLIC); roedd hi hefyd yn ofynnol i CLIC gadw at y maen prawf llenyddol/diwylliannol a osodwyd gan ei ragflaenydd, yn ogystal â'r drefn arfarnu a masnachfaint. Drwy gydol y cyfnod hwn, *Poetry Wales*, *Planet*, *The Anglo-Welsh Review* a'i olynydd *The New Welsh Review* sydd wedi derbyn y rhan fwyaf o'r cymorth ariannol. Yn ogystal â hyn, mae cymhorthdal llai wedi cael ei roi i nifer o gylchgronau ac atodiadau bychain. Gwelir rhestr o bwy sy'n derbyn cymhorthdal ar hyn o bryd yn Atodiad 1.

Pam adolygu nawr?

Er bod cylchgronau unigol yn cael eu hasesu bob tair blynedd, nid yw'r sector cylchgronau yn ei gyfanrwydd a rôl ei brif noddwyr wedi cael eu harchwilio ers adolygiad Rhodri Williams a gomisiynwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 1987. Yr adroddiad hwnnw, a oedd yn bwrw golwg dros gylchgronau Cymraeg a Saesneg o Gymru, a arweiniodd at sefydlu'r system fasnachfaint bresennol, cyflwyno meini prawf asesu cliriach, a phroffesiynoli marchnata a rheoli y cylchgronau eu hunain. Bu'r fasnach ar ei hennill yn y tymor hir ac mae'r Panel Adolygu yn ymwybodol na ddylid rhoi hynny yn y fantol. Fodd bynnag, chwarter canrif yn ddiweddarach, mae rhesymau eraill o bwys dros gynnal trosolwg feirniadol o'r sector:

- **Yr angen i sicrhau'r gwerth gorau am arian.** Mae'r gostyngiad sylweddol mewn gwerthiant a chyllid arall yn y chwe blynedd diwethaf wedi codi'r ddibyniaeth ariannol i lefel anghynaliadwy.
- **Yr angen i adnewyddu.** Er yn gadarnhaol ar sawl cyfrif, nododd yr asesiad tair blynedd diwethaf (Tachwedd 2011) fod rhywfaint o syrthni ymysg y cylchgronau sydd wedi derbyn cymhorthdal hir dymor hir. Fel yn 1987, mae'n rhaid inni ofyn pa un yw'r ffordd orau i adfywio sector cylchgronau Cymru er mwyn denu darllenwyr newydd.
- **Yr angen i ailystyried meini prawf cymhwyster.** Gan fod Cyngor Llyfrau Cymru wedi bod yn ofalus iawn wrth weithredu'r meini prawf llenyddol/diwylliannol a etifeddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, fe gyfyngwyd ar ryddid CLIC i ystyried mentrau newydd. Oni ddylid cynnig dehongliad ehangach o'r meini prawf hyn? A ellir gwneud hyn gyda'r lefelau ariannu presennol heb godi disgwyliadau'n ofer?
- **Argyfwng y cyfryngau.** Ni ellir gwahanu'r her sy'n wynebu cylchgronau oddi wrth sefyllfa'r cyfryngau yn gyffredinol, yn enwedig ddirywiad newyddiaduraeth brint a'r cynnydd yn y dewisiadau digidol ac aml-blattform. Mae gan y sefyllfa hon oblygiadau difrifol i'r cylch cyhoeddus yng Nghymru ac felly mae hi'n bwysicach nag erioed ymchwilio i strategaethau sydd o ddiddordeb cyffredin.

Cwmpas ac amcanion yr Adolygiad: cwestiynau allweddol

Nod yr Adolygiad oedd pwysu a mesur y ffordd orau o ddatblygu'r sector yn ei gyfanrwydd: nid aseswyd cyhoeddiadau na chynigion unigol, ac eithrio pan fyddent yn adlewyrchu tueddiad neu bosibiliad cyffredinol. (Cafodd pob cyhoeddiad a ariennir ei werthuso'n unigol gan Gyngor Llyfrau Cymru yn 2011 ac fe osodwyd targedau penodol iddynt ar gyfer y cyfnod cyffredol.)

Gan gadw'r uchod mewn cof, rhoddwyd blaenoriaeth i'r cwestiynau canlynol:

- 1 Pam y dylai (rhai) cylchgronau gael eu hariannu?
- 2 A yw'r cylchgronau'n rhoi gwerth da am arian?
- 3 A yw'r cylchgronau'n rhoi boddhad i'r darllenydd?
- 4 A yw'r cylchgronau'n llwyfan effeithiol i awduron Cymru?
- 5 A yw'r cylchgronau'n cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn ei gyfanrwydd?
- 6 Sut y gall y system ariannu hybu datblygiadau newydd?
- 7 Sut y dylai cylchgronau a'r system ariannu ymateb i'r chwyldro digidol?

Aelodau'r Panel

Aelodau'r Panel Adolygu oedd:

- Tony Bianchi: awdur, cyn-Gyfarwyddwr Llenyddiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru
- Alex Clark: cyhoeddwr, awdur, cyn-olygydd y cylchgrawn *Granta*

- Tim Holmes: Uwch Ddarlithydd yn Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol Caerdydd; cyd-awdur y *Magazine Journalism* (Sage 2012), ayb.

Dulliau gweithredu

Ymchwiliodd y Panel Adolygu i'r cwestiynau uchod drwy:

- ystyried yr holl adroddiadau, argymhellion a dangosyddion perfformiad a gasglwyd ar gyfer tendrau 2006/09, 2009/12 a 2012/15, ac adolygiadau blynyddol 2012 pob un o'r cylchgronau masnachfaint;
- cyfarfodydd, cyfweiliadau ffôn, ymateb i holiaduron ac argymhellion ysgrifenedig eraill, gan gynnwys amrywiaeth o randdeiliaid, yn enwedig awduron, cyhoeddwr, golygyddion cylchgronau a chyrrff ariannu y tu allan i Gymru (cyfanswm o 74 a elwir yn **Ymgynghoriad y Panel Adolygu** yn yr adroddiad hwn). Caiff y rhain eu cynnwys yn Atodiad 2. Nid chafwyd digon o ymateb gan lyfrwerthwyr a sefydliadau celfyddydol a chymdeithasol Cymreig i roi barn gytbwys am y sectorau hyn;
- dadansoddi'r ymchwil i'r farchnad a wnaed gan **Wavehill** i arferion darllen a hoffterau darllenwyr cylchgronau Saesneg o Gymru

Cwestiynau Allweddol

Cwestiwn 1: Pam y dylai (rhai) cylchgronau gael eu hariannu?

Mae'r cyfiawnhad dros ariannu cylchgronau llenyddol a diwylliannol yn deillio yn y bôn o'r egwyddorion Keynesaidd a oleuodd sefydliad Cyngor Celfyddydau Prydain Fawr dros drigain mlynedd yn ôl, sef na all y farchnad, o'i gadael i edrych ar ei hôl ei hun, ddarparu gweithgarwch creadigol amrywiol o safon uchel i'r cyhoedd yn gyffredinol ac felly mae'n ofynnol rhoi buddsoddiad cyhoeddus ychwanegol iddi. Yr un ddatl sy'n cael ei defnyddio heddiw i amddiffyn ariannu amrywiaeth eang iawn o weithgareddau diwylliannol yng Nghymru, o'r Theatr Genedlaethol a'r Gerddorfa Ieuencid Genedlaethol i'r cynllun Noson Allan, sy'n cynorthwyo hyrwyddwyr gwirfoddol lleol i gynnal perfformiadau proffesiynol mewn canolfannau cymunedol. Ar y cyfan ceir cytundeb o fewn y sbectrwm gwleidyddol fod cefnogi ymdrechion diwylliannol o'r fath yn fuddiol ynddo'i hun yn ogystal â'r ffaith ei fod yn cyfrannu at gyfoethogi ffordd o fyw, creu undod cymdeithasol a thwf economaidd. Rhennir y farn hon mewn amryw o wledydd eraill sydd â'r Saesneg yn brif iaith iddynt; mae cyfundrefnau cymhorthdal wedi hen sefydlu yn UDA, Canada, Awstralia, Seland Newydd, Lloegr, Yr Alban, Iwerddon a Gogledd Iwerddon i gefnogi cylchgronau sy'n dangos ymroddiad tuag at dorri tir newydd mewn llenyddiaeth, y celfyddydau, diwylliant a syniadau, ac sy'n hyrwyddo lluosogrwydd lleisiau.

Yn ôl yr atebion a gafwyd i gwestiynau'r holiadur, mae cylchgronau Saesneg o Gymru yn werthfawr oherwydd eu bod yn:

- rhoi cyfle i Gymru ddatblygu ei lleisiau arbennig ei hun
- annog trafodaethau am safbwyntiau amrywiol
- cynnig llwyfan i lenyddiaeth orau Cymru
- cynorthwyo llenorion newydd i ddatblygu eu doniau a'u gyrfaoedd
- cyflwyno Cymru i fyd ehangach ac yn ein cynorthwyo i gymryd rhan feirniadol a chreadigol o fewn y byd hwnnw.

Roedd nifer o'r rhai a atebodd gwestiynau'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at bwysigrwydd hyrwyddo trafodaeth aeddfed ac ymrwymiad cyhoeddus i'r Gymru ddatganoledig o fewn y cylch cyhoeddus. Roeddent hefyd yn awyddus i'r cylchgronau gael eu gosod ochr yn ochr â'r cyfryngau eraill yn hyn o beth. Cyfeiriwyd at ddiffygion y traddodiad papur newydd dalen-lydan yma, a breuder y cyfrwng argraffu masnachol yn gyffredinol. Ceir cytundeb ryngwladol unwaith yn rhagor: mae cylchgronau yng Nghanada, Awstralia, yr Alban, Iwerddon, Gogledd Iwerddon a Chymru oll yn cael eu hariannu er mwyn rhoi lle i amrywiaeth o leisiau a safbwyntiau yng nghyswllt gormes gyfryngol Lloegr ac UDA. Yng Nghanada fe gefnogir hyd at 115 o gyfnodolion celfyddydol a llenyddol. Yn ogystal â hyn mae cannoedd o gyhoeddiadau eraill (hamdden, chwaraeon, ffasiwn ayb.) yn derbyn cymhorthdal cyhoeddus er mwyn cynnal diwydiant cyhoeddi cynhenid iach yn wyneb y gystadleuaeth o UDA. Mewn ambell beth (maint yr economi, maint y farchnad gartref, gwendidau hanesyddol rhwydwaith mewnol y wasg a'r cyfryngau), Cymru yw'r wlad leiaf breintiedig o ran ei gallu i gystadlu â'r brif ffrwd fasnachol.

Ceir darlun graffig o freuder sector cylchgronau Cymru drwy gymharu â'r sefyllfa yn yr Alban, ble mae 195 cwmni yn cyhoeddi mwy na 700 o gyhoeddiadau masnachol, gan gyfrannu tua £157 miliwn tuag at economi'r wlad. Ffuria'r 26 cwmni mwyaf o'r rhain gangen yr Alban o'r Gymdeithas Cyhoeddwy'r Proffesiynol (*The Professional Publishers Association*), a elwid cyn hynny yn Gymdeithas Cyhoeddwy'r Cyfnodolion (*Periodical Publishers Association*). Nid oes cangen o'r gymdeithas hon yng Nghymru; nid oes gan Gymru aelod unigol cyflawn o'r UK PPA ychwaith.

Mae sefyllfa'r papurau newydd yr un mor argyfyngus. Mae cylchrediad unig bapur newydd cenedlaethol Cymru, y *Western Mail*, wedi gostwng oddeutu 75% mewn 30 mlynedd ac fe amcangyfrifwyd mai dim ond 10% o'r boblogaeth sy'n darllen papur sy'n cynnwys newyddion cyson o Gymru (<http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-11111396>). Cyfeiriodd Rosemary Butler, Llywydd Cynulliad Cymru at y 'diffyg democrataidd' hwn fel un o'r 'problemau mwyaf difrifol sy'n wynebu datganoli'. (<http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-199044380>)

Ym mis Mai 2012 cyhoeddodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ragolygon ar gyfer Dyfodol y Cyfryngau yng Nghymru fod cael 'cyfrwng print bywiog yn hanfodol i Gymru, yn enwedig er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd'. Argymhellwyd sefydlu fforwm annibynnol a fyddai'n 'edrych ar fodelau cynladwy ar gyfer y fasnach brint... gan gynnwys trafod cymhorthdal cyhoeddus, fel sy'n digwydd mewn gwledydd bychain

eraill yn Ewrop.' Yn dilyn hyn nododd Llywodraeth Cymru mai 'pwnc trafod ar gyfer y diwydiant cyfryngol' oedd hyn gan gytuno'n unig 'y dylid adolygu'r materion hyn'. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r hyn sydd i ddilyn yn cadarnhau barn Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, 'fod cylch cyhoeddus Cymru yn doredig a thameidiog, gyda dim ond y lleiafrif o'r dinasyddion yn cymryd rhan ynddo'.

(<http://www.clickonwales.org/2012/05/education-and-the-welsh-public-sphere>) Mae'n nodi pwysigrwydd diwylliant cylchgronau bywiog a heriol i les y cylch cyhoeddus hwnnw.

Cwestiwn 2: A yw'r cylchgronau'n rhoi gwerth da am arian?

Wrth farnu a yw gweithgaredd sy'n derbyn cymhorthdal yn rhoi gwerth am arian, mae'n rhaid cloriannu ansawdd, hygyrchedd a budd cyhoeddus y weithgaredd yn erbyn yr arian sy'n cael ei wario. Nid oes yr un fformiwla absoliwt ar gyfer penderfynu a yw cydbwysedd unrhyw achos yn gywir: mae'n rhaid pwysu a mesur drwy gymharu â gweithgareddau tebyg mewn man arall, ac ymateb y sawl a fydd yn cael budd o'r weithgaredd. Trafodir y syniad o ansawdd yng Nghwestiwn 2 a Chwestiwn 3 isod; mae'r adran hon yn edrych ar hygyrchedd (drwy werthiant yn bennaf) a lefelau ariannu.

Gwerthiant

Cyfartaledd gwerthiant y tri phrif gylchgrawn Saesneg masnachfrait yng Nghymru (*Planet*, *New Welsh Review*, *Poetry Wales*) yn 2011/12 oedd 549 y rhifyn. Er bod dau o'r cylchgronau'n nodi iddynt weld tro calonogol mewn tanysgrifiadau yn 2012, mae'r gostyngiad yn y gwerthiant ers 2006/07 bron yn 30%.

Beth yw'r lefel gwerthiant rhesymol y gellir ei ddisgwyl gan gylchgronau llenyddol/diwylliannol Saesneg eu hiaith yng Nghymru? Mae sawl ffordd o fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn:

- *drwy gymharu dros gyfnod*. Rhaid gosod y gostyngiad gwerthiant o 30% mewn chwe blynedd yng nghyd-destun marchnad gylchgronau gyffredinol y DU, a welodd ostyngiad o 13% rhwng 2011 a 2012 yn unig (100 uchaf yr ABC) ac oddeutu 33% ers 2005; (<http://paidcontent.org/2012/08/16/digital-magazines-boom-too-little-to-grow-overall-sales>)
- *drwy gymharu â chylchgronau eraill yng Nghymru*, ddoe a heddiw, (gweler Malcom Ballin, *Welsh Periodicals in English 1882-2012*, Gwasg Prifysgol Cymru, i ddod). Dywedir bod *Wales* Owen M. Edwards wedi gwerthu mwyaf o 3700 copi yn 1894-5, gan ostwng i 1100 erbyn 1897 pan ddaeth y cylchgrawn i ben. Yn ei anterth gwerthodd *Welsh Outlook* (1914-1933) Thomas Jones 3-4000 copi, gan ddisgyn i 800 cyn gorffen. Bodlonai *The Anglo Welsh Review* (1957-1988) ar werthu 750-800 am nifer o flynyddoedd, ac ers hynny dyma'r rhif sylfaenol a roddir ar gyfer amrywiaeth o'r fath yn ôl Malcom Ballin. Gwerthid bron i 3000 o'r pythefnosolyn *Arcade* (1980-82) cyn iddo weld ei dranc, ond roedd yn gyhoeddiad cwbl wahanol i bob un a gefnogir ar hyn o bryd. Hefyd mae brîff ehangach gan

Cambria (a ariennid gan CLIC yn y gorffennol) ac *Agenda*, cylchgrawn y Sefydliad Materion Cymreig (sy'n derbyn cymhorthdal tuag at ei atodiad diwylliant gan CLIC) ac maent wedi llwyddo i sicrhau gwerthiant llawer uwch na'r hyn sy'n arferol i ddeiliaid masnachfrait.

- **drwy gymharu â chylchgronau targed y DU.** Mae cyfartaledd gwerthiant o 549 yn gyfartal i tua 11,000 yn nhermau'r DU. Y cylchgronau llenyddol sy'n gwerthu orau yn y DU yw *The London Review of Books* a *Granta* (y ddau dros 50,000) a'r *Literary Review* (tua 45,000). Fodd bynnag, mae gwerthiant cylchgrawn cymdeithas farddol y DU (y *Poetry Society*) yn is na 4,000;
- **drwy gymharu â gwerthiant cylchgronau tebyg y DU yng Nghymru.** Ar sail teitl, mae ymateb Wavehill yn awgrymu fod cylchgronau Cymreig (ac yn enwedig *Planet*) yn cystadlu'n dda â gwerthiant cylchgronau cyffelyb y DU yng Nghymru yn y rhan fwyaf o gategoriâu. Fodd bynnag, gall y canfyddiad hwn guddio gwirionedd llai calonogol. Cylchgrawn llenyddol mwyaf poblogaidd y DU o bell ffordd gan ddarllenwyr sampl Wavehill oedd *The London Review of Books*, ond dim ond 2.1% o gyfanswm y DU a gynrychiolir gan danysgrifiadau gwirioneddol (525: e-bost gan Nicholas Spice, 12 Hydref 2012). (4.8% o boblogaeth y DU sy'n byw yng Nghymru.) Mewn cymhariaeth, mae 1,780 o danysgrifwyr yn yr Alban; 7.2% o'r gyfanswm, sy'n nes o lawer at y cyfartaledd poblogaeth o 8.4%. Mae hyn yn y brawf pellach o freuder anghyfartal y cylch cyhoeddus yng Nghymru a maint cyfyngedig y farchnad y gellir ei thargedu'n realistig.
- **drwy gymhariaeth ryngwladol.** Mae gan *The Paris Review* (UDA), un o'r cylchgronau Saesneg mwyaf eang ei barch, gyfanswm cylchrediad o tua 17,000. Yn 2009, roedd gan dri phrif gylchgrawn llenyddol/diwylliannol Canada werthiant taledig o rhwng tua 2,000 a thua 5,000, a gynhyrchai werthiant *per capita* tebyg i'r rhai yng Nghymru.
- llwyddodd dau o gyfnodolion mwyaf dylanwadol yr ugeinfed ganrif – *Criterion* T. S. Eliot a *Scrutiny* F. R. Leavis – i gyrraedd *uchafswm* cylchrediad o 1,000 a 1,500 copi; roedd gwerthiant taledig hyd yn oed yn is.

Lefelau Ariannu

Yn ystod yr un cyfnod (2006/07 – 2011/12), gwelwyd cyfartaledd cymhorthdal pob copi a werthwyd yn codi i £24.73. Yn 2012/13, y cymhorthdal craidd gan CLIC – er ei fod rhwng 2.5% a 5% yn is i bob cylchgrawn – oedd i gyfrif am tua 80% o drosiant y cylchgronau. Golyga hyn fod y lefelau geriad ar ben uchaf graddfa'r cymaryddion rhyngwladol. Yn 2011 roedd 69% a 74% o holl incwm y cylchgronau sampl o Awstralia yn deillio o gymhorthdal, gan gynnwys nawdd prifysgol. Roedd cylchgronau sampl o Canada yn derbyn 40% a 64.3% o incwm o gymhorthdal cyhoeddus. Roedd cymhorthdal un cylchgrawn o Loegr yn 78%. Fodd bynnag, er mwyn cael darlun crwn cyflawn dylid cofio hyn:

- yn Awstralia, Canada (ac yn rhannol yn UDA a mannau eraill) gall cylchgronau diwylliannol fanteisio ar fwy nag un cymhorthdal *ar yr un pryd* gan (a) gorff ariannu celf cenedlaethol (b) gorff ariannu celf lleol (c) noddwr prifysgol (ambell waith bydd yn gannoedd o filoedd o bunnoedd y flwyddyn) (ch) noddwyr eraill a (d) cynlluniau cymhorthdal post cenedlaethol i gyfnodolion: gall y rhain fod yn fwy na £75,000 y flwyddyn i bob cylchgrawn ambell dro;
- mae cymorthdaliadau llawer o gylchgronau unigol mewn gwledydd eraill yn fwy na'r hyn a roddir yng Nghymru. Yng Nghanada yn 2011, roedd un cylchgrawn chwarterol yn derbyn tua £130,000 y flwyddyn. Yn Awstralia, derbyniodd dau gylchgrawn chwarterol £107,000 a £246,000 (gan gynnwys cyfraniadau prifysgol): roedd yr olaf yn gyfwerth â £44.64 am bob copi a werthid;
- mae gwariant CLIC fesul y pen ar gyfnodolion Saesneg oddeutu 84% o wariant Canada. Tua 6 cheiniog y pen i'r boblogaeth gyfan yw cyfanswm gwariant Cymru, o'i gymharu â 7.4 ceiniog yng Nghanada.

Daeth y Panel Adolygu i'r casgliad bod y gostyngiad serth yng ngwerthiant cylchgronau Saesneg o Gymru yn destun pryder sylweddol ac yn galw am ymateb radical. Mae'n iawn i bwysleisio bod y dirywiad hwn yn dilyn tueddiadau cyffredinol: ni ddylem, felly, dybio ei fod yn broblem arbennig i Gymru neu hyd yn oed (neu yn unig) yn adlewyrchiad o ansawdd y cylchgronau unigol. Nid yw hyn fawr o gysur, fodd bynnag. Da, gwael neu diddim - gwell neu waeth werth am arian na chymaryddion tebyg mewn mannau eraill – nid yw'r cylchgronau masnachfaint bellach yn gweithredu ar lefelau ariannu cynaliadwy. Ar adeg o newidiadau hanesyddol yn y sector cylchgronau, mae'n rhaid wynebu'r her a rhoi mesurau beiddgar ar waith er mwyn sicrhau bod buddsoddi arian cyhoeddus yn fwy cynhyrchiol.

Ystyriodd y Panel Adolygu nifer o addasiadau posibl i amodau a chanllawiau'r cynllun ariannu i ysgogi ymgeiswyr i chwilio am ffynonellau incwm ychwanegol ac i'w gwarchod rhag camau gwag yn y dyfodol. Ystyriodd hefyd a ddylid gosod meini prawf gwahanol wrth asesu gwerth-am-arian y cylchgronau digidol-yn-unig, i adlewyrchu'r cyfaddawd rhwng hygyrchedd cynyddol, llai o gostau cynhyrchu a chyfraddau tanysgrifio is.

Mae'n ARGYMELL

- gosod uchafswm cymhareb gerio (h.y. cyfran y cymhorthdal gyda'r incwm a gynhyrchir) i bob cylchgrawn a gefnogir. Ar hyn o bryd mae'r gymhareb hon tua 4:1 ar gyfartaledd. Dylai ymgeiswyr y rownd fasnachfaint nesaf orfod ragamcanu uchafswm cymhareb geriad o 2:1 o flwyddyn gyntaf cyfnod eu masnachfaint (gan gynnwys y flwyddyn gyntaf honno); byddai cyfyngiad ariannol ar y cymorthdaliadau a delid ac a wnaed a fyddai'n cydymffurfio â'r rhagamcan hwn;
- cynnig dewis digidol-yn-unig o gylchgronau print sy'n methu ymestyn i gwrdd â neu ateb y gofynion hyn (gweler Cwestiwn 7 isod);
- datblygu fformiwla gwerth-am-arian gyfatebol ond hyblyg i ariannu cylchgronau digidol-yn-unig

Cwestiwn 3: A yw'r cylchgronau'n rhoi boddhad i'r darllenydd?

Y Ddarpariaeth Bresennol

Roedd yr ymateb a gafodd Ymgynghoriad y Panel Adolygu yn pwysleisio'n daer bwysigrwydd cylchgronau Saesneg o Gymru mewn egwyddor, ond tueddai'r sylwadau am y cylchgronau presennol i fod yn fwy beirniadol. Roedd llawer yn gweld diffyg 'personoliaeth', 'miniogrwydd' a 'hiwmor'; bod eu hapêl yn gyfyngedig i'r 'prifysgolion a'r cliciau'; a'u bod yn methu cysylltu â rhannau helaeth o'r profiad penodol Gymreig. Mae'r sylwadau hyn yn adleisio barn nifer o'r rhai a holwyd ar gyfer adolygiad Wavehill. Roeddent yn teimlo fod y cylchgronau wedi mynd yn rhy 'dameidiog', bod diffyg 'llaw olygyddol gref' a bod angen iddynt 'brocio'r meddwl ymhellach'. Gwelid 'diffyg amrywiaeth' (t.58) a 'lleihad yn y sylw i Gymru a'r diwylliant Cymreig perthnasol.' (t.62) Dyma'r sgôr (allan o 10) a roddwyd i ddarpariaeth y cylchgronau:

	HEB EU LLEOLI YNG NGHYMRU		WEDI EU LLEOLI YNG NGHYMRU	
	Argaeledd	Ansawdd	Argaeledd	Ansawdd
MATERION CYFOES	7.6	7.5	4.5	5.7
LLENYDDIAETH	7.5	7.6	5.6	6.4
GWLEIDYDDIAETH	7.5	7.4	4.3	5.5
Y CELFYDDYDAU	7.2	7.2	4.8	5.7
HANES	7	7.2	4.4	5.6
BARDDONIAETH	6.8	7.2	5.6	7.2

Canlyniad Wavehill oedd 'fod bwlch i'w ganfod yn glir yn narpariaeth y cylchgronau sy'n trafod y pynciau penodol [uchod] *ynghymru*.' (t.5) Dim ond yr ymdriniaeth farddol oedd o'r un ansawdd â'r cynnyrch Anghymreig.

Ar yr un pryd, awgrymodd Wavehill hefyd fod y ddiffyg ymwybyddiaeth o'r cylchgronau presennol yn rhannol gyfrifol am y sylwadau negyddol: 'mae'r sawl sy'n gyfarwydd â'r cylchgronau sydd ar gael yn fwy tebygol o roi sgôr uwch i'r ddarpariaeth' (t.62). Nododd fod yn rhaid gwella dulliau marchnata er mwyn gweld cynnydd yn yr ymwybyddiaeth hon. Cytunodd y Panel Adolygu fod cwtogi'r cyllidebau marchnata yn rhannol gyfrifol am ostyngiad yn y ffigurau gwerthu. (Gwelir yr un ddadl, gan gyfeirio at gylchgronau print yn gyffredinol, yn *InPublishing* Ion/Chwef 2013, t.11.) Fodd bynnag, mae sylwadau'r rhai sydd wedi rhoi'r gorau i danysgrifio yn awgrymu nad yw'r eglurhad hwn yn ddigonol. Hefyd, fe ymddengys nad oes fawr o berthynas rhwng hyd yn oed ymwybyddiaeth a chanmoliaeth eithaf uchel ac arferion prynu. Drwy yrru negeseuon yn rheolaidd a chreu dolenni at ragflas o rai erthyglau am ddim, mae'r *New Welsh Review* wedi sicrhau 4,724 o ddilynwyr ar Facebook a nifer cymedrol o ymchwiliadau ar y we, ond nid yw'r ffigurau gwerthu wedi codi o ganlyniad i hyn.

Bwlch yn y ddarpariaeth

Y bylchau penodol yn y cynnwys a nodwyd gan sampl Wavehill oedd, o bell ffordd, hanes, materion cyfoes a gwleidyddiaeth. I raddau helaeth roedd yr ymateb hwn yn cyfateb i'r prif bynciau o ddiddordeb a gofnodwyd yn yr adolygiad, lle mae hanes Cymru a materion cyfoes Cymreig yn cael sgôr agos i sgôr llenyddiaeth, sy'n fwy na'r diddordeb mewn barddoniaeth a'r celfyddydau. Ar yr wyneb mae hwn yn ganfyddiad calonogol ac yn sail credadwy i symud polisi tuag at y meysydd hyn. Fodd bynnag, unwaith eto nid yw'n eglur i ba raddau y byddai bwlch neu hyd yn oed ddatganiad o ddiddordeb yn effeithio ar werthiant petai cynnyrch mwy priodol ar gael. Er enghraifft, nododd 41% eu bod yn ymddiddori mewn hanes ond dim ond 16% oedd wedi prynu cylchgrawn yn y maes hwnnw yn ystod y flwyddyn, er bod amrywiaeth eang a nifer helaeth ohonynt ar werth. Ac er ei bod yn wir nad oes cylchgrawn 'cyffredinol' i bobl ifanc – bwlch arall a nodwyd gan Wavehill – y rheswm am hyn yw'r ffaith fod fformiwla o'r fath wedi profi'n hynod aflwyddiannus yn y gorffennol ac y byddai rhoi blaenoriaeth i fenter o'r fath yn beth peryglus iawn i'w wneud ar hyn o bryd.

Roedd y galw niferus am fentrau ar-lein newydd yn fwy argyhoeddiadol yn adolygiad Wavehill: mae'r enghreifftiau a nodwyd yn cynnwys 'cylchgrawn digidol ble byddai modd rhyngweithio, tebyg i ddigwyddiad meic-agored ond ei fod yn digwydd ar-lein, ble gall pobl drafod, cymharu a rhannu gwaith neu syniadau'; 'blog digidol, ystafell sgwrsio neu safle rhwydwaith cymdeithasol'; 'lle ar-lein i fynegi barn ac i drafod dadleuon newydd'; mwy o farchnata ar-lein, gan gynnwys 'rhagolwg neu ragflas digidol'; ayb.

Daeth y Panel Adolygu i'r casgliad fod ymateb darllenwyr yn cyfeirio at

- ddifffygion arwyddocaol a bylchau yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd;
- awch am gysylltiad mwy egniol ac amrywiol â phynciau Cymreig;
- ehangu darpariaeth ar-lein;
- yr angen i CLIC fabwysiadu meini prawf cymhwyso mwy hyblyg a phenagored er mwyn llenwi'r bylchau a ganfuwyd;
- yr angen i CLIC roi mwy o bwys ar amrywiaeth ac ansawdd yr ysgrifennu mewn cylchgronau a ariennir ganddynt.

Argymhellwyd diwygio'r strwythurau ariannu a'r asesiadau meini prawf er mwyn rhoi sylw i'r casgliadau hyn. (Gweler y Crynodeb o Argymhellion ar dud. 24.)

Cwestiwn 4: A yw'r cylchgronau'n llwyfan effeithiol i awduron Cymru?

Roedd llawer o'r ymateb a gafwyd i Ymgynghoriad y Panel Adolygu yn dadlau bod 'cliciau' bach yn tra-arglwyddiaethu yn y cylchgronau masnachfaint (un ai'n academiaidd neu'n ffefrynnau gan y cyhoeddwyr) ac y dylent geisio anelu at gynrychioli'r amrywiaeth ehangach sydd yn llenyddiaeth Cymru. O edrych ar y ffigurau, nid yw'r ddadl hon yn dal dŵr. Mae dadansoddiad o bedwar rhifyn o'r tri phrif gylchgrawn masnachfaint a gyhoeddwyd yn 2010 yn dangos bod 399 cyfraniad gan 296 awdur gwahanol (ac eithrio

staff golygyddol). Roedd llai na 15% gan yr un cyfranwyr, a 10% o'r awduron wedi cyhoeddi gwaith mewn mwy nag un cylchgrawn yn ystod yr un cyfnod. Mae'r ffigurau hyn yn dangos felly fod y rhwyd yn wir yn cael ei daenu'n eang iawn, yn ôl llathen fesur y mwyafrif.

Yn ogystal, dangosodd trafodaethau â golygyddion fod ganddynt hwythau awydd cryf i beidio cael eu cysylltu â chliciau na charfanau. Yn wir, gellid dadlau fod y pryderon eu hunain am gyhuddiadau o fod yn 'glicaid' yn diffinio'r cylch cymdeithasol yng Nghymru gymaint â'r cyhuddiadau eu hunain. Yn ei ragair golygyddol cyntaf i *Wales* (1937), roedd Keidrych Rhys ar dân eisiau argyhoeddi'r darllenwyr fod ei gylchgrawn yn 'fforwm' eang ble gallai llenorion a beirniaid da ddweud ei dweud: 'nid "clic" llenyddol mohonom,' meddai: '... unwaith eto fe bwysleisiwn ein bod gyda'r Bobl.'

Os oes sail gadarn i ddyheadau Keidrych Rhys, mae amheuan yn eu cylch hefyd ac roedd y Panel Adolygu'n pryderu y byddai poblogrwydd eang yn peryglu cysondeb a hunaniaeth. Yn aml iawn, cyfrinach llwyddiant llawer o gyfnodolion diwylliannol yw'r criw cadarn o gyfranwyr rheolaidd a'r arweiniad golygyddol cryf (a phenderfynol): dyma sut mae gwneud i ddarllenwyr edrych ymlaen ac ennyn y teimlad eu bod yn perthyn i gymuned. Mae'r *New York Review of Books* yn cael ei ddychanu'n ffraeth fel y '*New York Review of Each Other's Books*', ond dyna'r math o blwyfoldeb y byddai'r rhan fwyaf o gylchgronau'n falch ohono petai'n arwain at yr un bri, awdurdod a llwyddiant â'r cylchgrawn hwnnw.

Daeth y Panel Adolygu i'r casgliad fod y cylchgronau masnachfaint yn cynnig llwyfan i amrywiaeth eang iawn o awduron yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gormod o honiadau fod y cylchgronau'n 'glicaid' - a'r rheiny'n honiadau rhy gryf i'w hanwybyddu. Teimla'r Panel Adolygu fod yr honiadau hyn yn deillio, mae'n bur debyg, o'r farn a geir yn ymateb y darllenwyr (gweler Cwestiwn 3 uchod), sef bod naws a phersbectif y cylchgronau'n rhy debyg i'w gilydd. Efallai bod amrywiaeth o enwau yn ymddangos ond ystyrir eu bod yn perthyn i griwiau cyfyng a rhagweladwy sy'n rhannu'r un diddordebau a dulliau ysgrifennu, a elwir yn gyffredinol yn 'academaidd'. Boed y farn hon yn deg neu beidio – nid yw hynny'n berthnasol bron – mae barn yn effeithio ar werthiant ac arferion darllen ac mae'n rhaid wynebu'r broblem. Wrth ymateb i'r sefyllfa hon gall golygyddion gael eu cymell i feithrin criw o gyfranwyr cyson (a fydd yn anochel yn arwain at golli peth o natur agored y cylchgronau) er mwyn hyrwyddo hunaniaeth ac apêl. Mae cynnwys cylchgronau da yn amrywiol ac annisgwyl, ond ni ddylid cymysgu'r rhinweddau hyn â ffigurau uchel.

Cwestiwn 5: A yw'r cylchgronau'n cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn ei gyfanrwydd?

Derbyniodd Ymgynghoriad y Panel Adolygu ymateb saith o gyhoeddwr Cymru, yn cynrychioli dros 50% o gyfanswm cynnyrch llyfrau Saesneg o Gymru ym maes barddoniaeth, llenyddiaeth, y celfyddydau, diwylliant, hanes, gwleidyddiaeth a materion cyfoes. Gwnaed y sylwadau canlynol:

- mae'r cylchgronau'n hanfodol wrth hyrwyddo llyfrau i'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn llenyddiaeth o Gymru. Maen nhw felly'n bwysicach na chylchgronau cyffelyb a gyhoeddir y tu allan i Gymru;
- mae rhai cyhoeddwy'r wedi rhoi llyfrau yn wobrau i gystadlaethau mewn papurau newydd a chylchgronau masnachfaint, gydag effaith gadarnhaol ar werthiant;
- dylid cael perthynas werthu agosach rhwng y cyhoeddwy'r a'r cylchgronau, e.e. i sicrhau gwerthiant oddi-ar-y-dudalen.
- dylai staff golygyddol y cylchgronau ac adrannau marchnata'r cyhoeddwy'r drafod mwy ar amserlenni cyhoeddi llyfrau;
- byddai rhoi mwy o sylw i ddyddiadau arbennig ym mywydau awduron yn cynorthwyo i hyrwyddo llyfrau sydd wedi eu cyhoeddi ers tro a llyfrau diweddar;
- byddai mwy o sylwadau golygyddol am y byd cyhoeddi presennol/lyfrau newydd awduron yn creu ymdeimlad dyfnach o fâs critigol yn y byd cyhoeddi;
- mae cwmpas y cylchgronau masnachfaint wedi cyfyngu'n arw. Maent yn llai diddorol nag yr oedden nhw;
- mae'r cylchgronau'n cael eu hanelu fwyfwy at yr awdur proffesiynol/yr academydd/ y cyfryngau proffesiynol yn hytrach na'r darlennydd cyffredin; mae'r erthyglau sy'n sôn am bolisiau celfyddydol a chyhoeddi yn rhoi mwy o sylw i'r effaith ar y 'diwydiant' neu'r 'academi' yn hytrach na'r diwylliant Cymreig yn ei gyfanrwydd. Mae perygl i'r cylchgronau fynd yn ynysig a chyfyngedig;
- nid yw'r corff ariannu (CLIC) yn rhoi digon o bwyslais ar arloesedd;
- (un cyhoeddwr) 'Mae cylchgronau Cymreig wedi ein hanwybyddu ni ar y cyfan; *Poetry London*, *TLS*, *Guardian* a *Rialto* sydd wedi ein hadolygu ni. Mae hyn yn siomedig i wasg sy'n argraffu a chyhoeddi ei chynnyrch yng Nghymru.'

Dim ond dwy siop lyfrau wnaeth ymateb i Ymgynghoriad y Panel Adolygu (efallai bod y ffaith hon ynddi ei hun yn brawf o'u difaterwch cyffredinol tuag at y maes hwn). Dyma adroddiad cynrychiolwyr gwerthiant CLIC sydd wedi'i seilio ar ymateb llyfrwerthwyr ledled Cymru:

- dim ond ychydig o siopau neu gadwynau annibynnol sy'n cadw cylchgronau Saesneg o Gymru;
- mae CLIC wedi sicrhau mannau gwerthu newydd (orielau celf, amgueddfeydd, ayb) ond siomedig yw'r canlyniadau fel arfer;
- mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cylchgronau hyn yn isel, yn rhannol am nad ydynt yn cael fawr o sylw gan y cyfryngau poblogaidd (yn wahanol i rai cylchgronau Cymraeg);

- yn aml bydd y mannau sy'n gwerthu'r cylchgronau yn dychwelyd cyfran helaeth ohonynt unwaith y bydd rhifyn newydd yn cael ei gyhoeddi;
- mae siopau'n gyndyn o gadw cylchgronau gan mai dim ond cyfnod byr a ganiateir i'w dychwelyd; o ganlyniad i hyn mae llawer wedi gwneud colledion ac yn cael eu llesteirio o'r herwydd;
- mae llawer o siopau'n archebu cylchgronau ar gais cwsmer yn unig a byddant yn diddymu archeb os na fydd y cwsmer yn prynu pob rhifyn;
- bydd llawer o lyfrwerthwyr yn digalonni pan welant gynigion tanysgrifio o fewn y cylchgronau gan eu bod yn ystyried hyn yn niweidiol i werthiant y siop; byddant yn diddymu archebion sefydlog wrth i gwsmeriaid drefnu tanysgrifiadau;
- bernir fod prisiau'n rhy uchel a'r mwyafrif o gylchgronau'n costio yr un faint â llyfr;
- mae rhai cloriau/erthyglau yn ysgogi gwerthiant: byddai rhagrybudd yn gymorth wrth archebu'r niferoedd cywir o rifynnau;
- mae'r symud i ddigidol yn pryderu llyfrwerthwyr na welant unrhyw fodd y gallant fanteisio o hyn.

Nododd CLIC hefyd:

- fod pob cangen o Waterstones yn ne Cymru (i'r de o Aberystwyth) yn cadw cylchgronau Saesneg o Gymru ers diwedd 2012; dechreuwyd trafod gyda changhennau'r gogledd hefyd;
- mae ychydig o wrthwynebiad ymhlith llyfrwerthwyr y tu allan i Gymru i ddeunyddiau Cymreig hunan-ddiffiniol; pryderon masnachol sydd wrth wraidd hyn yn bennaf gan fod y diffiniad o'r darllenwyr targed yn rhy gyfyng. Mae hyn yn cynnwys llyfrau (cyfres Llyfrgell Genedlaethol Cymru er enghraifft) a chylchgronau.

Mae'r **Panel Adolygu yn ARGYMELL fod:**

- ymgeiswyr masnachfaint yn cynllunio rhagor o gydweithrediad rhwng y cylchgronau a chyhoeddwy'r llyfrau a hyrwyddwy'r digwyddiadau
- CLIC yn gosod targedau uchel wrth hyrwyddo drwy siopau llyfrau gan ddewis dim ond y dulliau gweithredu a fydd yn debygol o roi elw sylweddol (e.e. y trafodaethau gyda Waterstones)
- CLIC fel arall yn rhoi blaenoriaeth i farchnata drwy danysgrifiadau o fewn y gefnogaeth darged a roddir i gylchgrawn, ac yn y gofynion a ddisgwyllir o'r ceisiadau masnachfaint.

Cwestiwn 6: Sut y gall y system ariannu hybu datblygiadau newydd?

Nododd gwahoddiad tendro diweddaraf Cyngor Llyfrau Cymru bedwar dosbarth cymwys: chwarterolyn barddol, chwarterolyn am ddiwylliant llenyddol, chwarterolyn o ddiddordeb diwylliannol eang, ac atodiad llenyddol mewn cylchgrawn proffil uchel/eang ei gylchrediad. Mewn tri o'r dosbarthiadau hyn dim ond y cylchgronau masnachfaint

presennol a ymgeisiodd (*Poetry Wales, New Welsh Review a Cambria*); yn y pedwerydd dosbarth caed cystadleuaeth i *Planet* o du dau ymgeisydd newydd (*Blown ac Agenda, cylchgrawn y Sefydliad Materion Cymreig*). Fel y digwyddodd, dyfarnwyd cymhorthdal i *Planet, New Welsh Review a Poetry Wales*, hynny yw, y tri chylchgrawn sydd wedi bod yn y dosbarthiadau hynny ers o leiaf y 1980au. (Yna dyfarnwyd cymhorthdal llai o lawer i *Agenda*, am gyfnod masnachfaint o dair blynedd, ar gyfer deunydd llenyddol ychwanegol.)

Beirniadaeth gyson darllenwyr a golygyddion cylchgronau eraill yw fod dosbarthiadau penodol cyfyng o'r fath yn rhy bleidiol i'r cylchgronau sydd eisoes yn derbyn cymhorthdal ac yn ei gwneud yn anodd i fentrau newydd, gwahanol wneud cais llwyddiannus. Mae'r Cyngor Llyfrau yn amddiffyn ei hun drwy ddweud:

'Rydym wedi bod yn ymwybodol o'r broblem hon ac wedi ceisio mynd i'r afael â hi. Mae sawl her mewn perthynas â chymhorthdal ac un o'r rhain yw sicrhau cydbwysedd gofalus. Cyflwynwyd categorïau i'r cynllun er mwyn gwneud yn siŵr fod y meini prawf a gaiff flaenoriaeth gan y panel yn eglur a bod mathau allweddol (yn hytrach na chyhoeddiadau penodol) yn cael eu hariannu. Cafodd y rhain eu hadolygu yn ystod proses tendro 2011 er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon eang i ymgeiswyr newydd gael eu cynnwys, tra'u bod yn parhau i roi pwyslais pendant ar lenyddiaeth Gymreig drwy gyfrwng y Saesneg. Yn wir, gwelwyd cynnydd yn y gystadleuaeth ac, wrth gwrs, llwyddodd ymgeisydd newydd yn ystod y rownd honno... Gorchwyl anos o lawer yw asesu ceisiadau newydd sydd heb hanes iddynt yn erbyn ceisiadau gan gylchgronau sydd â'u perfformiad – gan ystyried y cynnwys, y darllenwyr, a'r rheolaeth – wedi bod yn llwyddiannus am nifer o flynyddoedd.'

Roedd y Panel Adolygu yn gwerthfawrogi'r pwyslais hwn ar gefndir y cylchgronau a sicrhau parhad. Er bod y rhifau'n gostwng, nid yw teyrngarwch darllenwyr yn rhywbeth i'w aberthu'n ddi-hid pan fo'r dewis arall yn ansicr. Fodd bynnag, er yn ddealladwy, tybir nad yw'r agwedd warcheidiol hon yn cyd-fynd â'r ffordd draddodiadol y mae cylchgronau wedi gweithio a llwyddo yn y gorffennol. Yn ôl Peter Cole, cyfarwyddwr newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Sheffield, 'Mae gan gylchgronau fantais fawr... Maent yn wastad wedi bod yn fwy dyfaliadol a hyblyg ac wedi hen arfer â'r cylch "dyfeisio cyn lladd", gan ymateb yn fuan i *Zeitgeist* penodol, ond heb ofni rhoi'r gorau iddi pan fydd rhywbeth yn methu a rhoi cynnig ar ryw beth newydd.' (Tim Holmes a Liz Nice, *Magazine Journalism* Llundain 2012, t.145). Roedd y Panel Adolygu yn cydnabod bod cyfundrefnau ariannu yn gyffredinol - ac nid Cyngor Llyfrau Cymru yn unig - yn cael trafferth cynnwys yr elfen gyfnewidiol hanfodol yma. Mae hon yn her y mae'n rhaid ei hwynebu, fodd bynnag. Y teimlad amlycaf ymysg y rhai a atebodd yr holiadur hefyd oedd fod y gyfundrefn ariannu bresennol yn tueddu i lesteirio datblygiadau newydd ac y dylid creu lle i fentrau newydd. Gyda'r amcanion hyn mewn golwg, ystyriodd y **Panel Adolygu** amrywiaeth o ddewisiadau:

Cyfuno cyllidebau cylchgronau masnachfaint a chylchgronau bychain

Gan mai cyllideb o £7,000 yn unig a neulltir ar gyfer cylchgronau bychain, a bod y sawl sy'n ei derbyn yn gymwys i wneud cais am fasnachfaint, nid yw'r Panel Adolygu yn

gweld budd mewn amsugno'r ddarpariaeth yma i'r gyllideb cylchgronau gyffredinol. Mae'r buddsoddiad cymharol fach yma yn gymorth i warchod amrywiaeth lleisiau ysgrifennu Cymreig ac yn rhoi gwerth da am arian, ac felly ni ddylid ei beryglu er mwyn gwneud enillion ymylol.

Capio cyfnodau masnachfaint

Byddai cyflwyno uchafswm cyfnod penodol (e.e. chwe blynedd) ar gyfer derbyn cymhorthdal masnachfaint yn tueddu i fod yn fwy buddiol i ymgeiswyr a all sicrhau a datblygu ffynhonnell gyllidol sylweddol o rywle arall. Mae gan y dewis hwn ei rinweddau – gall annog cylchgronau i fod yn fwy hunangynhaliol a'u hysgogi i chwilio am bartneriaethau newydd – ond fe awgryma'r Panel Adolygu ei fod yn cael ei gymhwyso ar sail *ad hoc* yn unig, pan fo'r model busnes yn addas. Byddai taenu'r egwyddor hon ar led yn gyffredinol yn rhy anhyblyg ac fe allai arwain at ymyrraeth nas dymunir mohoni yn y ddarpariaeth.

Mabwysiadu a defnyddio dehongliad ehangach o'r dosbarthiadau masnachfaint

Roedd y **Panel Adolygu** yn cytuno fod dehongliad gofalus CLIC o ddosbarthiadau masnachfaint wedi bod o gymorth i:

- ddal gafael ar deyrngarwch rhai adrannau pwysig o'r farchnad (gan gynnwys *academia* a'r rhai sy'n gweithio ym myd celf)
- ofalu nad oes gormod o ddyblygu'n digwydd
- sicrhau fod parhad yn y ddarpariaeth yn yr adrannau uchaf eu blaenoriaeth
- gwarchod dibenion craidd trosglwyddo'r gronfa o gyllideb Llenyddiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2003.

Er hynny, gellir dadlau bod rhoi gormod o bwyslais ar ddilyniant, a meithrin agwedd gwrth-risg at genhadaeth, wedi cyfrannu tuag at y syrthni presennol. Yn benodol, mae slotiau rhagnodol wedi bod yn wrthgymhelliad i ddarpar ymgeiswyr newydd sy'n gwybod y byddant yn gorfod cystadlu benben â chylchgronau sydd eisoes yn bodoli. Mae rhai yn teimlo nad yw eu dyheadau'n gweddu i'r fath ddiffiniad. Cred eraill, er bod gofynion y cynllun yn gweddu i'w cynigion hwy, fod blaenoriaethu tawel a fydd yn eu gwrthio hwy ar y cyrion ar waith. O'u rhan hwy, mae CLIC yn haeru'n daer fod eu trefn asesu'n deg, yn hyblyg ac yn cael ei gweithredu'n ddiduedd.

Mae CLIC wedi glynu'n ddigyfnewid ond yn geidwadol at delerau'r trosglwyddiad gan etifeddu diffiniadau o gyfrifoldebau. Yn wir, mae'n cefnogi amrediad o lenyddiaeth sy'n hynod debyg i'r hyn a fodolai pan ddigwyddodd y trosglwyddiad. Fodd bynnag, mae'r amrediad hwn yn fwy cyfyng na'r hyn ydoedd cynt. Drwy ariannu *Planet* (yn ei ymgnewdoliad gwreiddiol) ac *Arcade*, roedd Cyngor Celfyddydau Cymru eisoes wedi cofleidio dehongliad catholig o lenyddiaeth a diwylliant (gan fynd i ysbryd Raymond Williams) a oedd yn cynnwys materion cyfoes, gwleidyddiaeth, hanes, y celfyddydau, chwaraeon, yr amgylchedd a dychan gyfoes, yn ogystal â barddoniaeth, ffuglen ac adolygiadau. Er bod y dehongliad hwn dan bwysau barn fwy geidwadol a chyfarwyddyd olygyddol y cylchgronau eu hunain, roedd yn parhau i fod yn sail gwaelodol i'r polisi. Ym marn y Panel Adolygu, dylai CLIC ailafael yn y polisi hwn a'i wneud yn fwy eglur fel ei

bod yn haws annog a delio gyda cheisiadau sy'n gogwyddo oddi wrth y modelau amrywiol o lenyddiaeth a diwylliant draddodiadol. Mae peryglon ynghlwm wrth hyn. Gall arwain at golli cylchgronau sydd wedi hen ennill eu plwyf; at amharoddrwydd i ddadsefydlogi'r sefyllfa bresennol, a phopeth fyddai hynny'n ei olygu i staff a thanysgrifwyr ffyddlon, ac mae'n hawdd deall hynny. Fodd bynnag, heb roi gofod creadigol i syniadau newydd flodeuo, i fentrau newydd ymddangos, ac i'r mentrau presennol adnewyddu eu hunain, bydd yn waith llawer anos dadwneud y tro presennol hwn ar i lawr.

Mae'r **Panel Adolygu yn ARGYMELL** – er mwyn rhoi'r rhyddid dewis mwyaf posibl i ymgeiswyr ac iddo'i hun, ac er mwyn ceisio denu darllenwyr newydd- fod Cyngor Llyfrau Cymru yn:

- cofleidio diffiniad o 'gylchgrawn' sy'n hyblyg ac mor anghyfarwyddol â phosibl o ran ffurf a thestun;
- ystyried y modelau ariannu amgen a ddisgrifir ar dudalennau 14-15;
- diffinio'n fwy eglur yr hyn a elwir yn 'ysgrifennu Cymreig drwy gyfrwng y Saesneg yn ei holl ffurfiau' fel bod y cymhwyster i ysgrifennu'n dda am bob pwnc (gan gynnwys hanes, gwleidyddiaeth a materion cyfoes) yn glir;
- rhoi mwy o adnoddau tuag at ddatblygiadau digidol. Mae'r pwnc pwysig a chymhleth hwn yn cael ei drafod isod yng Nghwestiwn 7, ble ceir argymhelliad ynghylch rhaglenni hyfforddi.

Diwygio fframweithiau asesu

Teimlad rhai a holwyd oedd fod y dehongliad gofalus o bwy sy'n gymwys a'r blaenoriaethau sy'n cael eu gosod (a drafodir uchod) yn deillio nid yn unig o ofynion y cynllun ond hefyd o ffafriaeth sefydliadol. Yn benodol, fe ddadleua fod CLIC, oherwydd cyfuniad y Panel Grantiau Saesneg, yn fwy tebygol o deimlo'n gyffyrddus gyda rhai arddulliau llenyddol penodol (mwy academaidd). Am yr un rheswm, teimla rhai fod bwlch rhy fawr rhwng y sefydliad a'r gwirioneddau masnachol sy'n wynebu busnesau bychain a'u bod yn brin o ddealltwriaeth entrepreneuriaidd.

Mae'r **Panel Adolygu** yn cytuno y byddai Panel Grantiau Saesneg CLIC yn elwa o gael cynrychiolaeth ehangach o arbenigwyr, yn enwedig ym maes datblygu busnesau micro, cyhoeddi cylchgronau, y dechnoleg ddigidol a newyddiaduraeth, er mwyn cymryd rhan lwyr yn y sector fel ag y mae'n datblygu ar hyn o bryd ac i fynd i'r afael â mentrau polisi newydd. Mae'n cydnabod fod gan y Panel Grantiau feysydd gorchwyl ehangach na dim ond cylchgronau, fod arbenigwyr allanol (e.e. ym maes marchnata cylchgronau) yn cael eu galw'n aml i arwain rhai mentrau penodol, a bod rhai datblygiadau i'r cyfeiriad hwn eisoes wedi digwydd. Dylai'r broses hon barhau, fel bod materion polisi a blaenoriaethau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd gan arbenigwyr sydd â phersbectifau amrywiol, a chan y sefydliad ei hun. Nid yw hyn yn feirniadaeth o gyn-aelodau nac aelodau presennol y Panel Grantiau, sydd yn wastad wedi bod o'r calibr uchaf; nid yw ychwaith yn awgrymu fod dulliau monitro cleientiaid CLIC yn ddiffygiol: i'r gwrthwyneb, mae'r dulliau adolygu

ac atebolrwydd ymhlith y rhai mwyaf trylwyr (a beichus – ym marn y cleientiaid) o'r holl systemau ariannu y gŵyr y Panel Adolygu amdanynt.

Mae'r **Panel Adolygu yn ARGYMELL** cael mwy o amrywiaeth o fewn aelodaeth Panel Grantiau Saesneg CLIC er mwyn sicrhau fod datblygiadau newydd yn cael lle canolog yn ei weithrediadau a bod hynny'n amlwg.

Cwestiwn 7: Sut y dylai cylchgronau a'r system ariannu ymateb i'r chwyldro digidol?

Mewn termau marchnata amrwd, nid yw'r byd cyhoeddi digidol wedi gwedddnewid y tirlun cyhoeddi cylchgronau hyd yn hyn. Dangosodd Adolygiad Democratiaeth Cyflwr y Cyfryngau (*State of the Media Democracy Survey*) diweddaraf Deloitte (Ebrill 2012) fod 88% o ddarllenwyr y DU yn parhau i ffafrio darllen cylchgronau print a bod tanysgriadau ar-lein yn parhau'n isel ar 2%, er y cynnydd sydyn mewn dyfeisiadau llechen. Dangosodd ffigurau ABC mai dim ond 1% o gyfanswm gwerthiant cylchgronau oedd yn deillio o rifynnau digidol. Sylwodd Colin Morrison fod y rhan fwyaf o lwyddiannau'n cael eu prisiau yn 'ymylol', 'gyda tharddiad a marchnata yn cael ei brisio ar draul y gweithgaredd craidd (h.y. copi caled). Mae cynnyrch parod rhai cyhoeddiadau (e.e. *The Economist* a *The Week*) yn trosi'n hawdd i ffurf ddigidol, ac fe allai hyn arwain at elw tymor hir. Ond i sawl cylchgrawn arall a fyddai angen llawer o ailwampio cynnwys, ni fyddai'r fersiynau digidol yn gynaliadwy ar ôl tranc y copi caled, yn enwedig os bydd *Apple* yn hawlio 30% o'r refeniw.' (http://www.huffingtonpost.co.uk/colin-morrison/winners-and-losers-in-med_b_1505427.html?just_reloaded=1)

Mae dau feddwl parhaus am allu cynnyrch ar-lein i gynnal ansawdd newyddiaduraeth ac adolygu hirfaith traddodiadol. Fel y dywed Nicholas Spice (*London Review of Books*): 'Mae ein sylw yn dueddol o fod yn fwy diamynedd ac aflonydd wrth inni ddarllen sgrîn gyfrifiadurol.' http://www.huffingtonpost.com/nicholas-spice/london-review-of-books-pu_b_539631.html Hyd yn oed wrth hyrwyddo ei gylchgrawn llenyddol misol ar-lein am ddim, *Five Dials*, mae Hamish Hamilton yn annog tanysgrifwyr (sydd bellach yn fwy na 10,000) i'w argraffu a'i fwynhau 'draw oddi wrth y cyfrifiadurol'.

Gan fetio bob ffordd, argymhellodd Deloitte fod cyhoeddwr cylchgronau yn ymbaratoi ar gyfer newidiadau yn y farchnad yn y dyfodol drwy ddatblygu adnoddau i ddechrau creu fersiynau digidol. Mae Adroddiad Llechen a Chyhoeddi Cymdeithas y Cyhoeddwr Proffesiynol (*Professional Publishers Association [PPA] Tablets and Publishing Report*) (Tachwedd 2012) yn dangos rhywfaint o gyfiawnhad dros ei ragolygon. (<http://www.ppa.co.uk/news/media/ppa-tap-report-shows-increasing-tablet-sales-fuel-growth-in-print-and-digital-magazine-engagement>) Tra'i fod yn rhagweld y bydd llif mawr o gylchgronau digidol yn cael eu cyhoeddi, y mae hefyd yn gweld cydberthynas bositif rhwng darllenwyr print a llechen. Yn ôl Marius Cloete, Pennaeth Ymchwil y PPA: 'Mae cysylltiad cryf rhwng perchenogion llechen a darllen cylchgronau. Mae nifer o astudiaethau'n awgrymu fod rhifynnau digidol yn deffro'r awch am gyfrwng y cylchgrawn... nid erydu'r farchnad brint wna'r rhifynnau digidol – ond i'r gwrthwyneb yn llwyr; mae perchenogion llechen yn fwy tebygol o fod wedi darllen a phrynu cylchgronau yn ystod y tri mis blaenorol na'r cyfartaledd cenedlaethol, gan chwalu'r myth fod perchenogion llechen yn cefnu ar fersiynau print er mwyn troi at rai digidol. Yn

hytrach na hynny, fe ymddengys fod y ddau gyfrwng yn cydweithio gan ehangu *repertoire* darllen y defnyddiwr.'

Mae sawl cylchgrawn diwylliannol nodedig yn cadarnhau'r arfer hwn ac yn gwrthbrofi'r ofnau ynghylch 'sylw ar-lein byr'. Mae gan McSweeney's (<http://www.mcsweeneys.net>) ap llwyddiannus bellach sy'n anfon straeon byrion cyfan a detholiadau sylweddol o lyfrau yn uniongyrchol i ffôn clyfar darllenwyr. Ar ôl cynnig tanysgrifiad digidol ar *iPad* yn 2011, gwelodd y *Paris Review* gynydd o 526% yn yr ymweliadau gwefan, gyda 630,000 yn edrych ar y dudalen bob mis, 181,210 yn eu canlyn ar Twitter, 6,891 ar Tumblr a 19,905 yn dod yn gyfaill Facebook. Mae'r cylchgrawn Canadaidd *The Walrus*, gyda'i ffigurau gwerthiant yn 60,000, yn denu hyd at 125,000 ymwelydd unigol bob mis ac mae chwarterolyn diwylliannol a gwleidyddol Awstralia, *Overland*, wedi cael yr un llwyddiant. Yn ôl y golygydd Jeff Sparrow: 'Drwy gyhoeddi ar-lein mae cylch dosbarthu'r erthyglau yn llawer ehangach na'r fersiwn argraffedig. Gallant hefyd ddod yn rhan o sgwrs ar-lein gynhwysfawr, mewn blogiau, drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn y blaen... rydym wedi symud oddi wrth y tanysgrifiadau print traddodiadol i rywbeth sy'n debycach i orsaf radio gyhoeddus, ble gall y gymuned ddangos ei chefnogaeth drwy gyfrwng y tanysgrifiadau. Yn draddodiadol, chwarterolyn oedd *The Walrus*. Mae'r amgylchfyd ar-lein yn galw am ddeunydd newydd bron bob dydd ac mae'r blog yn gwneud yn siŵr fod hynny'n digwydd. Ond yn bwysicach na hyn, mae'r blog wedi datblygu ei bersonoliaeth ei hun. Dyma'r lle gorau i drafod gwleidyddiaeth a diwylliant yn Awstralia ac felly bydd llawer o ddarllenwyr yn troi ato'n ddyddiol.

Ym mhob un o'r enghreifftiau uchod, mae'r fersiwn digidol yn ychwanegyn i danysgrifwyr y fersiynau print. Ond ceir nifer cynyddol o groesiadau ble gwelir newid tyngedfennol yn y cydbwysedd rhwng y fersiynau print ac ar-lein, a hynny o blaid yr olaf. Er enghraifft, lansiwyd y cylchgrawn argraffedig *Pank Magazine* am y tro cyntaf yn 2007 ond yn fuan iawn ganed fersiwn ar-lein; bellach ceir rhifynnau misol ar-lein gyda'r fersiwn argraffedig yn ymddangos dim ond ddwywaith y flwyddyn. Mae'r wefan yn denu 25-30,000 o ymwelwyr unigol bob mis.

Mae nifer o gylchgronau diwylliannol traddodiadol megis *Books for Keeps* wedi dewis rhoi'r gorau i fersiynau print yn llwyr; tra bo eraill, fel y *TriQuarterly* Americanaidd (<http://therumpus.net/2009/09/from-the-department-of-possibly-lost-but-nevertheless-immensely-worthwhile-causes>) wedi cael eu gorfodi i wneud hynny gan noddwyr sy'n gorfod arbed arian. Mae cylchgronau digidol-yn-unig eraill yn cynnwys y *Los Angeles Review of Books* uchel ei barch – cylchgrawn llenyddol, diwylliannol a chelfyddydol amlgyfrwng sy'n cyfuno ysgrifennu llenyddol safonol traddodiadol gyda thechnoleg y we yn llwyddiannus. Fel y mwyafrif o gylchgronau digidol o'r fath (mae enghreifftiau eraill yn cynnwys *Action Yes*, *Electric Literature*, *joyful*), menter-ddi-elw ydyw, sydd ar gael i'w ddefnyddio'n gwbl rydd ac sy'n cael ei gynnal gan gyfraniadau a nawdd gwirfoddol.

I rai, dyma wendid cyhoeddi digidol: hyd yn hyn nid yw wedi profi y gall gynhyrchu cyllid digonol i weithredu'n annibynnol a chynnal safon olygyddol. Yn ddiweddar, dywedodd *Ad Week* fod nifer y darllenwyr a dalodd am gylchgronau digidol wedi cynyddu 47 y cant y llynedd.

(<http://tech.uk.msn.com/socialvoices/blogpost.aspx?post=37de5234-4fd1-45e0-b840->

[7301382b1cf1](#)). Yn ddiweddar, trodd *Newsweek* i fod yn gylchgrawn digidol-yn-unig gan uno â'r *Daily Beast* ar ôl i ffigyrau gwerthiant y fersiwn print grebachu o 3.1 miliwn i 1.5 miliwn mewn chwe blynedd. Mae'r costau wedi eu cwtogi'n sylweddol (gan gynnwys staff) er mwyn medru cynnig tanysgrifiad o 52 rhifyn am bris borgen o \$24.99. Ar hyn o bryd mae'n amhosibl dweud ai rheolaeth argyfwng ynteu strategaeth gadarn er mwyn goroesi yw hyn. Yn gyffredinol, mae'r ffynhonnell gyllidol ddigidol ymhell o fod yn ddigonol i'w gosod yn erbyn colledion gwerthiant y fersiynau print ac mae'r argoelion ar gyfer y dyfodol yn amwys. Mae rhai sylwebyddion yn hyderus. Er enghraifft, mae Oliver Wyman, y cwmni ymgynghori rheolaeth rhyngwladol, yn derbyn 'i danysgrifwyr presennol, mae grym y gair printiedig yn parhau'n gryf...' ond 'i danysgrifwyr newydd, mae gwerth safon y cynnwys rhyngweithiol yn gymhelliant cryf; mae cwsmeriaid newydd yn barod i dalu'r un pris â'r tanysgrifwyr print presennol am danysgrifiadau i rifynnau rhyngweithiol ac i ryw raddau am fwndeli print/rhyngweithiol.

(http://www.oliverwyman.com/media/OW_EN_CMT_PUBL_2010_NewDigitalFuture.pdf)

Ar ben mwy radical y sbectrwm, yr union elfen ryngweithiol hon sy'n gwneud cyhoeddi ar y rhyngwrwyd yn gyfrwng digidol mor werthfawr, yn hytrach na'i botensial newydd am elw ariannol. Mae *Fictionaut* yn enghraifft o gylchgrawn mynediad-agored llwyddiannus – a gaiff ei gymedroli gan y defnyddwyr – sy'n hybu cyfraniadau a dadleuon a fyddai y tu hwnt i allu cylchgrawn print, ond mae'n llawer mwy na blog neu adnodd cyhoeddi er mwyn porthi balchder. 'Y peth gwych am safle mor agored â *Fictionaut*,' meddai'r cyd-sylfaenydd Jurgen Fauth, 'yw fod pethau da yn digwydd ar ôl i chi roi'r gorau i'w reoli ... Wedi inni gyflwyno ffyrdd i ddefnyddwyr ffurfio is-bwyllgorau, dechreuodd golygyddion cylchgronau blaengar a chyhoeddwy'r bychain megis *Keyhole*, *Prairie Schooner*, *Barrellhouse*, *Mississippi Review*, *Flatmancrooked*, *Electric Literature*, *Everyday Genius*, *Word Riot*, *Gigantic*, *Wigleaf*, *Dogzplot*, *Featherproof*, a *Matchbook* eu grwpiau eu hunain ar y wefan. Yn wahanol i'r tudalennau dilynwy'r ar Facebook, sy'n fawr mwy na mannau cyfleus i danio negeseuon e-bost, mae grwpiau *Fictionaut* yn rhoi cyfle i aelodau yrru, rhannu a thrafod eu gwaith ...' Ond fe ychwanega mai'r bwriad bob tro oedd creu atodiad, nid rhywbeth fyddai'n disodli 'chwaeth, cenhadaeth a gweledigaeth neilltuol y golygyddion unigol a'u cylchgronau'.

(http://www.huffingtonpost.com/jurgen-fauth/transcend-and-include-fiction_b_345771.html)

Ceir ychydig o dystiolaeth mai'r math yma o ychwanegiad at werth a fydd efallai'n ennill y dydd. Cylchgrawn atgynhyrchiad-digidol mwyaf poblogaidd y DU yw *Cosmopolitan* Hearst, gyda gwerthiant o 13,298. Fodd bynnag, y cylchgrawn digidol sy'n gwerthu mwyaf yw cylchgrawn dyfeisiadau Future, T3, gyda 17,682 yn ei lawrlwytho. Yn ôl *PaidContent*, 'mae T3 yn ap rhyngweithiol go iawn yn hytrach nag yn atgynhyrchiad digidol ... Mae llwyddiant T3 o flaen pawb arall yn awgrymu nad cylchgrawn print wedi ei becynnu ar gyfer llechen y mae'r defnyddiwr ei eisiau o angenrheidrwydd, ond yn hytrach math newydd o brofiad. (<http://paidcontent.org/2012/08/16/digital-magazines-boom-too-little-to-grow-overall-sales>) Ar y llaw arall, efallai nad yw hyn ond yn syml iawn yn cadarnhau'r ffaith fod cefnogwyr dyfeisiadau newydd yn fwy tebygol o ddefnyddio'r *iPad*. Mae'r drafodaeth yn parhau ar y mater hwn a go brin y bydd y canlyniad yn un syml.

Beth a olyga hyn yn y cyd-destun Cymreig? Mae tystiolaeth o weithgaredd ddigidol berthnasol yn brin. Mae'r *Wales Art Review* ar-lein yn amcangyfrif fod ganddo 2,000 o ddarllenwyr craidd (e-bost at TB 29 Ionawr 2013). Gwelodd Wavehill 60% o'i sampl yn ymweld â gwefannau am faterion cyfoes Cymreig; ymwelodd 28% â gwefannau barddol, sydd ond ychydig is na'r canran sy'n datgan eu bod yn darllen *Poetry Wales*. Fodd bynnag, nid oes gan yr un cyhoeddiad diwylliannol Cymreig digidol-yn-unig furiau talu. Ymysg y cylchgronau masnachfaint, dim ond y *New Welsh Review* sy'n cynhyrchu rhifyn digidol y gellir ei brynu. (Ers diwedd 2012 mae fersiynau e-gyhoeddi, *digi-sub* ac ap ar gael.) Ychydig o danysgrifiadau newydd nac uwchraddiadau sydd wedi eu cynhyrchu hyd yma. Ar adeg ysgrifennu'r adolygiad hwn, mae *Planet* a *Poetry Wales* yn dal i wneud ymchwil i ddewisiadau e-gyhoeddi. Felly mae'n anodd rhagfynegi patrymau gwerthiant yn y dyfodol i sicrwydd. Pe bai rhifynnau print yn cael eu diddymu yfory, byddai llawer o ffactorau'n cyfyngu'r sawl fyddai'n ymgymryd a'r gwaith yn y tymor byr, gan gynnwys teyrngarwch at gylchgronau print, syrthni, a demograffeg perchenogaeth llechen. Darganfu Wavehill nad oedd gan 62% o'u sampl gyfrifiadur llechen. Ond tra bydd y cydbwysedd hwn yn debygol o newid yn gyflym os bydd Cymru'n dilyn y duedd gyffredinol (gweler <http://www.inpublishing.co.uk/digital/viewer.aspx?uid=25>), bydd gweithredu'r newid yn dal i ofyn am gyfuniad o hyfdra ac amseru gofalus, ynghyd ag agwedd iach at ddulliau marchnata newydd.

Yn gyffredinol, roedd y rhai a wnaeth ymateb i Ymgynghoriad y Panel Adolygu yn derbyn fod y newid mawr o ffurfiau print i ddigidol yn anochel ac yn ddymunol hefyd. Byddai cyhoeddi ar-lein-yn-unig yn cael gwared â chostau ac anfanteision ymarferol dosbarthu yn syth; byddai cylchgronau'n gallu ymateb i ddigwyddiadau wrth iddyn nhw ddigwydd; byddai'n rhoi llwyfan i ddatblygiadau newydd, gan gynnwys gweld darlleniadau a pherfformiadau drwy bwysu dim ond un botwm; gallai fod yn rhyngweithiol a chyfranogol; ac fe fyddai'n rhoi cyfle i fwy o bobl weld y cylchgrawn, yn enwedig y rhai sydd yn y grŵp oedran sydd eisoes wedi symud eu harferion darllen yn sylweddol i'r cyfeiriad hwn.

Fodd bynnag, roedd llawer yn rhybuddio rhag ymdriniaeth 'unai/neu' foel. Roedd awduron yn pryderu nad oedd y cyhoeddiadau ar-lein, ar hyn o bryd, yn cynnig y statws na'r gydnabyddiaeth a fyddent yn eu derbyn drwy gylchgronau print. Câi hyn ei adleisio gan gyhoeddwy, sy'n rhoi mwy o bwys ar adolygiadau print na'r rhai a ystyrir yn fwy byrhoedlog ac â llai o awdurdod iddynt ar-lein. Byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar y grŵp oedran hŷn, sy'n cael eu cynrychioli'n anghyfartal ymysg darllenwyr presennol cylchgronau Saesneg o Gymru. Er bod y cylchgronau eu hunain yn cydnabod y manteision ymarferol a chreadigol, mynegwyd pryder ynghylch anawsterau cynhyrchu incwm o'r cynnwys ar-lein. Gan ategu Colin Morrison, roeddent hefyd yn pryderu am y baich o fod â rhagor o waith yn ogystal â chostau dechrau croes-fenter arall.

Medd Alex Clark:

'Mae datblygiadau chwim y diwylliant digidol yn gosod gofynion eithafol ar bawb sy'n ymwneud â'r diwydiant papurau newydd a chylchgronau, boed yn grwpiau cyfryngol mawrion neu gyhoeddiadau annibynnol. Byddai'n hynod annheg disgwyl i olygydd cylchgrawn bach ddatrys yr un problemau â phenaethiaid cyfundrefnau papurau newydd cenedlaethol neu hyd yn oed fyd-

eang (yn fyr, yr her fyddai rheoli cydfodolaeth y cynnwys print a digidol, o leiaf yn y tymor byr; datblygu cynnyrch digidol; a dod o hyd i fodel economaidd sy'n gweithio ar eu cyfer.) Fel ag y mae'r sefyllfa ar hyn o bryd, mae'r cylchgronau'n gorfod parhau i ariannu cyflwyniad print, tra ar yr un pryd yn mentro tuag at ddyfodol digidol sydd â'i fanylion yn amhosib eu hadnabod ond sydd yn bendant ar ei ffordd. Yn ogystal, nid newidiadau technolegol yn unig mohonynt; maent hefyd yn debygol o effeithio'n fawr ar y cynnwys golygyddol, y dulliau treulio, a hyd yn oed y cynnwys ei hun. Byddwn felly yn argymhell fod CLIC yn ymchwilio ar fyrder i bosibiliadau cefnogi'r cylchgronau drwy'r cyfnod hwn o newid, boed hynny drwy hyfforddi, neu drwy ymchwili i'r datblygiadau presennol neu groesbeillio gwybodaeth ac adnoddau. Dylwn bwysleisio nad wyf yn credu mai dewis ychwanegol yw hwn. Drwy anwybyddu'r dyfodol byddai perygl mawr i gylchgronau wastraffu arian, gyda chanlyniadau trychinebus, ac efallai beri iddynt ddarfod â bod yn gyfan gwbl hyd yn oed.

Daeth y **Panel Adolygu** i'r casgliad bod angen i CLIC annog cylchgronau i symud yn gadarn ond yn bwylllog tuag at gyhoeddi digidol gan mai dyma'r ffordd orau o gynyddu elw gwerth-am-arian ac am ei fod yn gyfle creadigol cyffrous. Gallai hyn gael ei ddatblygu drwy newidiadau yn y dulliau ariannu a'r rhaglen hyfforddi a amlinellir ar dudalen 23. Bydd gan newidiadau o'r fath nifer o oblygiadau cynyddol wrth bwysu a mesur cymhwyster a gwerth am arian, yn enwedig wrth ystyried:

- Cynnwys am ddim a chynnwys y telir amdano. Oherwydd y tirwedd digidol sy'n newid mor sydyn, roedd y Panel Adolygu yn annog mabwysiadu ymdriniaeth hyblyg a all gynnwys cymysgedd eang o fodelau cyhoeddi a fedr gynnwys muriau talu caled a meddal ac elfennau o gynnwys am ddim.
- Cynnwys wedi ei gymedroli a chynnwys heb ei gymedroli. Gan fod mwy o gydlynid, a chael hunaniaeth olygyddol gryfach, ymhlith hoff welliannau y rhai a wnaeth ymateb i'r holiadur, ni wêl y Panel Adolygu ddim rheswm dros gefnogi cynnwys heb ei gymedroli; fodd bynnag, dylid annog modelau cymedroli eraill (gan gynnwys rhai sy'n seiliedig ar y defnyddiwr) fel modd o ehangu cyfranogiad.
- Gerio. Mae'n rhaid i gyfrifon gwerth-am-arian adlewyrchu'r gwahaniaethau economaidd sylfaenol sy'n bodoli rhwng modelau print a di-brint, a'r cyfnewidiadau posib mewn cynnwys am ddim a chynnwys y telir amdano.

Yng ngoleuni'r ystyriaethau hyn, mae'r **Panel Adolygu yn ARGYMELL**

- parhau i gefnogi cylchgronau print dim ond pan fyddant yn llwyddo i gynhyrchu lefel incwm benodedig a fydd yn cyfateb i'r cymhorthdal (gweler Cwestiwn 2 uchod); trwy hynny byddant yn rhyddhau arian ar gyfer datblygiadau newydd;
- buddsoddi peth o'r arian a arbedwyd uchod i gefnogi mentrau digidol (ar-lein a llechen) arloesol, gan gynnwys deunydd talu-amdano. Gallai'r rhain fod yn gylchgronau confensiynol wedi'u cymedroli, neu'n rhai mwy rhyngweithiol, wedi'u cymedroli gan y defnyddiwr, neu'n gyfuniad o'r ddau beth;
- mabwysiadu modelau asesu gwerth-am-arian addas ar gyfer mentrau digidol.

Byddai angen trafod y telerau a'r cyfrifon yn ofalus, o ystyried y newidynnau a fyddai ynghlwm wrth hyn. Yn y cyfnod masnachfaint nesaf byddai'n rhaid i'r modelau y cytunwyd arnynt o leiaf wneud mwy o elw na'r gymhareb cyfartaledd f'cymhorthdal/copïau-a-werthwyd ar gyfer cylchgronau print wedi'u hariannu. Dylai CLIC ystyried meintoli'r lleiafswm gwahaniaeth hwn;

- hwyluso cyfleoedd hyfforddi (a amlinellir ar dud. 23 isod), yn benodol er mwyn gwneud yn siŵr fod cylchgronau'n elwa o'r posibilïadau digidol a'r dewisiadau cyllidol gwahanol sydd ar gael.

Casgliad

Gwaith y Panel Adolygu oedd mesur tymheredd sector cylchgronau diwylliannol Saesneg o Gymru ac ymchwilio i ffyrdd o hyrwyddo ei iechyd. Fel sy'n wir gyda pob diagnosis, mae'r darganfyddiadau'n canolbwyntio ar wendidau a sut y medir eu gwella nhw. Felly fe ddymuna'r Panel bwysleisio fod gan y sector lawer o gryfderau hefyd: mae cylchgronau masnachfaint yn dal i gyhoeddi llawer o'r ysgrifennu gorau yng Nghymru; mae gwaith y golygyddion yn dangos ymroddiad eithriadol, egni a deallusrwydd mewn maes sy'n mynd yn fwyfwy heriol; ac mae'r mwyafrif helaeth o'r sawl sy'n dod i gysylltiad â nhw yn gwerthfawrogi'n fawr iawn – er yn feirniadol – eu rôl wrth iddynt baratoi llwyfan i safbwyntiau a lleisiau Cymreig.

Er hynny, mae sefyllfa bresennol cylchgronau diwylliannol Saesneg o Gymru yn anghynaliadwy o ganlyniad i raddau amrywiol o'r ffactorau a amlinellir uchod: gostyngiad yn y gwerth-am-arian, neu werth sâl am arian; y bygythiad i gyhoeddi print ac ansicrwydd ynghylch y dyfodol digidol; diffyg cyfeiriad, olion brys a brath i lawer o'r hyn a gyhoeddir; ac apêl a ffocws cyfyng. Nid dim ond y Panel sy'n gweld diffygion. Dyma ganlyniad Malcom Ballin yn ei astudiaeth o gylchgronau Saesneg o Gymru:

Mae'r gynulleidfa y maent wedi ei denu yn tueddu i fod yn wan ac ansefydlog o'i chymharu â'u huchelgeisiau. Mae llawer ohonynt wedi bod yn or-ddibynnol ar gymhorthdal cyhoeddus a does fawr wedi cael ei wneud i sicrhau annibyniaeth ariannol nac i ganfod ffynonellau cefnogaeth gwahanol. Mae'r cyrff ariannu wedi creu a chynnal diffiniad cul o'r hyn sy'n ddiwylliannol, yn gelfyddydol neu'n greadigol ac felly ystyrir eu bod yn haeddu cefnogaeth boblogaidd. Efallai, oherwydd hyn, bod meysydd cyfain megis ffilm, cerddoriaeth boblogaidd, theatr a chwaraeon wedi cael llai o sylw na'r hyn fyddai rywun wedi ei ddisgwyl. Fe ymddengys fod y cylchgronau wedi osgoi trafod pynciau llosg ar brydiau ac mae adolygiadau'n aml yn rhy llednais. Prin iawn fu'r mentrau hiwmor a dychan llwyddiannus; difrifoldeb, sydd weithiau'n ymylu ar fod yn ddefosiynol, yw'r cyfeiriad gan amlaf.

Roedd nifer o'r rhai a wnaeth ymateb i'r ymgynghoriad yn teimlo yr un fath. Gall golygyddion ymateb, gyda chyfiawnhad, trwy gyfeirio at yr eithriadau. Mae adolygiad Jasmine Donahaye o *Ice*, Gillian Clarke (NWR 99, Gwanwyn 2013) er enghraifft, ymhell o fod yn ferfaidd. Mae cyfraniad Gordon Main am nitrogen hylifol yn sir Benfro (*Planet* 209,

Gwanwyn 2013) yn batrwm o newyddiaduraeth *engaged*, yn ddeallus ond eto'n hygyrch, heb fod yn academiaidd nac yn ddifrifol o gwbl. Mae rhagor o eithriadau o'r fath. Er hynny, ceir consensws cynyddol fod goblygiadau golygyddol arwyddocaol i'r gostyngiad ym mhoblogrwydd y cylchgronau a'i bod yn hen bryd newid pethau.

Ceir naratif ehangach hefyd. Mae hyn yn ymwneud â lle cylchgronau, ac yn wir â lle yr holl gyfryngau, yn y Gymru ôl-ddatganoledig. Yn 1980 dywedodd golygyddion *Arcade*: 'Mae'r Gymru Saesneg ei hiaith yn wynebu her i'w hunaniaeth, a'r unig beth sy'n cyfateb i hyn yw'r ansicrwydd ynghylch dyfodol yr iaith Gymraeg. Mewn ymateb i hyn aethant ati i greu 'fforwm ddiwylliannol i'r Cymry Saesneg eu hiaith mwyafrifol' fel 'cynhwysyn hanfodol yng ngoroesiad Cymru ym mhob ffordd.' Byrhoedlog fu'r cynllun. Yn 2013, ac er gwaethaf datganoli, mae'r un heriau yn parhau; yn wir, gellid dadlau fod y diffygion diwylliannol wedi cynyddu ac mewn ambell ffordd rydym yn llai abl i ddelio â hyn nag yr oeddem ddeg mlynedd ar hugain yn ôl.

Ceir safbwyntiau gwahanol yn y drafodaeth hon. Sylwodd Zoe Skoulding (*Poetry Wales* Cyfrol 48, rhif 3, t.2) fod yr amgyffred traddodiadol o hunaniaeth wedi cynhyrchu 'safbwyntiau hollt lluosog'. Mae llawer yn llawenhau fod safbwyntiau newydd am 'wahaniaethau mewnol' wedi disodli'r syniadau monolithig o berthyn, a bod y cylchgronau wedi gwneud yr un peth. Yn ôl yn nyddiau cyffro 1997 roedd Robert Minhinnick yn edrych ymlaen at wireddu'r addewid o newid o'r 'hunanyholi llym, plwyfol sydd wrth fôn llawer o gelfyddyd yn y wlad hon' gan ildio lle i fwy o barodrwydd 'i edrych ar y byd mawr ehangach, i ddarllen amdano, ac ymweld ag o ... gan ddychwelyd i rannu'r hyn a ddarganfuwyd, er ein lles ni oll.' Mae eraill, fodd bynnag, yn gresynu'r hyn a ystyrir ganddynt hwy yn dranc diwylliant sydd wedi ei rannu. Mae'r ddau safbwynt yn ddilys. Ym marn y Panel Adolygu, yr her yw rhoi cymorth i olygyddion a chyhoeddwyr y dyfodol wneud cyfiawnder â'r 'safbwyntiau hollt lluosog' tra'n parhau i gynnal y teimlad o gymuned a'r teimlad o wahanolrwydd – heb y rhain ni all cylchgrawn ffynnu. Byddai'n annoeth i CLIC, neu unrhyw gorff ariannu arall, i geisio rhagweld neu ragnodi sut y dylid gwneud hyn, ond fe ddylid gofyn am hynny gan y cylchgronau eu hunain, a gofyn amdano'n fwy taer nag erioed.

Modelau Ariannu Amgen

Fe ystyriodd y Panel Adolygu nifer o fodelau ariannu amgen yn y gobaith o ysgogi datblygiadau newydd a chynyddu amrywiaeth a chyrhaeddiad cylchgronau Saesneg yng Nghymru. Mae'r tri model a amlinellir isod yn dangos gwahanol bwyntiau sbectrwm eang o ddewisiadau, o'r rhai mwyaf agored i'r rhai mwyaf caeedig. Bydd y dewis yn dibynnu ar y rôl mwyaf addas a wêl CLIC ar ei gyfer ei hun. A ddylai bennu 'slot' cylchgrawn penodol ar gyfer y meysydd y dymuna roi blaenoriaeth iddynt? Neu, ar y llaw arall, a ddylai roi rhyddid i gyhoeddwyr ddatblygu eu hatebion creadigol eu hunain?

Dyma brif gryfderau a gwendidau y modelau mwyaf agored a chaeedig yn nhyb y Panel Adolygu:

Cryfderau model mwy caeedig yw:

- ei fod yn haws i'w weinyddu (h.y. cyngori ymgeiswyr a chyfiawnhau penderfyniadau), gyda chymwysterau a meini prawf asesu penodol
- ei fod yn lleihau'r posibilrwydd o ddyblygu a chael bylchau parhaol yn y ddarpariaeth

Gwendidau model mwy caeedig yw:

- fod perygl ailadrodd y strwythur presennol, sydd wedi bod yn rhannol gyfrifol am y syrthni
- fod perygl eithrio mentrau creadigol cyffrous na fydd yn cyfateb i'r gofynion a hysbysebwyd

Cryfderau model mwy agored yw:

- ei fod yn caniatáu ymateb mwy organig a hyblyg i fentrau newydd
- ei fod yn trosglwyddo graddau helaethach o berchnogaeth y sector, a'i gyfeiriad yn y dyfodol, oddi wrth fiwrocratiaeth ganolog i'r sector ei hun

Gwendidau model mwy agored yw:

- fod mwy o berygl gadael bylchau heb eu llenwi neu wedi eu gorlenwi
- fod gwneud penderfyniadau yn mynd yn llai deongliadol a chyda llai o strwythur.

Mae'r **Panel Adolygu yn ARGYMELL** fod CLIC, yng ngoleuni'r syrthni presennol a'r angen i hybu datblygiadau newydd, yn cofleidio'r model mwy agored (megis Model 1 a 3 isod) er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd ac ymatebolrwydd i fentrau creadigol newydd.

Model 1 [Agored]

Nod: cefnogi cylchgronau Saesneg o Gymru sydd wedi ymroi'n bennaf i

- lenyddiaeth, adolygiadau a thrafodaethau da o bob math, gan gynnwys barddoniaeth, ffuglen, y celfyddydau, trafod diwylliant, y cyfryngau, materion cyfoes, gwleidyddiaeth, hanes a'r amgylchedd
- roi llwyfan i awduron Cymreig yn y meysydd hyn
- gael cyswllt â'r meysydd hyn, yn enwedig yn eu perthynas â Chymru
- ehangu nifer y darllenwyr sydd â diddordeb yn y meysydd hyn

Mae'r cynllun yn agored i gyhoeddiadau print, digidol ac aml-blattform a hefyd i atodiadau mewn cylchgronau sydd eisoes yn cael eu cyhoeddi ac sy'n cyhoeddi gwaith am rai neu'r oll o'r meysydd y cyfeiriwyd atynt uchod. Rhoddir blaenoriaeth i gylchgronau sy'n manteisio ar o leiaf ddau o'r 'pedwarawd cyfryngol': y rhyngwrwyd, llechen, symudol a phrint. Nid oes amod ynghylch amllder na hyd.

Fe ddylai cyllid yr ymgeisydd ragamcanu cynhyrchu incwm sy'n ddim llai na thraean cyfanswm refeniw o flwyddyn gyntaf (a chan gynnwys blwyddyn gyntaf) y fasnachfaint.

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n gallu profi fod ganddynt gyfraniadau sicr (gan gynnwys cyfraniadau mewn newyddau) gan bartneriaid a 'thrydydd person' eraill.

Meini prawf asesu. [Bydd y rhain yn cynnwys yr holl feini prawf presennol, ond gan ychwanegu elfennau newydd a fydd yn gofyn i ymgeiswyr wireddu argymhellion yr adolygiad hwn.]

Model 2 [Caeedig]

Nod: cefnogi cylchgronau Saesneg o Gymru [maen prawf arall fel uchod], fel a ganlyn:

- cylchgrawn diwylliant cyffredinol a materion cyfoes sy'n ymddangos o leiaf bob yn ail fis mewn print ac yn ddigidol
- cylchgrawn barddol digidol
- cylchgrawn digidol sy'n canolbwyntio ar adolygiadau, ffuglen a'r celfyddydau
- gwefan mynediad-agored, gyfranogol, sy'n canolbwyntio ar rannu a hyrwyddo gwaith creadigol newydd ym mhob cyfrwng
- atodiad mewn cyhoeddiad cenedlaethol eang ei gylchrediad

Model 3 [Cymysg]

Cronfa A (cyllid tua 50%): Agored

Nod: cefnogi cylchgronau arloesol hyd at uchafswm o £25,000 i bob menter.
[Cymhwyster fel ag a welir ym Model 1]

Dylai'r cyhoeddiadau fod yn arloesol ac archwiliadol ond yn ddealladwy gan fanteisio ar o leiaf ddau o'r 'pedwarawd cyfryngol': y rhyngwrwyd, llechen, symudol a phrint.

Cronfa B (cyllid o tua 50%): Caeedig

Nod: cefnogi dau gylchgrawn yn y categorïau llenyddol a diwylliannol traddodiadol hyd at uchafswm o £53,000 ar gyfer un prif gylchgrawn ac uchafswm o £28,000 i un cylchgrawn atodol.

Hyfforddiant

Mae'r **Panel Adolygu yn ARGYMELL** fod CLIC yn chwilio am sefydliadau addas i gydweithio â nhw, gan gynnwys adrannau cyfryngol mewn prifysgolion yng Nghymru, er mwyn rhannu a lledaenu syniadau am yr arferion print a digidol gorau, modelau busnes newydd, y broses gynhyrchu ayb. Daw'r canlynol o drafodaeth a gafwyd gyda Sara Moseley, Cyfarwyddwr Cyfathrebu Llywodraeth Cymru, sydd ar hyn o bryd ar secondiad yn Ysgol Newyddiaduraeth Prifysgol Caerdydd ac yn Gyfarwyddwr Datblygu sy'n gyfrifol am arwain y Ganolfan Newyddiaduraeth Gymunedol newydd.

Gall y Ganolfan Newyddiaduraeth Gymunedol roi cyfleoedd hyfforddi i olygyddion, cyhoeddwyr a staff cylchgronau a ariennir ar hyn o bryd, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cymhorthdal bychan iawn, ac efallai hefyd y gall gynnig yr un peth i ddarpar ymgeiswyr y cyfnod cymhorthdal nesaf. Byddai'r hyfforddiant wedi ei ysgogi gan ymchwil yr Ysgol a'r GNG, ond byddai ymchwilwyr yn elwa hefyd o gydweithio â chyhoeddwyr er mwyn gweld sut y gellid rhoi eu syniadau ar waith.

Byddai hyfforddiant a chefnogaeth yn cael ei deilwra i anghenion penodol gan edrych ar botensial y cyhoeddwyr. Er hynny, byddai datblygiad a throsglwyddiad digidol yn ogystal â chynllunio busnes cynladwy yn rhan allweddol o bob hyfforddiant. Byddai hyn yn cynnwys casglu cynnwys ac adeiladu ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd yn ddigidol; cyhoeddi'n rhad neu am ddim ar amryw lwyfannau; gwneud y defnydd mwyaf posib o'r cyfryngau cymdeithasol a'r rhwydweithiau presennol er mwyn cynnal a thyfu; ac ymchwilio ac addasu modelau busnes. Yn gyffredinol, y dull gweithredu fyddai archwilio a datblygu rhwydwaith a fyddai o fudd i'r naill gyhoeddiad a'r llall sy'n canolbwyntio ar y diwylliant Cymreig a'r bywyd dinesig gyda chwlwm o ddiddordebau, cynulleidfa, ymarfer a phris.

Mae'r sylwadau hyn yn cael eu cynnig at ddibenion enghreifftiol yn unig: anogwn CLIC i gysylltu â chyrrff perthnasol eraill a fyddai â diddordeb efallai mewn partneriaeth neu'n gallu cynnig cyfleoedd hyfforddi addas, gan gynnwys Academi Cyfryngau Skillset Cymru (partneriaeth rhwng Prifysgol Cymru, Casnewydd; Prifysgol Morgannwg; Prifysgol Fetropolitan Abertawe; a Phrifysgol Aberystwyth), adrannau cyfryngau a newyddiaduraeth mewn mannau eraill, a'r Ganolfan Hyfforddiant Cyhoeddi. Dylid sicrhau darpariaeth gyllidol ar wahân i hwyluso'r datblygiad hwn.

CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

Mae'r Panel Adolygu yn argymhell fod CLIC yn

- 1 Gosod uchafswm cymhareb gerio (h.y. cyfran cymhorthdal i'r incwm a gynhyrchir) ar gyfer pob cylchgrawn print a gefnogir. Ar hyn o bryd, cyfartaledd o tua 4:1 sydd i'r gymhareb hon. Dylai ymgeiswyr yn y cyfnod masnachfaint nesaf orfod cynhyrchu uchafswm cymhareb gerio o 2:1 o flwyddyn gyntaf y cyfnod masnachfaint (a chan gynnwys y flwyddyn gyntaf) a dangos ffynonellau incwm ychwanegol sicr wrth wneud y cais.
- 2 Bwrw ymlaen â dewisiadau digidol-yn-unig o gylchgronau sy'n methu cynhyrchu neu gyflawni gofynion 1. uchod.
- 3 Creu a rhoi ar waith feini prawf gwerth-am-arian cyfartal ar gyfer cylchgronau digidol.
- 4 Gofyn i'r ymgeiswyr masnachfaint cyflwyno cynlluniau cydweithredu mwy clos rhwng cyhoeddwr/hyrwyddwr.

- 5 Gosod targedau uchel wrth hyrwyddo drwy siopau llyfrau gan ddewis dim ond y dulliau gweithredu a fydd yn debygol o roi elw sylweddol (e.e. y trafodaethau gyda Waterstones) ac fel arall roi blaenoriaeth i'r farchnad tanysgrifio.
- 6 Cefnogi datblygiadau newydd drwy
 - (a) gofleidio diffiniad o 'gylchgrawn' sy'n hyblyg ac mor anghyfarwyddol â phosibl o ran ffurf a phwnc;
 - (b) diffinio'n fwy eglur yr hyn a elwir yn 'ysgrifennu Cymreig drwy gyfrwng y Saesneg yn ei holl ffurfiau' fel bod y cymhwyster i ysgrifennu'n dda am bob pwnc (gan gynnwys hanes, gwleidyddiaeth a materion cyfoes) yn glir;
 - (c) weithredu model tendro masnachfaint newydd (gweler t.21)
- 7 Ofyn i ymgeiswyr masnachfaint ymateb yn greadigol i farn feirniadol darllenwyr ynghylch cydlynad, ansawdd a chyrhaeddiad sy'n cael ei chrynhai yn yr adolygiad hwn.
- 8 Roi mwy o adnoddau i ddatblygiadau digidol drwy
 - (a) barhau i gefnogi cylchgronau print dim ond pan fyddant yn llwyddo i gynhyrchu lefel incwm benodedig a fydd yn cyfateb i'r cymhorthdal (gweler 1 a 2 uchod); trwy hynny byddant yn rhyddhau arian ar gyfer datblygiadau newydd;
 - (b) buddsoddi peth o'r arian a gynilwyd uchod i gefnogi opsiynau digidol arloesol. Gallai'r rhain fod yn gylchgronau confensiynol wedi'u cymedroli, neu'n fodelau mwy rhyngweithiol, mynediad-agored, neu'n gyfuniad o'r ddau;
 - (c) hwyluso cyfleoedd hyfforddi, yn benodol er mwyn gwneud yn siŵr fod cylchgronau'n elwa o'r posibiliadau digidol a'r dewisiadau cyllidol gwahanol sydd ar gael.
- 9 Cael mwy o amrywiaeth yn aelodaeth Panel Grantiau Saesneg CLIC gan gynnwys unigolion sydd â mwy o brofiad ym meysydd datblygu busnesau bach, technolegau digidol, cyhoeddi cylchgronau a newyddiaduraeth.

Tony Bianchi
Alex Clark
Tim Holmes

1 Mawrth 2013

Atodiad 1

Y cylchgronau Saesneg a ariennir gan Gyngor Llyfrau Cymru ar hyn o bryd

Cylchgronau Masnachfaint	Amllder/ blwyddyn	2012/2013
<i>Planet</i>	4	70,300
<i>New Welsh Review</i>	4	58,908
<i>Poetry Wales</i>	4	28,540
<i>Agenda</i> (atodiad)	3	8,000
Cylchgronau Bach		£165,748
<i>Wales Arts Review</i>	digidol	1,500
<i>Roundyhouse</i>	1	540 (+ £464 o 2011)
<i>Envoi</i>	3	1,800
<i>Red Poets</i>	1	(£500 o 2011)

Atodiad 2

Ymateb Ymgynghorwyr Panel Adolygu Cylchgronau: Ar y cyd

Cryfderau'r cylchgronau presennol

Mae cylchgronau Saesneg o Gymru yn...

- cyfrannu tuag at ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig
- rhoi cyfle i Gymru 'siarad â hi ei hun'
- hyrwyddo trafodaeth ac ymwybyddiaeth o'r naill a'r llall ymysg awduron Saesneg o Gymru
- cysylltu'r profiad Cymreig cyfoes â thueddiadau ehangach mewn syniadau beirniadol a gwleidyddol
- cyflwyno Cymru o fewn cyd-destun rhyngwladol
- yn bwysig i awduron ifanc sy'n ceisio sefydlu eu hunain
- cyhoeddi gwaith llawer o'r prif awduron sy'n gweithio yn Ewrop heddiw
- hyrwyddo amrywiaeth o ddoniau

- adolygu gwaith a gyhoeddir yng Nghymru na fyddai fel arfer yn cael sylw beirniadol yn unman: mae Cymru'n cael ei hanwybyddu bron yn gyfan gwbl gan bapurau newydd dalen-lydan y DU
- dangos bod ysgrifennu safonol o bob math yn cael ei gynhyrchu yng Nghymru
- cynnig adolygiadau beiddgar, didwyll
- cynnig persbectifau Cymreig ar faterion byd-eang a chyflwyno diwylliant Saesneg o Gymru fel rhywbeth nodedig a gwahanol i'r diwylliannau Seisnig eraill

Gwendidau'r cylchgronau presennol

Mae cylchgronau Saesneg o Gymru yn...

- methu cyrraedd y tu hwnt i brifysgolion a'r cliciau
- methu siarad â meidrolion cyffredin
- methu adlewyrchu realiti'r fodolaeth Gymreig gyfoes i garfanau o'r boblogaeth
- euog o beidio ceisio addysgu darllenwyr ifanc neu newydd
- tueddu i gefnogi'r 'criw arferol', gan ymddangos yn gaeedig o'r herwydd
- weithiau yn ddiflas a hawdd rhagweld eu cynnwys
- angen iddynt fod yn fwy eclecticig
- yn ddi-hwyl a dihiwmor
- yn ddi-fin
- methu cynnig persbectifau Cymreig
- yn euog o beidio edrych digon y tu hwnt i Gymru
- yn euog o beidio rhoi digon o le i straeon byrion
- yn ddifffgiol ym maes cyflwyno adroddiadau cyfoes; maent yn dilyn pan y dylent arwain
- yn ymatal yn rhy aml, yn chwarae'n saff
- methu gwyntyllu pynciau llosg y dydd
- yn ddifffocws, dibersonoliaeth, di-steil, heb uchelgais na brwdfrydedd
- methu cysylltu â materion cyfoes
- methu gwasanaethu celf weledol, y theatr a cherddoriaeth
- yn brin o erthyglau trylwyr/trwyadl/manwl am y celfyddydau yng Nghymru

- yn rhy ddrud

Sialensiau canfyddedig y cylchgronau

- Gofalu am incwm cynaliadwy gan hysbysebwyd mewn gwasgfa ariannol gyffredinol a cholli rhai hysbysebwyd i lwyfannau am-ddim ar y rhyngrwyd: rhaid meddwl am strategaethau codi arian eraill
- Dosbarthu, drwy danysgrifiadau ac ystorfa: mae angen rhywfaint o waith er mwyn aros yn ddisymud hyd yn oed; wrth dyfu mae angen cyfathrebu cyson a chefnogaeth weinyddol effeithiol
- Cystadleuaeth am danysgrifiadau a dal gafael ar danysgrifwyr mewn marchnad gystadleuol, yn enwedig pan fo dirwasgiad
- Dod yn rhan o ddyfodol digidol y byd cyhoeddi
- Datblygiad parhaol gweledigaeth olygyddol sy'n ymateb i ac sy'n ffurfio hunaniaeth ddiwylliannol Cymru mewn cyd-destun lleol a rhwngwladol.
- Prinder arian ar gyfer taliadau awduron, artistiaid a dylunwyr cystadleuol; ar gyfer argraffu lliw; ar gyfer comisiynu cynnwys ar-lein; i gefnogi cynlluniau datblygu digidol
- Angen amser i adnewyddu, sefydlogi a hyrwyddo ar ôl cyfnod maith o doriadau sylweddol mewn grantiau a newidiadau strwythurol.

Y System Ariannu

- Mae'r system yn dryloyw a theg.
- Mae'r system cyfnod masnachfaint o dair blynedd yn gweithio'n dda yn nhermau sicrhau sefydlogrwydd a dilyniant
- Nid yw'r corff cyllido yn rhoi digon o bwyslais ar adfywio.
- Byddai croeso i ffyrdd gwahanol o ddosbarthu arian ymysg cylchgronau bach a rhai mawr.
- Mae ariannu CLIC yn ystumio'r farchnad ac yn gwneud bywyd yn y byd cyfryngol masnachol yn galetach nag erioed.
- Ymddengys y meini prawf fel petaent wedi eu pennu ar gyfer y sawl sydd eisoes yn derbyn cymhorthdal: ychydig o gymhelliad sydd i gylchgrawn yng Nghymru ymestyn ffiniau ac ansawdd neu gydio mewn darllenwyr newydd
- Mae'r system bresennol yn rhoi cefnogaeth ariannol anghyfartal i gefnogi cyhoeddiadau arbenigol, heb lawer o rifynnau, sydd o werth academiaidd yn bennaf: nid oes digon yn cael ei wario i gyrraedd cynulleidfa ehangach i lenyddiaeth Cymru.

- Mae meini prawf cylchgronau Saesneg a Chymraeg yn wahanol: ydi hyn yn dderbyniol?

Y Chwyldro Digidol

Unigolion:

- Dylai ymdriniaethau digidol fod yn gefnogol/ehangol yn hytrach na chystadleuol.
- Mae cylchgronau print yn gyfnodolion cofnod gwell na rhai digidol.
- Gall rhywun ddod ar draws cylchgronau digidol ar hap, darllenwyr na fyddent o angenrheidrwydd yn chwilio am ddeunydd Cymreig, tra mai dim ond nifer fechan o ddarllenwyr, yng Nghymru gan fwyaf, fydd â thanysgrifiad i'r prif gylchgronau print.
- Gall cylchgronau ar-lein fod yn fwy ac yn rhatach i'w cynnal; gellir cyhoeddi deunydd amserol yn gynt; ac ni fydd dyddiadau cwblhau yn pwyso'n ormodol ar olygyddion.
- Cynt, llai gwastraffus, mwy ymatebol.
- Boed y croeso iddo'n gynnes neu'n llugoer, fe fydd y newid i ddigidol yn digwydd.
- Mae strwythur cylchgrawn, yn wahanol i nofel, yn golygu y byddwch yn fwy tebygol o bori yn ôl ac ymlaen drwy'r gwahanol adrannau: mae'n haws gwneud hyn gyda fersiwn print.
- Byddai croeso i newid pwyslais o brint i berfformiadau byw, er mwyn i berfformiadau barddol gael eu hystyried yr un mor bwysig â barddoniaeth ar y dudalen.
- Eu rhoi ar *Kindle* ac *ipad* neu *apiau* ffonau clyfar.
- Byddai digidol yn datrys y broblem fwyaf un dros nos: dosbarthu.
- Nid yw awduron proffesiynol yn ysgrifennu ar gyfer cylchgronau ar-lein-yn-unig am nad ydynt yn talu.
- Byddai fersiynau ar-lein-yn-unig yn dieithrio llawer o ddarllenwyr.
- Yng ngolwg awdur, mae cael eich talu am waith a argreffir mewn cyhoeddiad ffisegol yn llawer pwysicach na'i weld yn cael ei deipio ar gyfer gwefan.
- Mae ystyried y cyfrwng digidol yn wrthwynebydd yn beth niweidiol iawn. Gall ddwyn ffrwyth creadigol gyda'r naill gyfrwng a'r llall yn bwydo ei gilydd.
- Mae'n rhaid cael cydbwysedd – nid yw hynny'n bodoli ar hyn o bryd. Byddai'n werth edrych ar *The Caledonian Mercury*. Gyda chymhorthdal gallem wneud rhywbeth tebyg yng Nghymru (gyda *Click on Wales*, *Wales Home* ayb. yn safleoedd lawnsio posib).

Cyhoeddwyd:

- Rhoddir mwy o bwys ar adolygiad cadarnhaol yn un o gylchgronau Saesneg o Gymru nag adolygiad cadarnhaol ar-lein... ac fe fyddai'n llawer iawn mwy tebygol o gael ei ddyfynnu mewn broliant clawr cefn.
- Mae gan gylchgronau sydd wedi eu cynhyrchu'n dda hirhoedledd a phresenoldeb weledol o'u cymharu â natur dros dro cynnyrch digidol, gan fod dyfodol ansicr i ddogfennau digidol.
- Mae cylchgronau'n dod yn llai pwysig gan fod adolygiadau'n ymddangos yn ddiweddarach nag ar wefannau.

Cylchgronau:

- Yr her fwyaf i danysgrifiadau a gwerthiant yw'r ffaith bod darllenwyr yn symud o'r cyfrwng print tuag at e-gyhoeddi, cynnwys ar-lein ac apiau, gyda'r effaith benodol eu bod yn medru darllen cynnwys ar-lein am ddim (yn enwedig adolygiadau), ac arafwch ymddangosiad byd-eang model o fur talu wedi'i ddiogelu ar gyfer cynnwys ar-lein ac apiau.
- Bellach ceir cystadleuaeth i ddenu teyrngarwch darpar gyfranwyr o ganlyniad i rôl fforymau ar-lein, blogiau a rhwydweithiau cymdeithasol wrth greu'r ymdeimlad o gymuned lenyddol, yn ogystal â'r ffaith ei fod yn dull sydyn o fynegiant.
- Mae llwyfannau lluosog yn creu mwy o waith, gan fod cylchgronau'n gorfod cael eu hailgynhyrchu i ffurf ddigidol, ac mae'n rhaid uniaethu a chysylltu â darllenwyr newydd.
- Bydd enillion ariannol y buddsoddiad yn fychan eithriadol a'r ymdrech a roddir i'w gyflawni yn aruthrol.
- Ymhen hir a hwyr bydd yn lleihau costau argraffu a dosbarthu/postio.
- Bydd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd, amrywiaeth a rhyngweithio.
- Dylai CLIC roi arian ar gyfer datblygu templad ap y gall cyhoeddwyd cylchgronau ei lwytho â chyfraniadau addas; byddai arian yn cael ei roi ar gyfer hyfforddiant hefyd.
- Tra bod y cyfryngau electronig yn cynnig llwybrau gwerthfawr o gyrraedd at ddarllenwyr – yn enwedig drwy ddangos rhagflas o gynnwys a rhoi cyfleusterau tansgrifio ar-lein – mae'n rhy fuan i ni feddwl y bydd hyn yn disodli copïau caled.

Blaenoriaethau ar gyfer Datblygu

Unigolion:

- Gwerthu cylchgronau barddol mewn mwy o ddigwyddiadau darllen barddoniaeth
- Creu cylchgronau sy'n fwy o hwyl, sy'n ddychanol, yn eclecticig, yn llachar, yn heriol ac yn llai parchus
- Cefnogi cylchgronau poblogaidd am hanes a daearyddiaeth Cymru
- Cefnogi cylchgrawn celfyddyd weledol
- Cefnogi cylchgrawn diwylliant cyfoes
- Ehangu cwmpas ysgrifenyddol
- Rhoi mwy o gefnogaeth i ysgrifenyddol newydd
- Ymdrin â ffurfiau celfyddydol eraill ar wahân i lenyddiaeth
- Sefydlu cylchgrawn straeon byrion
- Cyhoeddi papur newydd/cylchgrawn Cymreig wythnosol/pythefnosol sy'n ymdrin â newyddion cyffredinol, gan gynnwys erthyglau bwriadol am ddigwyddiadau diwylliannol
- Eu rhoi am ddim ar-lein
- Eu gwneud yn fwy atyniadol i'r llygad ac yn rhatach, yn llai tebyg i lyfrau ac yn debycach i gylchgronau
- Sicrhau fod mwy o adolygiadau, straeon a cherddi yn y cylchgronau, y cyfnodolion a'r papurau newydd cyffredinol sydd eisoes ar gael er mwyn cyrraedd cynulleidfahangach
- Gwella'r cylchgronau sydd eisoes gennym
- Denu mwy o ddarllenwyr a gwneud ymdrech fwriadol i ymryddhau o'r *ghetto*
- Gostwng prisiau tanysgrifio i'r sawl sydd ar incwm isel neu'r henoed ayb.
- Sicrhau eu bod ar gael yn haws: gwerthu/lawnsio mewn mannau nad ydynt yn cael eu cysylltu â'r 'diwylliant aruchel' megis canolfannau hamdden, tafarnau ac ysbytai
- Sefydlu fersiynau Cymreig o'r *New Statesman* a *Granta*
- Mwy o rifynnau thematig
- Creu <http://www.theartsdesk.com> ar gyfer Cymru

Efelychu partneriaethau newydd sy'n ymddangos sy'n cyfuno gair a delwedd, megis *McSweeney's* ac *Electric Literature* (y ddau o'r UDA) e.e. cydweithio ag artistiaid Cymreig newydd, creu dolen gydag *Artes Mundi* neu g39, neu *Biennale* Fenis Cymru; creu cysylltiad â chyrrff megis yr Amgueddfa Genedlaethol, yr Ardd

Fotaneg Genedlaethol neu fannau cymdeithasu a chreu celf newydd megis Milgi a Chapter; Galeri, Caernarfon, ayb. Byddai'n ymestyn y cylch ac yn annog pobl i ystyried y cylchgronau fel lle i amlinellu a thrafod eu gwaith.

- Sefydlu cylchgrawn ar gyfer marchnad ieuengach gyda briff rhyng-gelfyddydol
- Sefydlu un cyfnodolyn llenyddol-diwylliannol-gwleidyddol mawr, hardd, gyda dylanwad a *gravitas*, gyda chyllideb marchnata gadarn i gyhoeddi ei fodolaeth ac i ariannu digwyddiadau safonol cf *Irish Pages*: cosmopolitaniaeth wedi'i wreiddio. Peidier â chymysgu amrywiaeth ac ystyrlonder.
- Sefydlu rhywbeth tebyg i *Arcade* – yn ehangach ac yn rhoi llai o bwyslais ar sut y mae'n edrych ac yn ymddangos yn amlach
- Sefydlu cylchgrawn sy'n canolbwyntio ar y gair llafar a byd gweisg bychain Cymru, h.y. adolygiadau *In Chapters*, perfformiadau byw yn y *promised Land* ayb.
- Bod yn rhan o nosweithiau meic-agored, slamiau, gwyliau llenyddol ayb. gyda phresenoldeb ar-lein ryngweithiol. Cynnwys ffrwd fyw a chydweithio cerddorol.
- Cefnogi gweithgareddau diwylliannol ar lefel cymunedol
- Nid mater i noddwr yw amlinellu cynnwys nac agwedd y cylchgronau ond yn hytrach gefnogi bywiogrwydd pan fydd yn bodoli ac yn ymddangos.
- Cael cydweithrediad newyddiadurwyr cylchgronau yn hytrach na chybolfa o feirdd proffesiynol, prawfddarllenwyr, pobl gegog, academyddion, hen wynebâu sydd wedi chwythu'u plwc, wynebâu newydd sydd eisau cael eu hadnabod
- Sefydlu misolyn bywiog, llawn gwybodaeth gyda sylfaen olygyddol gadarn, adroddiadau safonol a chynnwys lleol a rhyngwladol da
- Dynwared/efelychu *Golwg/Barn*. h.y. cyhoeddiad sy'n fwy newyddiadurol/gwleidyddol, yn enwedig yng ngoleuni'r gostyngiad mawr yng nghylchrediad ac ansawdd papurau newydd Cymreig (yn enwedig y *Western Mail*)
- Hyrwyddo'n fwy egniol
- Byddai denu enwau adnabyddus (o'r tu allan i Gymru yn ogystal ag o Gymru) yn eu gwneud yn fwy atyniadol i ddarpar awduron gyflwyno eu gwaith.

Cyhoeddwyr

- Dylent gynnig gostyngiad arbennig i ddarllenwyr cylchgronau/ gwerthiant oddi-ar-y-dudalen
- Maent angen gwefannau/cylchgronau celf/adolygu a fyddai'n annog sgwrsio â darllenwyr drwy'r cyfryngau cymdeithasol

- Maent angen gwella'r berthynas ddwyffordd rhwng staff golygyddol y cylchgronau ac adrannau marchnata'r cyhoeddwy'r ynglŷn â thrafod amserlenni cyhoeddi llyfrau
- Dylent roi mwy o sylw i ddyddiadau arbennig ym mywydau awduron a fyddai o gymorth wrth hyrwyddo llyfrau sydd wedi eu cyhoeddi ers tro a llyfrau diweddar
- Byddai mwy o sylwadau golygyddol am lyfrau newydd awduron/y byd cyhoeddi presennol yn creu ymdeimlad dyfnach o fâs critigol yn y byd cyhoeddi;
- Ymestyn ffiniau er mwyn cynnwys awduron sydd wedi gweithio mewn *genres* ehangach, gan gynnwys ysgrifennu ar gyfer y teledu a drama
- Sefydlu cylchgrawn llyfrau wedi ei anelu at y prynwr cyffredin, a fyddai hefyd efallai yn gymorth i uno'r diwydiant llyfrau yng Nghymru
- Colofn lyfrau reolaidd yn y *Daily Post*
- Cael gwared â *Planet*. Mae ei amcan yn amwys ac mae'n cyhoeddi llawer iawn o ddeunydd cwbl Anghymreig ei gyd-destun neu darddiad awdur.
- Mwy o gydweithio â chylchgronau mewn gwyliau llenyddol, cystadlaethau ayb, e.e. drwy gynnig copïau am ddim o rai llyfrau
- Rhoi cymhorthdal i adolygiadau. (Mae toriadau mewn grantiau wedi arwain at lai o adolygu.)
- Dylai CLIC gyflogi cynrychiolydd gwerthiant penodol ar gyfer cylchgronau.
- Dylai cylchgronau hwyluso ymarferoldeb gyrru llyfrau i'w hadolygu e.e. dweud pwy yw'r golygydd adolygiadau, rhoi manylion cyswllt clir, amserlen ayb.

Cyngor Llyfrau Cymru

Adran Grantiau Cyhoeddi

Ymateb Cyngor Llyfrau Cymru i'r Adolygiad o Gylchgronau Saesneg o Gymru

Ym mis Chwefror 2012 cytunodd y Panel Grantiau Cyhoeddi Saesneg y dylid comisiynu adolygiad annibynnol o gylchgronau Saesneg o Gymru a'r ffrydiau ariannu sydd ar gael iddynt. Cymerwyd y penderfyniad yma gan gydnabod y cyfraniad gwerthfawr a wneir gan gylchgronau i ddiwylliant Cymru yn ogystal ag ymwybyddiaeth o'r newidiadau a'r heriau a wynebir gan y diwydiant wrth i gyhoeddi digidol symud yn ei flaen ac wrth i gynaliadwyedd ariannol ddod yn gynyddol hanfodol mewn hinsawdd economaidd anodd. Mae gwerthiant y cylchgronau a ariennir wedi gostwng yn sylweddol ers 2006 (er bod cynnydd bychan ond calonogol wedi'i weld yn ddiweddar iawn). Roedd y Panel yn cydnabod y gellid esbonio hyn, i ryw raddau, fel rhan o duedd mwy yn y sector wrth i ddarllenwyr ddod i arfer fwyfwy â darllen cynnwys am ddim ar y we ac yn ddiweddarach, wrth i'r argyfwng ariannol effeithio ar arferion prynu. Roedd yn rhaid mynd i'r afael, fodd bynnag, â'r gostyngiad mewn gwerthiant gan fod arian cyhoeddus yn cael ei wario ar gylchgronau a oedd yn cyrraedd llai o ddarllenwyr bob blwyddyn. Fel sefydliad sy'n derbyn arian gan Lywodraeth Cymru, mae gan Gyngor Llyfrau Cymru gyfrifoldeb i sicrhau gwerth am arian ar draws ei gynlluniau grantiau. Teimlai'r Panel hefyd y dylid creu cyfleoedd pellach i sicrhau bod ceisiadau o ansawdd da ar gyfer ariannu yn cael eu cyflwyno gan ystod eang o gylchgronau. Ar ben hynny, roeddent yn dymuno casglu barn darllenwyr ac i'r perwyl hynny argymhellwyd y dylid defnyddio cwmni ymchwil i'r farchnad i gynnal arolwg o'r fath a fyddai'n cydreddeg â'r adolygiad annibynnol. Mae canfyddiadau'r arolwg ymchwil i'r farchnad yn dilyn y papur hwn. Mae pwysigrwydd y cylchgronau o fewn y diwydiant cyhoeddi yn cael ei werthfawrogi'n llawn gan y Panel a chan y Cyngor Llyfrau, a'r awydd i sicrhau iechyd bywiogrwydd y sector hwn i'r dyfodol a arweiniodd at y penderfyniad i gomisiynu'r adolygiad.

Cafodd yr argymhellion a wnaed fel rhan o'r adolygiad eu derbyn yng nghyfarfod y Panel Grantiau ym mis Gorffennaf 2013. Dymuna'r Panel ddiolch i Tony Bianchi, Tim Holmes ac Alex Clark am eu gwaith trwyadl a ystyrlon. Ar ôl trafodaeth lawn, penderfynodd y Panel weithredu'r model ariannu canlynol, sydd yn fersiwn mwy agored o'r 'model cymysg' a awgrymwyd yn yr adroddiad. Hyderir y bydd y cynllun newydd yn creu cyfleoedd ar gyfer cylchgronau newydd, gan ehangu'r meini prawf i ganiatáu amrywiaeth o gylchgronau i gystadlu am arian a chaniatáu mwy o ryddid i gyhoeddwyr cylchgronau ddewis pa mor aml y byddant yn cyhoeddi a hynny yn y fformat o'u dewis. Bydd y Cyngor Llyfrau yn datblygu

systemau er mwyn mesur darllenwyr digidol, a fydd, wrth i'r cyhoeddwyr ymestyn eu darpariaeth yn y maes, yn adlewyrchu cyrhaeddiad cylchgronau ar-lein a thrwy gyfrwng dyfeisiau e-ddarllen. Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu er mwyn galluogi cyhoeddwyr cylchgronau i gadw'n gyfredol gyda datblygiadau technolegol yn ogystal â darparu cyrsiau mewn pynciau megis rheoli busnesau bach, gwerthu a marchnata. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu cynnwys digidol, a thrwy hynny ddenu darllenwyr newydd, ond cydnabyddir hefyd efallai nad dyma fydd dewis fformat neu yn wir yr un mwyaf addas ar gyfer pob darlennydd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llenyddiaeth wedi cael ei chynnal mewn gwerthfawrogiad o bwysigrwydd rôl cylchgronau wrth rhoi llwyfan i awduron ac, yn y modd y maent yn cynnwys adolygiadau a dadleuon llenyddol, yn eu cefnogaeth i waith y diwydiant cyhoeddi drwyddi draw.

Bwriad y Cyngor Llyfrau yw ariannu cylchgronau cyffredinol a llenyddol ar gymhareb gerio 2:1 o incwm grant i incwm a gynhyrchir o ffynonellau eraill. Mae hyn yn golygu y bydd disgwyl i gyhoeddwyr cylchgrawn gynhyrchu o leiaf un rhan o dair o'u hincwm (a all gynnwys ariannu mewn ffyrdd eraill) tra bod modd darparu dwy ran o dair gan y grant (hyd at swm wedi'i gapio). Fel arall, gall y grant dalu canran o'r costau lle mae hynny'n fwy ymarferol, er enghraifft yn achos cylchgrawn digidol sydd â gallu cyfyngedig i gynhyrchu incwm neu gylchgrawn am ddim. Rhoddir nodiadau esboniadol pellach ac amserlen ar gyfer gweithredu ar ôl y model a bydd canllawiau llawn a thelerau ac amodau ar gael pan fydd y cylch ceisiadau nesaf yn cael ei hysbysebu.

Datblygu'r model cymysg

Cyfanswm y cyllid ar gyfer y cynllun hwn yw £175,000. Ni chaiff unrhyw swm ei neilltuo ar gyfer un maes penodol ac eithrio hyfforddiant, ond mae'n debygol y caiff yr ariannu ei ddyfarnu yn yr holl feysydd y canolbwyntir arnynt a ddisgrifir isod.

Dyfernir yr arian am gyfnod o hyd at bedair blynedd

Caiff ceisiadau eu hystyried sy'n canolbwyntio ar un o'r meysydd canlynol:

ARIANNU AR GYFER DATBLYGU

Darperir arian cychwynnol ar gyfer mentrau newydd, arbrofol sy'n cynnwys ysgrifennu da, deniadol.

Darperir grantiau o'r gronfa hon i gyhoeddwy'r cylchgronau wedi'u lleoli yng Nghymru ar gyfer un cyfnod masnachfaint yn unig (wedi hynny caiff ymgeiswyr wneud cais am ariannu naill ai fel cylchgronau 'cyffredinol' neu 'lenyddol'). Mae ceisiadau digidol a/neu print yn gymwys. Gellir dyfarnu grantiau i dderbynwyr lluosog. Rhagwelir y byddai ariannu ar gyfer cylchgronau o'r math yma yn amrywio o £ 2,500 i tua £10,000.

Dylid nodi, er mai bwriad ariannu yn y maes hwn yw datblygu syniadau a mentrau newydd, bod croeso i ymgeiswyr newydd wneud cais am gymorth grant o dan y penawdau eraill yn lle hynny.

ARIANNU AR GYFER CYLCHGRONAU CYFFREDINOL

Bydd grantiau'n cael eu darparu i gyhoeddwy'r a leolir yng Nghymru ar gyfer cylchgronau cyffredinol sy'n cynnwys ysgrifennu da a newyddiaduraeth, adolygiadau a thrafodaethau amrywiol o ansawdd uchel. Dylai cynnwys cylchgronau ymdrin ag ystod o bynciau. Gallai meysydd pwnc posib gynnwys materion cyfoes, gwleidyddiaeth, hanes, economeg, y celfyddydau (e.e. y celfyddydau gweledol, cerddoriaeth, drama, dawn, a llenyddiaeth), diwylliant (gan gynnwys diwylliant poblogaidd), y cyfryngau, yr amgylchedd, chwaraeon a hamdden.

Pennir isafswm cyfartaledd cylchrediad i bob rhifyn ar draws pob llwyfan ar 1,000. Byddwn yn anelu at ariannu ar gymhareb gerio (h.y. cyfran o'r incwm grant i'r incwm a gynhyrchir o ffynonellau eraill) o 2:1 **neu** hyd at 50% o'r cyfanswm gwariant.

Dylai cylchgronau cymwys fod ar gael mewn mwy nag un fformat (e.e. gwe / app / egyhoeddiad / print ayb.). Gellir rhoi grantiau i dderbynwyr lluosog. Rhagwelir y bydd ariannu ar gyfer cylchgronau o'r math yma yn amrywio rhwng £2,500 a £65,000.

Gellir ystyried ceisiadau hefyd ar gyfer cynnwys atodiadau sy'n gysylltiedig â llyfrau mewn cylchgronau sydd â chylchrediad uchel ar unrhyw gyfuniad o lwyfannau lluosog (yr isafswm cyfartaledd cylchrediad fesul rhifyn ar draws pob llwyfan fydd 2,000).

ARIANNU AR GYFER CYLCHGRONAU LLENYDDOL

Bydd ariannu'n cael ei ddarparu ar gyfer ysgrifennu cylchgronau llenyddol apelgar, o ansawdd da yng Nghymru, sy'n cynnwys un neu fwy o'r meysydd canlynol fel eu prif ffocws: ffuglen fer, barddoniaeth, maes ffeithiol greadigol a adolygiadau/beirniadaeth lenyddol. Dylai ysgrifennu llenyddol fod yn brif ffocws y cylchgronau a ariennir yn y maes hwn ond nid oes angen iddo fod yr unig ffocws.

Gall cylchgronau gael ffocws unigol neu gyfuniad o'r uchod. Rhagwelir y bydd y dyraniad ariannu yn sicrhau'r bylchau lleiaf posibl yn y ddarpariaeth, tra'n osgoi gorgyffwrdd sylweddol o ddeunydd. Rhaid i gylchgronau a ariennir o dan y pennawd hwn gynnwys adolygiadau llyfrau. Nid yw cyfnodolion academiaidd ffurfiol yn gymwys i'w hariannu o dan y cynllun hwn.

Byddwn yn anelu at ariannu cymhareb gerio (h.y. y gyfran o'r incwm grant i'r incwm a gynhyrchir o ffynonellau eraill) o 2:1 **neu** hyd at 50% o'r cyfanswm gwariant. Gellir dyfarnu grantiau i dderbynwyr lluosog.

Gall cylchgronau cymwys fod yn ddigidol yn unig neu gael eu cyflenwi ar lwyfannau lluosog (gan gynnwys print). Gall cyhoeddwyr ddewis cyflwyno rhifynnau gwahanol o'r un cylchgrawn ar fformatau gwahanol os dymunant (er enghraifft, rhifynnau digidol rheolaidd ynghyd â chyhoeddiadau printiedig a gyhoeddir yn llai aml, megis rhifyn digidol misol yn ogystal â rhifyn cryno printiedig blyneddol, dau rifyn digidol yn unig ynghyd â dau rifyn print a digidol y flwyddyn ayb). Bydd yr isafswm cylchrediad ar gyfartaledd o bob rhifyn o gylchgrawn sy'n canolbwyntio ar un maes yn cael ei bennu ar 400. Bydd yr isafswm cylchrediad ar gyfartaledd fesul rhifyn i gylchgrawn aml-ffocws yn cael ei bennu ar 500. Rhagwelir y bydd ariannu ar gyfer cylchgronau o'r math hwn yn amrywio rhwng £ 2,500 a tua £55,000.

HYFFORDDIANT tua £5,000

Fe allai hyn gynnwys cyrsiau, cynlluniau mentora ac ymgynghoriaeth. Bydd hyfforddiant i gychwyn yn canolbwyntio ar ddatblygiad digidol a rheoli busnesau bach ac fe'i datblygir yn unol ag anghenion a gaiff eu hadnabod ar draws y sector.

Dylid nodi wrth gloriannu ceisiadau a phennu lefel y grant i'w ddyfarnu y bydd gwerth am arian yn cael ei ystyried. Bydd hyn yn cynnwys ystyried maint y gynulleidfa o ddarllenwyr, rheoli costau yn ddarbodus ac effeithlon, lefel arfaethedig y grant fesul copi a werthir, y gallu i gynhyrchu incwm a'r gallu i ddenu nawdd o ffynonellau eraill.

Dylai cyhoeddwy'r cylchgronau sy'n dymuno gwneud cais am symiau o £2,500 neu lai neu gylchgronau gyda chylchrediad sy'n llai na 400 o gopiau astudio'r canllawiau ar gyfer y Grant Bach i Gylchgronau Llenyddol.

Nodiadau pellach:

Cyfnod ariannu pedair blynedd

Bydd grantiau'n cael eu cynnig o dan y cynllun hwn am bedair blynedd yn hytrach na'r tair blynedd bresennol gan gynnig cyfnod hirach o sefydlogrwydd mewn amgylchiadau economaidd anodd. Rhagwelir hefyd y bydd mwy o gystadleuaeth o dan y system newydd. Bydd pedair blynedd yn rhoi amser digonol i bob cylchgrawn llwyddiannus ddatblygu darllenwyr a phrofi ei werth cyn y rownd ariannu nesaf. Bydd yn dal yn ofynnol i'r sawl sy'n derbyn grant ddarparu adroddiadau blynyddol, ffigurau gwerthiant a gwybodaeth ariannol a bydd disgwyl iddynt fynychu cyfarfod adolygu blynyddol

Cystadleuaeth ac ymgeiswyr newydd

Bydd ariannu ar gyfer datblygiad yn galluogi cyhoeddwy'r i ddatblygu syniadau newydd, mentrau newydd a chylchgronau arloesol. Ar ôl y cyfnod ariannu cychwynnol o bedair blynedd, gallai cylchgronau sy'n derbyn grant o'r gronfa hon naill ai ddod yn hunan-gynhaliol neu wneud cais am gymorth grant o'r gronfa 'gyffredinol neu'r gronfa 'lenyddol'. Bydd hyn yn hyrwyddo cystadleuaeth iach, safonau uchel a gwell gwerth am arian. Er y bydd cymorth ariannol a gynigir yn y maes hwn yn benodol ar gyfer datblygu ac arloesi, gall ymgeiswyr newydd gystadlu am grantiau o dan unrhyw un o'r meysydd a gaiff eu hariannu o dan y cynllun.

Ehangu'r meini prawf

Bydd ariannu ar gyfer cylchgronau 'cyffredinol' yn ehangu cwmpas y grant, gan ganiatáu mwy o amrywiaeth o ran cynnwys ac ymagwedd. Gall meysydd pynciau posib gwmpasu sbectwm eang o destunau, materion a phryderon sy'n cyfrannu at ddiwylliant Cymru. Nid oes unrhyw amodau o ran amllder neu hyd y cyhoeddiad. Bydd disgwyl i ymgeiswyr gynhyrchu a chadw at yr amserlen gyhoeddi, y byddant wedi'i nodi yn eu cais.

Cefnogaeth ar gyfer deunydd llenyddol

Er y rhagwelir y bydd ystod ehangach o ddeunydd yn derbyn cymorth, bydd ariannu ar gyfer cylchgronau llenyddol yn dal ar gael. Cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ysgrifennu Saesneg o Gymru gael sylw ar gyfryngau'r DU sydd wedi'u lleoli'n bennaf yn Llundain. Mae'n bwysig felly, cefnogi cylchgronau sy'n rhoi llwyfan i ysgrifennu Cymreig ac adolygiadau o lyfrau a gyhoeddir yng Nghymru, gan gryfhau'r diwydiant cyhoeddi yn ei gyfanrwydd. Mae'r meini prawf ar gyfer ariannu yn y maes hwn hefyd wedi cael eu gwneud yn fwy agored a hyblyg er mwyn caniatáu mwy o ryddid o ran ffurf ac amllder cyhoeddi ac i alluogi canolbwyntio ar agweddau unigol neu luosog o lenyddiaeth.

Hyfforddiant

Bydd yr hyfforddiant yn canolbwyntio i ddechrau ar ddatblygu digidol a rheoli busnes yn unol ag argymhelliad adroddiad y panel annibynnol ac yn y dyfodol caiff yr hyfforddiant ei deilwra ar gyfer anghenion mwyaf cyffredin a phwysicaf y cylchgronau. Gellid cyflenwi hyfforddiant gan gyrff fel y Publishing Training Centre, y Periodical Publishers Association a Phrifysgolion sy'n gweithio yn y maes hwn megis Ysgol Newyddiaduraeth Caerdydd. Bydd y Cyngor Llyfrau yn ogystal yn ymchwilio i bartneriaethau posibl eraill.

Lefelau grant

Bydd y lefelau grant ar gyfer y cronfeydd 'cyffredinol' a 'llenyddol' yn cael eu hanelu at gyrraedd y gymhareb gerio o 2:1 rhwng y grant i'r incwm a gynhyrchir a argymhellir yn adroddiad y panel annibynnol neu 50% o wariant. Byddai'r dull 'gerio' yn golygu y byddai'r grant yn darparu dwy ran o dair o gyfanswm yr incwm tra byddai disgwyl i gylchgronau gynhyrchu un rhan o dair o'u hincwm eu hunain, er enghraifft, trwy werthiant, refeniw hysbysebu, nawdd ac ariannu wedi'i brisio mewn ffyrdd eraill. Bydd y dull 'gerio' yn cael ei ddefnyddio yn y lle cyntaf, tra bydd dyfarnu canran o'r costau yn cael ei ddefnyddio os na all y cylchgronau llwyddiannus gynhyrchu lefel resymol o incwm. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i ariannu cylchgronau digidol yn unig sy'n methu cynhyrchu'r incwm angenrheidiol neu gylchgronau fydd ar gael am ddim. Yn ychwanegol at incwm a chostau, bydd ystyriaeth hefyd

yn cael ei roi i ddangosyddion eraill o werth am arian. Bydd hyn yn cynnwys nifer y darllenwyr tebygol, y lefel grant a ragwelir fesul pob copi a werthir, a'r gallu i ddenu nawdd o ffynonellau eraill.

Er bod cyhoeddi digidol yn dod yn rhan gynyddol bwysig o'r sector cylchgronau gall hefyd fod yn faes lle mae'n anodd iawn cynhyrchu elw. Fel un dull posibl o gynhyrchu incwm o gynnwys digidol, mae'r Cyngor Llyfrau ar hyn o bryd yn gweithio ar borth app, Llyfrau Cymru / Welsh Books ar gyfer llyfrau a chylchgronau. Bydd mwy o gwybodaeth ar gael unwaith y mae'r prosiect peilot wedi'i gwblhau.

Ariannu mewn ffyrdd eraill

Gall ymgeiswyr gynnwys ariannu wedi'i brisio mewn ffyrdd eraill fel rhan o'r incwm y bydd y grant yn cael ei gyfrifo yn ei erbyn. Gallai hyn gynnwys defnydd am ddim neu ar ddisgownt o ddeunyddiau, offer, llogi lleoliad, costau swyddfa, defnydd o systemau cyfrifiadurol rhwydwaith ac e-bost, post, cymorth arbenigol neu ffioedd a ildwyd, cefnogaeth marchnata a hyrwyddo, amser gwirfoddolwyr, ymgynghoriaeth, a threuliau ar gyfer uchafswm o aelodau bwrdd neu bwyllgor. Er mwyn priso'r arian mewn ffyrdd eraill dylai ymgeiswyr ymchwilio i gost adnoddau a lle bynnag y bo modd sicrhau dyfynbrisiau neu gyfwerth, y dylid eu cyflwyno gyda'u cais. Gellir cynnwys profiad gwaith a swyddi preswyl, ond dylai'r rhain gael eu trefnu'n gywir a bod drefniant sydd o fudd i bawb ac ni ddylid byth eu trefnu er mwyn osgoi rheoliadau'r isafswm cyflog cenedlaethol. Bydd y ddogfen dendr yn cynnig arweiniad ar ariannu mewn ffyrdd eraill fath i sicrhau ei fod yn cael ei werthfawrogi'n gyson ar draws y cynllun.

Cylchrediad

Mae'r ffordd y mae pobl yn darllen cylchgronau yn newid ac mae'n rhaid i'n mesur o gyrhaeddiad cylchgronau addasu i adlewyrchu hyn. Mae angen cydbwysu hyn gyda'r ffaith bod yr arian a ddyrennir yn deillio o gymhorthdal cyhoeddus ac felly mae'n rhaid i ni ofyn am wybodaeth fesuradwy na fydd yn amlygu anghysonderau yn dilyn craffu. Gall ffigurau cylchrediad gynnwys gwerthiannau a thanysgrifiadau (gan gynnwys tanysgrifiadau fel rhan o aelodaeth taledig - er bod rhaid i gylchgronau o'r fath hefyd fod ar gael i'w prynu gan y cyhoedd yn gyffredinol) a chyfartaledd ymweliadau unigryw misol â gwefannau lle mae cynnwys sylweddol megis erthyglau, cyfweiliadau, podlediadau ayb (ni fydd ymweliadau â gwefannau sydd ond yn hyrwyddo neu ddarparu gwybodaeth am y cylchgrawn yn cael eu hystyried fel rhan o gylchrediad, er y gellir casglu'r wybodaeth yma ar wahân). Caiff cyfuniad o ffigurau o wahanol fformatau eu hystyried er mwyn cwrdd â ffigur ar gyfer yr isafswm cylchrediad ar gyfer cylchgronau 'cyffredinol' a 'llynyddol'. Dylid pwysleisio mai trothwyon isafswm cymhwyso ar gyfer y grant yw'r rhain a byddem yn disgwyl i'r ffigurau fod yn uwch

na hyn ac i gynyddu wrth i'r cylchgronau ddatblygu eu darpariaeth digidol. Rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig nodi ffynonellau ffigurau ar wahân gan na fyddant bob tro yn cael eu hystyried yn gydradd o ran eu pwysigrwydd. Er enghraifft, mae tanysgrifiad i gylchgrawn yn dangos ymrwymiad i ddarllen y cylchgrawn hwnnw yn ei gyfanrwydd mewn ffordd nad yw derbyn copi am ddim neu lawrlwytho erthyglau unigol yn ei wneud. Mae'r dull o gofnodi ffigurau cylchrediad yn dilyn datblygu deunydd digidol yn dal i fod yn bwnc cymharol ddadleuol o fewn y diwydiant cyhoeddi, felly rydym wedi ceisio cyngor ar hyn gan y Periodical Publishers Association. Byddwn yn parhau i fonitro ac adolygu'r mathau o ffigurau a gesglir gennym wrth i'r cynllun ddatblygu ac yn sgîl datblygiadau technolegol. Byddwn hefyd yn parhau i osod targedau gwerthiant ar gyfer pob cylchgrawn a fydd yn annog cyrraedd cynulleidfa o ddarllenwyr newydd yn ogystal â chadw darllenwyr presennol.

Amserlen

Bydd amserlen fanylach ar gael yng Ngorffennaf 2014 ond mae'r canlynol yn darparu canllaw i ymgeiswyr arfaethedig. Caiff y tendr ei hysbysebu yng Ngorffennaf 2014 gyda dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb yn Awst 2014. Pennir y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yn gynnar yn yr hydref a chynhelir cyfweiliadau a hysbysu ymgeiswyr o'r penderfyniadau ar ddiwedd hydref 2014. Bydd ariannu yn cychwyn ar gyfer yr ymgeiswyr llwyddiannus ar Ebrill 1^{af} 2015.

Ymchwil marchnad o ddarllenwyr cylchgronau Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru

Adroddiad gan Wavehill ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru

Ionawr 2013

Paratowyd yr adroddiad gan:

Endaf Griffiths

Charlotte Ellis

Lowri Cunnington Wynn

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am yr adroddiad hwn at Endaf Griffiths i ddechrau, yn Wavehill:

ff: 01545 571711 | e: endaf.griffiths@wavehill.com

Cyswllt Cyngor Llyfrau Cymru:

Dr Lucy Thomas

ff: 01970 624151 | e: lucy.thomas@cllc.org.uk

Fersiwn yr adroddiad: Terfynol

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	2
<u>1. Cyflwyniad</u>	11
<u>2. Diben yr ymchwil a'r fethodoleg</u>	12
<u>2.1. Cyflwyniad</u>	12
<u>2.2. Diben yr ymchwil</u>	12
<u>2.3. Methodoleg</u>	12
<u>3. Cam 1: canfyddiadau'r arolwg</u>	16
<u>3.1. Cyflwyniad</u>	
<u>3.2. Pwy gymerodd ran yn yr arolwg?</u>	16
<u>3.3. Faint o ddiddordeb sydd gennych mewn...?</u>	18
<u>3.4. Ydych chi'n gyfarwydd â'r cylchgronau canlynol?</u>	23
<u>3.5. Pa mor rheolaidd ydych chi'n prynu cylchgronau?</u>	25
<u>3.6. Pa gylchgronau ydych chi'n eu prynu a/neu'n eu darllen yn rheolaidd?</u>	26
<u>3.7. Ydych chi wedi prynu cylchgronau sy'n gysylltiedig â'r pynciau hyn unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?</u>	28
<u>3.8. Pa mor aml ydych chi'n prynu neu'n darllen y cylchgronau canlynol?</u>	42
<u>3.9. Y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg</u>	45
<u>3.10. A oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth?</u>	53
<u>3.11. Cyfrifiaduron llechen</u>	54
<u>3.12. Gwefannau</u>	56
<u>3.13. Aelodaeth o unrhyw grwpiau, glybiau neu gymdeithasau</u>	59
<u>4. Cam 2: canfyddiadau cyfweiliadau manwl</u>	60
<u>4.1. Cyflwyniad</u>	60
<u>4.2. Grŵp 1: Y rhai sy'n gyfarwydd â'r cylchgrawn ond nad ydynt yn eu prynu'n rheolaidd</u>	61
<u>4.3. Grŵp 2: Y rhai sydd wedi nodi bwlch yn y farchnad</u>	63
<u>4.4. Grŵp 3: Y rhai sydd â diddordeb yn y pynciau ond nad ydynt yn prynu cylchgronau am y pynciau hynny ar hyn o bryd</u>	65
<u>4.5. Grŵp 4: Pobl Ifanc</u>	67
<u>4.6. Grŵp 5: Defnyddwyr Digidol</u>	68
<u>5. Casgliadau</u>	69
<u>Atodiad 1: Holiadur yr arolwg</u>	72
<u>Atodiad 2: Llythyr / e-bost dosbarthu'r holiadur</u>	80
<u>Atodiad 3: Dadansoddiad o'r farchnad darged ar gyfer cylchgronau unigol</u>	82
<u>Atodiad 4: Y cylchgronau a drafodwyd yn yr adroddiad yn ôl categori</u>	84

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil a gynhaliwyd ar ran Cyngor Llyfrau Cymru, a elwir yn CLIC o hyn ymlaen, ar arferion darllen a dewisiadau darllen darllenwyr cylchgronau Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru.

Cynhaliwyd y prif waith ymchwil ar gyfer y prosiect hwn mewn dau gam. Y cam cyntaf oedd arolwg o 445 o ddarllenwyr, a gynhaliwyd ar-lein a thros y ffôn. Ar gyfer Cam 2, cynhaliwyd cyfweiliadau ffôn gyda 10 o ddarllenwyr, er mwyn trafod ymhellach rhai o'r materion pwysig a nodwyd gan y prif arolwg a chasglu data ansoddol ychwanegol.


Cam 1: Canfyddiadau'r arolwg

Roedd yr arolwg wedi'i dargedu ar gyfer darllenwyr y cylchgronau hynny sy'n cael eu cefnogi gan CLIC ar hyn o bryd, a'r rhai sydd â diddordeb yn y pwnc a'r materion sy'n cael eu trafod. Felly, mae'r sampl yn darparu syniad o'r farchnad ar gyfer cylchgronau Saesneg a'r pynciau sy'n cael eu trafod. Y prif ganfyddiadau yn hyn o beth oedd:

- Roedd pedwar ar hugain y cant (107/445) o'r ymatebwyr dros 65 oed ac roedd 50% dros 55 oed/ Dim ond 8% o'r ymatebwyr oedd o dan 30 oed;
- Roedd cyfran sylweddol o'r grŵp wedi ymddeol (31%), roedd 42% mewn cyflogaeth ac 19% yn hunangyflogedig.

Mae angen ystyried hynny wrth drafod unrhyw strategaeth farchnata neu hyrwyddo ar gyfer y cylchgronau yn y pynciau sy'n cael eu hadolygu.

Ffigur 1: Faint o ddiddordeb sydd gennych chi mewn...? Canran yr ymatebwyr oedd â diddordeb mawr yn y pynciau dan sylw (canran)



N=445

[Percentage] Canran

[Generally] Yn Gyffredinol


[In Wales] Yng Nghymru

[Current affairs] Materion cyfoes
 [Politics] Gwleidyddiaeth
 [Literature] Llenyddiaeth
 [Poetry] Barddoniaeth
 [Arts] Y Celfyddydau
 [History] Hanes

Fel y dangosir yn ffigur 1, ar gyfartaledd, diddordeb pennaf y sampl oedd materion cyfoes (53% yn gyffredinol a 55% yng Nghymru) a'r diddordeb lleiaf mewn barddoniaeth (39% yn gyffredinol a 38% yng Nghymru). Roedd gan gyfran ychydig yn uwch o'r ymatebwyr ddiddordeb yn y pynciau dan sylw yng Nghymru (e.e. materion cyfoes yng Nghymru) yn hytrach nac yn gyffredinol ym mhob pwnc, ar wahân i farddoniaeth, lle'r oedd cyfran ychydig yn uwch wedi mynegi diddordeb yn y pwnc yn gyffredinol yn hytrach nac yng Nghymru (39% o gymharu â 38%). Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad yn dangos bod y gwahaniaeth ond yn ystadegol arwyddocaol yn achos 'y celfyddydau yng Nghymru', o gymharu â'r 'celfyddydau yn gyffredinol' a 'hanes', lle mae gan yr ymatebwyr, ar gyfartaledd, lawer mwy o ddiddordeb mewn hanes Cymru nac mewn hanes yn gyffredinol.

Roedd y mathau o gylchgrawn (yn nhermau pwnc) yr oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi'u prynu unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn gysylltiedig â llenyddiaeth yng Nghymru (59%) ac roedd y math yr oeddent wedi'u prynu leiaf yn gysylltiedig â hanes yn gyffredinol (16%).

Ffigur 2: Ydych chi wedi prynu cylchgronau sy'n gysylltiedig ag unrhyw rai o'r pynciau hyn unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? Y ganran a atebodd ydw




N=445

[Generally] Yn Gyffredinol
 [In Wales] Yng Nghymru
 [History] Hanes
 [The Arts] Y Celfyddydau
 [Politics] Gwleidyddiaeth
 [Poetry] Barddoniaeth
 [Current Affairs] Materion Cyfoes
 [Literature] Llenyddiaeth

Wrth gwrs, mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun argaeledd cylchgronau yn y pynciau hynny, yn ogystal â lefel y diddordeb yn y pynciau hynny. Wrth gymharu'r ymatebion ar gyfer y materion hynny yr oedd ymatebwyr wedi mynegi diddordeb ynddynt a'r mathau o gylchgronau yr oeddent wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd y blwch mwyaf amlwg mewn 'hanes'; dywedodd 41% bod ganddynt ddiddordeb mawr mewn hanes yn gyffredinol, ond dim ond 16% a ddywedodd eu bod wedi prynu cylchgrawn yr ystyrir ei fod yn trafod y pwnc hwnnw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r un patrwm yn amlwg ar gyfer 'hanes yng Nghymru', gyda 53% yn dweud bod ganddynt ddiddordeb mawr yn y pwnc, ond dim ond 23% oedd wedi prynu cylchgrawn perthnasol yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r bwlch lleiaf ar gyfer 'llesyddiaeth yng Nghymru', lle dywedodd 57% o'r ymatebwyr bod ganddynt ddiddordeb mawr yn y pwnc a dywedodd 59% eu bod wedi prynu cylchgrawn perthnasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ffigur 3(a): canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi prynu cylchgrawn perthnasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o gymharu â'r ganran o ymatebwyr a ddywedodd bod ganddynt ddiddordeb mawr yn y pwnc - CYFFREDINOL



N=445

[Purchased in the last year] Prynwyd yn y flwyddyn ddiwethaf

[Very interested] Diddordeb mawr

[Percentage of the sample] Canran o'r sampl

[History] Hanes

[Poetry] Barddoniaeth


[The Arts] Y Celfyddydau

[Politics] Gwleidyddiaeth

[Literature] Llenyddiaeth

[Current Affairs] Materion Cyfoes

Ffigur 3(b): canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi prynu cylchgrawn perthnasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o gymharu â'r ganran o ymatebwyr a ddywedodd bod ganddynt ddiddordeb mawr yn y pwnc – YNG NGHYMRU



N=445

[Purchased in the last year] Prynwyd yn y flwyddyn ddiwethaf

[Very interested] Diddordeb mawr

[Percentage of the sample] Canran o'r sampl

[History] Hanes

[The Arts] Y Celfyddydau

[Politics] Gwleidyddiaeth

[Poetry] Barddoniaeth
[Current Affairs] Materion Cyfoes
[Literature] Llenyddiaeth

Yn nhermau pa mor rheolaidd yr oeddent yn prynu cylchgronau, roedd yn bosibl dosbarthu 62% o'r sampl fel 'prynwyr rheolaidd' cylchgronau, a'u bod yn prynu o leiaf un cylchgrawn y mis, sy'n awgrymu bod galw cryf yn gyffredinol am gylchgronau o fewn y sampl. Ond, mae'n amlwg bod angen i chi fod yn gyfarwydd â chylchgrawn cyn i chi ei brynu, ac roedd yr ymatebwyr yn fwyaf cyfarwydd â chylchgronau materion cyfoes ar y cyfan (61%); hefyd, y pwnc yr oedd ganddynt y diddordeb mwyaf ynddo, fel y nodwyd uchod. Y cylchgronau yr oeddent yn lleiaf cyfarwydd â hwy oedd cylchgronau am y celfyddydau yng Nghymru (11%).


Ond, a yw'r rhai sy'n gyfarwydd â'r cylchgronau yn eu darllen neu'n eu prynu? Yn nhermau canran, 'materion cyfoes yng Nghymru' yw'r categori sydd â'r prynwyr / darllenwyr mwyaf rheolaidd (30%) a'r celfyddydau yw'r categori sydd â'r nifer isaf (2%).

Un o'r ffyrdd amlwg o gynyddu cylchrediad cylchgronau yw drwy ysgogi'r rhai sy'n gyfarwydd â chylchgrawn ac sy'n ei ddarllen yn achlysurol, i fod yn brynwyr / darllenwyr rheolaidd. Mae'r dadansoddiad yn dangos mai'r categorïau sydd â'r ganran uchaf o ymatebwyr yn y categorïau hynny yw 'hanes yn gyffredinol' (72%) a 'materion cyfoes yn gyffredinol' (67%). Canfu dadansoddiad pellach bod 75% o'r sampl cyfan (339/445) wedi'u cynnwys yn y 'farchnad darged' ar gyfer wyth cylchgrawn a ystyriwyd yn fanwl. Mae hyn yn awgrymu bod swm sylweddol o orgyffwrdd o fewn y farchnad darged ar gyfer yr wyth cyhoeddiad ac felly, ceir potensial i farchnata ar y cyd neu, efallai'n fwy arwyddocaol, traws farchnata ar eu rhan.

Gan edrych ar y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg yng Nghymru, roedd yr ymatebwyr yn teimlo'n fwyaf cadarnhaol ynglŷn â'r ddarpariaeth o gylchgronau sy'n gysylltiedig â materion cyfoes yn gyffredinol, gan roi sgôr o 7.5 allan o 10 ar gyfartaledd i'r ddarpariaeth. Roeddent yn teimlo'n lleiaf cadarnhaol ynglŷn â gwleidyddiaeth yng Nghymru (4.3 allan o 10). Roeddent hefyd o'r farn bod y ddarpariaeth o gylchgronau am y pynciau dan sylw yn well yn gyffredinol na'r ddarpariaeth o gylchgronau ar yr un pynciau o Gymru ac am Gymru. Er enghraifft, rhoddwyd sgôr o 7.6 i'r ddarpariaeth o gylchgronau materion cyfoes, o gymharu â chylchgronau materion cyfoes yng Nghymru, a dderbyniodd sgôr o 5.6.

Yn hyn o beth, mae'n amlwg bod yr ymatebwyr o'r farn bod bwlch yn y ddarpariaeth o gylchgronau sy'n trafod pynciau yng Nghymru yn benodol; rhywbeth a nodwyd hefyd yn y cyfweiliadau manwl a gynhaliwyd yng Ngham 2. Mae'r un patrwm yn amlwg pan oedd yr ymatebwyr yn trafod ansawdd y cylchgronau Saesneg; ystyrir bod y cylchgronau sy'n sôn am bynciau yn gyffredinol yn well na'r rhai sy'n trafod pynciau yng Nghymru yn benodol (gweler ffigur 4).

Ffigur 4: Sgôr (gymedrig) ar gyfartaledd ar ansawdd cylchgronau Saesneg



N=445

Llenyddiaeth yn gyffredinol
Materion cyfoes yn gyffredinol
Gwleidyddiaeth yn gyffredinol
Hanes yn gyffredinol

Y Celfyddydau
Barddoniaeth yn gyffredinol
Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru
Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru
Materion cyfoes yng Nghymru
Y celfyddydau yng Nghymru
Hanes Cymru
Gwleidyddiaeth yng Nghymru
Sgôr gymedrig

Yn ddiddorol, canfu'r dadansoddiad bod perthynas gadarnhaol rhwng barn pobl am y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg ac ansawdd y ddarpariaeth; mae'r ymatebwyr hynny sy'n rhoi sgôr uwch i'r ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg yn fwy tebygol o roi sgôr uchel i ansawdd y ddarpariaeth. Mae hyn yn awgrymu, po fwyaf ymwybodol yr ydych o'r cylchgronau sydd ar gael, y mwyaf tebygol yr ydych i roi sgôr uwch i'r ddarpariaeth. Felly, a fyddai'r farn am ansawdd cylchgronau yn cynyddu pe byddai'r ymwybyddiaeth o'r cylchgronau sydd ar gael yn cynyddu? Mae canfyddiadau'r dadansoddiad yn awgrymu y byddai.

Dywedodd cyfran gymharol fawr o'r sampl (37%) eu bod yn credu bod bwlch yn y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg yng Nghymru. Roedd hyn yn amrywio llawer yn nhermau beth oedd y bwlch hwnnw, ond nodwyd y bylchau mwyaf mewn: hanes (3% - 14/445), materion cyfoes (3% - 14/445) a gwleidyddiaeth (3% - 14/445). Mae'r atebion gwahanol a roddwyd i'r cwestiwn hwn yn rhoi syniad o'r pethau penodol iawn a nodwyd gan y grŵp hwn fel bylchau, sy'n gwneud y gwaith o dargedu'r bylchau hynny yn anodd.

Yn nhermau gwefannau, roedd cyfran uchel o'n sampl wedi ymweld â gwefannau ynglŷn â materion cyfoes yn gyffredinol (66%) a materion cyfoes yng Nghymru (60%). Fodd bynnag, dim ond 30% (135/445) o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi ymweld â gwefannau am farddoniaeth yn gyffredinol ac roedd 28% (125/445) wedi ymweld â gwefannau am farddoniaeth o Gymru ac am Gymru. Yn ddiddorol, canfu dadansoddiad o'r gwahaniaeth rhwng darllenwyr rheolaidd cylchgronau a darllenwyr achlysurol cylchgronau bod y darllenwyr rheolaidd yn fwy tebygol o ymweld â gwefannau sy'n gysylltiedig â materion cyfoes yn gyffredinol ac yng Nghymru, ond bod darllenwyr achlysurol cylchgronau yn fwy tebygol o ymweld â gwefannau barddoniaeth, y celfyddydau a hanes yn gyffredinol ac yng Nghymru.

Cam 2: Canfyddiadau cyfweiliadau manwl

Roedd ail gam y gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar 10 cyfweiliad ffôn mawl gydag ymatebwyr yr arolwg, a oedd wedi cytuno i gymryd rhan mewn astudiaeth bellach o'r pwnc. Er y gallai'r angen i ddewis cyfranogwyr effeithio ar y gallu i gyffredinoli yn dilyn canlyniadau'r ail gam, roedd angen gwneud hyn er mwyn targedu'r prif ddarllenwyr ac adolygu potensial cylchgronau Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru. Yn seiliedig ar ganfyddiadau Cam 1, penderfynwyd y byddai'r prif fathau o ddarllenwyr i'w holi yn ddarllenwyr yn y categorïau canlynol:

- Y rhai sy'n gyfarwydd â'r cylchgronau ond nad ydynt yn eu prynu'n rheolaidd
- Y rhai sydd wedi nodi bwlch yn y farchnad
- Y rhai sydd â diddordeb mewn pwnc ond nad ydynt yn prynu cylchgronau am y pynciau hynny ar hyn o bryd
- Pobl ifanc
- Defnyddwyr digidol

Yna, dewiswyd dau o bob categori, yn seiliedig ar eu hymatebion cychwynnol i'r holiadur.

Canfu'r cyfweiliadau bod y pwyntiau isod yn berthnasol i bob un o'r 10 cyfranogwr wrth brynu neu danysgrifio i gylchgrawn:

- Mae'r dyluniad a'r cynllun, yn cynnwys cyfuniad da o gynnwys manwl ac ysgafn, yn bwysig i ddarllenwyr cylchgronau;
- Diffyg cyffredinol o ymgyrch farchnata a hysbysebu effeithiol o gylchgronau Saesneg;
- Mae'r ffocws ar Gymru a diwylliant perthnasol o Gymru yn dirywio yn y cylchgronau hynny sydd ar gael ar hyn o bryd;
- Mae angen cylchgrawn 'cyffredinol' sy'n benodol ar gyfer pobl ifanc;
- Mae angen offer ar-lein ac offer digidol yn cynnwys blogiau, mathau o rwydweithio cymdeithasu er mwyn darparu rhagflas o gylchgrawn, rhannu syniadau ymhlith darllenwyr ac yn y blaen;
- Dylid cael mwy o bresenoldeb mewn digwyddiadau byw, cynadleddau a grwpiau ymchwil cyffredinol.

Er bod y cyfranogwyr oedrannau amrywiol a bod ganddynt ddiddordebau gwahanol iawn, roedd eu safbwyntiau yn debyg iawn, yn cynnwys yr hyn yr oeddent hwy'n ei gredu oedd nodweddion negyddol a chadarnhaol cylchgronau Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru. Er enghraifft, roedd consensws cyffredinol wrth drafod yr angen am wasanaeth ar-lein cynhwysfawr, yn ogystal â'r diffyg perthnasedd ynglŷn â Chymru a diwylliant Cymru. Fodd bynnag, nid oedd cost yn flaenoriaeth i nifer o bobl, a mynegwyd y farn gyffredinol bod pobl yn barod i wario os yw'r cynnwys yn addas ac yn ddiddorol.

O'r data a gasglwyd, gellir dadlau bod cylchgronau yn dylanwadu, a hyd yn oed yn penderfynu arferion prynu darllenwyr, felly gallai cynnydd yn nifer y darllenwyr a'r tanysgrifwyr arwain at gynnydd cyffredinol yn y diddordeb mewn llenyddiaeth yng Nghymru / o Gymru yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen gwneud llawer o waith er mwyn denu a chynnal darllenwyr newydd, gyda hysbysebu, argaeledd ac ansawdd ymhlith y blaenoriaethau a nodwyd. Er nad yw'n bosibl cyffredinoli o'r canlyniadau uchod oherwydd natur y gwaith ymchwil, mae'n amlwg bod gan nifer o'r bobl yr un farn, a bod yr angen i addasu a moderneiddio yn datblygu i fod yn flaenoriaeth uchel.

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan arbenigwyr ymchwil Wavehill ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru i arferion darllen a dewisiadau darllen darllenwyr cylchgronau Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru.

Cyflwynir yr adroddiad fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn cyflwyno diben y gwaith ymchwil a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd;
- Mae Adran 3 yn trafod canfyddiadau'r prif arolwg o ddarllenwyr;
- Mae Adran 4 yn ystyried canfyddiadau'r cyfweiliadau ansoddol manwl a gynhaliwyd gyda sampl bychan o ddarllenwyr yn dilyn y prif arolwg;
- Yn olaf, mae Adran 5 yn cyflwyno casgliadau'r ymchwil.

2. Diben yr ymchwil a'r fethodoleg

2.1. Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r cyd-destun ar gyfer gweddill yr adroddiad, drwy esbonio diben yr ymchwil a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y tîm ymchwil.

2.2. Diben yr ymchwil

Mae Cyngor Llyfrau Cymru (a elwir yn CLIC o hyn ymlaen) yn gorff cenedlaethol, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, sy'n darparu ffocws i'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Mae'n darparu nifer o wasanaethau arbenigol (ym meysydd golygu, dylunio, marchnata a dosbarthu), gyda'r bwriad o wella safonau cynhyrchu a chyhoeddi llyfrau Cymraeg a Saesneg. Mae hefyd yn dosbarthu grantiau i gyhoeddwr ac yn hyrwyddo darllen a llythrennedd yn weithredol yng Nghymru.

Mae CLIC yn gweinyddu dau gynllun gwahanol ar gyfer cylchgronau Saesneg ar hyn o bryd. Mae'r Grant Cylchgronau Llenyddol/Diwylliannol yn ariannu cylchgronau o werth llenyddol a diwylliannol sydd ag ymgysylltiad cryf â phynciau Cymreig sydd wedi'u hysgrifennu'n Saesneg. Mae'r grant yn cael ei rannu ar hyn o bryd rhwng y cylchgronau canlynol: Planet, New Welsh Review, Poetry Wales ac atodiad llenyddol wyth tudalen yn Agenda. Mae grantiau o'r cynllun hwn yn cael eu dyfarnu am dair blynedd fel arfer. Mae grantiau llai yn cael eu dyfarnu o'r cynllun Grant Cylchgronau Bach, sy'n cael eu rhoi'n flynyddol ac sydd wedi ariannu cylchgronau llenyddol megis Envoi, Roundyhouse, Blue Tattoo, Red Poets, Leaf Writer's Magazine, Scintilla a The Racounteur.

Yng nghyfarfod y Panel Grantiau Cyhoeddi ym mis Chwefror 2002, cytunwyd y dylid comisiynu panel annibynnol i adolygu'r ddarpariaeth sydd ar gael i ddarllenwyr cylchgronau Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru. Bydd yr adolygiad yn ystyried y cylchgronau sydd ar gael ac yn argymhell model ariannu a fydd yn darparu darpariaeth o'r safon uchaf i ddarllenwyr yng Nghymru, yn ogystal â gwerth am arian. Mae nodi arferion darllen a dewisiadau darllen darllenwyr yng Nghymru yn rhan allweddol o'r gwaith a fydd yn cael ei wneud. Ochr yn ochr â'r adolygiad hwn, mae CLIC wedi comisiynu arolwg o ddarllenwyr cylchgronau Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru, ac mae canfyddiadau'r arolwg hwn yn cael eu trafod yn yr adroddiad hwn. Bydd y canfyddiadau yn helpu'r panel annibynnol sy'n cynnal yr adolygiad i wneud argymhellion i CLIC.

2.3. Methodoleg

Cynhaliwyd prif waith ymchwil y prosiect hwn mewn dau gam. Y cam cyntaf oedd arolwg o ddarllenwyr. Yna cynhaliwyd cyfweiliadau ffôn gyda sampl llai o ddarllenwyr, er mwyn trafod ymhellach rhai o'r prif faterion a nodwyd yn y prif arolwg a chasglu data ansoddol ychwanegol.

2.3.1. Cam 1: Yr arolwg

Datblygwyd yr holiadur ar gyfer y prif arolwg mewn ymgynghoriad â CLIC; mae copi o'r fersiwn terfynol ar gael yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn. Yna, cafodd y fersiynau terfynol eu postio ar-lein yn Gymraeg yn www.cylchgronauaesneg.co.uk ac yn Saesneg yn www.magazinesfromwales.co.uk (gweler y sgrinluniau yn Ffigur 2.1).

Cynlluniwyd yr holiadur er mwyn sicrhau na fyddai'n cymryd mwy na 10 munud yn gyffredinol i'w gwblhau, yn dibynnu ar swm y wybodaeth a oedd yn cael ei rhoi gan yr ymatebwr wrth gwrs. Fel arall, gwahoddwyd yr ymatebwyr i drefnu apwyntiad i gwblhau'r holiadur dros y ffôn gydag ymchwilydd (drwy ffonio rhif rhadffôn) neu drwy anfon eu manylion cyswllt i gyfeiriadau e-bost a drefnwyd yn benodol ar gyfer y gwaith ymchwil hwn (cylchgronauaesneg@wavehill.com) neu (magazinesfromwales@wavehill.com). Fel cymhelliant, roedd pawb a oedd yn cwblhau'r holiadur naill ai ar-lein neu dros y ffôn yn derbyn gwahoddiad i gymryd rhan mewn cystadleuaeth. Y brif wobwr oedd £100 o docynnau llyfrau a phedair gwobr £25 o docynnau llyfrau yr un.

Roedd yr arolwg wedi'i dargedu ar gyfer darllenwyr presennol cylchgronau Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru, a'r rhai â diddordeb yn y materion a oedd yn cael eu trafod (h.y. darpar darllenwyr). Felly, cysylltwyd â chyhoeddwyd cylchgronau Saesneg yng Nghymru i drafod a fyddent yn barod i helpu i ddosbarthu'r holiadur. Anfonwyd llythyr a/neu neges e-bost (Atodiad 2) at danysgrifwyr y cylchgronau canlynol, yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg: Agenda (Sefydliad Materion Cymreig), Planet, New Welsh Review, Poetry Wales a Cambria¹. Cyhoeddwyd darn am yr arolwg hefyd ar gyfrif Facebook Planet.

Casglwyd cysylltiadau e-bost hefyd oddi ar wefannau Prifysgolion Cymru (Aberystwyth, Abertawe, Caerdydd, Bangor, Y Drindod Dewi Sant, Morgannwg a Phrifysgol Cymru). Yn arbennig nodwyd gwybodaeth gyswllt staff a oedd yn gweithio mewn adrannau perthnasol; er enghraifft, Cymraeg, Saesneg, Ysgrifennu Creadigol. Casglwyd mwy na 200 o fanylion cyswllt yn y broses hon, ac anfonwyd neges e-bost atynt yn esbonio'r gwaith ymchwil gyda chysylltiadau i dudalen lanio holiadur ar y we.

Yn ogystal â'r uchod, cysylltwyd â rhestr o sefydliadau perthnasol a oedd wedi'u clustnodi gan CLIC. Arweiniodd hyn at:

- Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cyhoeddi erthygl ar eu tudalen Facebook ac yn anfon neges i'w holl ddilynwyr ar Twitter;
- Gwnaeth Gŵyl y Gelli yr un peth drwy bostio neges ar Facebook ac anfon neges Twitter i'w holl ddilynwyr;
- Cytunodd Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i ychwanegu darn i'w cylchlythyr;
- Cytunodd Adolygiad Celfyddydau Cymru hefyd i roi darn yn eu cylchlythyr;
- Dosbarthodd Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru neges e-bost i'w holl gydweithwyr yn llyfrgelloedd AU mewn llyfrgelloedd yng Nghymru.

¹ Oherwydd rheol diogelu data, anfonwyd llythyrau / negeseuon naill ai'n uniongyrchol at y tanysgrifwyr gan y cyhoeddwyd, neu gan ddefnyddio amlenni 'untro' a ddarparwyd gan y cyhoeddwyd. Un o ganlyniadau anochel hyn oedd bod rhai unigolion wedi derbyn mwy nac un llythyr / neges e-bost am yr arolwg. Fodd bynnag, dim ond unwaith y gallent gwblhau'r holiadur.

Anfonwyd neges e-bost at y sefydliadau canlynol, yn gofyn am eu cymorth, ond nid ydym yn gwybod pa gamau a gymerwyd ganddynt.

- Sefydliad Bevan
- Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol
- Cymdeithas Ddysgedig Cymru
- Cymdeithas Celfyddydau'r Merched
- Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth
- Sefydliad y Glowyr y Coed-duon
- Canolfan Hanes a Chelfyddydau Butetown
- Cell B, Blaenau Ffestiniog
- Canolfan Dylan Thomas, Abertawe
- Galeri, Caernarfon
- Canolfan Gelfyddydau'r Eglwys Norwyaidd, Caerdydd
- Canolfan Gelfyddydol Sain Dunwyd, Llanilltud Fawr
- Theatr Mwldan, Aberteifi
- Theatr Soar, Merthyr Tudful
- The Gate, Caerdydd
- Theatr y Torch, Aberdaugleddau
- Canolfan Ucheldre, Caergybi
- Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd
- Ballet Cymru
- Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru
- Cymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru
- Music Theatre Wales
- Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig
- Cymdeithas Cerddoriaeth Cymru
- Opera Cenedlaethol Cymru
- National Theatre Wales
- Theatr Genedlaethol Cymru
- The London Welsh Centre
- Steddfota.org
- Meractor

Fe wnaethom hefyd ddefnyddio techneg 'pelen eira' ar gyfer dosbarthu'r holiadur, drwy ofyn i ymatebwyr anfon y cyswllt i'r holiadur ymlaen at eraill yr oeddent yn credu fyddai â diddordeb ym mhynciau'r holiadur.

Roedd yr arolwg yn 'weithredol' rhwng 19^{eg} o Fedi 2012 a'r 2^{il} o Dachwedd 2012. Cyflwynwyd 445 o ymatebion rhwng y dyddiadau hynny.

2.3.2. Cam 2: Cyfweiliadau manwl

Cynhaliwyd cyfweiliadau ffôn gyda 10 o ymatebwyr rhwng 3^{ydd} a'r 11^{eg} o Ionawr 2013. Diben y cyfweiliadau hyn oedd gwneud ymholiadau pellach a thrafod rhai o'r materion a nodwyd ymhellach yn dilyn y dadansoddiad cychwynnol o'r data a gasglwyd gan y prif arolwg, a thrafodaethau dilynol gyda CLIC.

Roedd y cyfweiliadau'n canolbwyntio ar y grwpiau canlynol o 'ddarllenwyr':

- Y rhai sy'n gyfarwydd â'r cylchgronau ond nad ydynt yn eu prynu'n rheolaidd
- Y rhai sydd wedi nodi bwlch yn y farchnad
- Y rhai sydd â diddordeb mewn pwnc ond nad ydynt yn prynu cylchgronau am y pynciau hynny ar hyn o bryd
- Pobl ifanc
- Defnyddwyr digidol (h.y. dyfeisiadau llechen ond hefyd y rhai sy'n darllen ar-lein).

Ffigur 2.1: Sgrînluniau o ‘dudalen lanio’ fersiynau Cymraeg a Saesneg o’r arolwg ar-lein

wavehill

ymchwil gwerthuso arolygon
research evaluation surveys

Call Wavehill:

01545 571711

www.wavehill.com

The questionnaire

About the Welsh Books Council

About Wavehill



Market research: English language magazine published in Wales

The purpose of the research is to collate the views of people who have an interest in literary, cultural and current affairs issues in Wales. In particular, the research is exploring the reading habits of those with such an interest and views on English language magazines in that field published in Wales. The findings will be used to inform the ongoing activities of the Welsh Books Council including the funding of magazines published in Wales.

The questionnaire should take no more than 10 minutes to fill-in depending of course on how much information you're providing. Alternatively, you can book an appointment to complete the questionnaire via a telephone conversation with one of our researchers by calling 0800 917 5249 (freephone) or by emailing your contact details to magazinesfromwales@wavehill.com or cylchgronauaesneg@wavehill.com.

As a thank you, everybody who completes a questionnaire either on-line or by telephone is entered into a prize draw. The first prize is £100 of book tokens and there will be four other prizes of £25 of book tokens each.

We want to ensure that as many people as possible participate in this research so please feel free to forward a link to this page to any of your colleagues or friends who you believe would be interested in participating.

Please note that this questionnaire is being circulated to gather the opinions of readers of magazines and is separate from the questionnaires circulated by Tony Bianchi amongst those involved in the magazine industry in various capacities.

CLICK HERE TO START THE QUESTIONNAIRE

▶

wavehill

ymchwil gwerthuso arolygon
research evaluation surveys

Ffoniwch Wavehill:


01545 571711

www.wavehill.com

Yr holiadur

Cyngor Llyfrau Cymru

Wavehill



Ymchwil i'r Farchnad: cylchgronau Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru

Pwrpas yr ymchwil yw casglu barn pobl sydd â diddordeb mewn materion llenyddol, diwylliannol a chyfoes yng Nghymru. Yn benodol, mae'r ymchwil yn ymchwilio i arferion darllen y rheiny sydd â'r diddordebau hyn yn ogystal ag ymchwilio i'w barn ar gylchgronau Saesneg yn y meysydd hyn a gyhoeddir yng Nghymru. Defnyddir canfyddiadau'r ymchwil i roi gwybodaeth i weithgareddau parhaus Cyngor Llyfrau Cymru gan gynnwys ariannu cylchgronau a gyhoeddir yng Nghymru.

Ni ddylai'r holiadur yr hoffem i chi ei lenwi gymryd mwy na 10 munud i chi, yn dibynnu wrth gwrs ar faint o wybodaeth yr ydych am ei rhoi. Neu fel arall gallwch drefnu amser i lenwi'r holiadur drwy sgwrs ffôn ag un o'n hymchwilywyr drwy ffonio 0800 917 5249 (am ddim) neu drwy ebostio eich manylion cysylltu i cylchgronauaesneg@wavehill.com neu magazinesfromwales@wavehill.com.

Fel diolch, bydd enw pawb sy'n llenwi'r holiadur – naill ai ar-lein neu dros y ffôn – yn cael ei roi mewn het. Y wobwr gyntaf fydd gwerth £100 o docynnau llyfr ac yna bydd pedair gwobr arall o docynnau llyfr £25 yr un.

Rydym am gael cynifer o bobl â phosibl i gymryd rhan yn yr ymchwil hwn. felly mae croeso i chi anfon link i'r dudalen yma at unrhyw un o'ch cydweithwyr neu ffindiau os credwch y byddai ganddynt ddiddordeb cymryd rhan.

Sylwer bod yr holiadur hwn yn cael ei ddosbarthu i gasglu barn darllenwyr cylchgronau ac mae'n wahanol ac ar wahân i'r holiaduron a ddosbarthwyd gan Tony Bianchi i'r rheiny sy'n ymwneud â'r diwydiant cylchgronau mewn swyddi amrywiol.

Cliciwch yma i gwblhau'r holiadur

▶

3. Cam 1: Canfyddiadau'r arolwg

3.1. Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg ar-lein / ffôn a gyflwynwyd yn adran flaenorol yr adroddiad.

3.2. Pwy gymerodd ran yn yr arolwg?

Cyfrannodd cyfanswm o 445 o unigolion yn yr arolwg. O'r rhain:

- cwblhaodd 427 ohonynt yr arolwg ar-lein ac roedd 13 yn gyfweiliadau ffôn;
- Cynhaliwyd wythdeg pedwar y cant (375/445) o'r cyfweiliadau yn Saesneg ac 16% (70/445) yn Gymraeg;
- Roedd pedwar deg un o'r ymatebwyr yn ferched a phum deg naw yn ddynion (184/445 o gymharu â 261/445);
- Roedd dau ddeg pedwar y cant (107/445) o'r ymatebwyr dros 65 oed, ac roedd 50% (224/445) dros 55 oed. Dim ond 8% (34/445) o'r ymatebwyr oedd o dan 30 oed.

Dywedodd naw deg tri y cant (412/445), o'r ymatebwyr eu bod yn byw yn y DU, gyda'r mwyafrif ohonynt yn dod o Gymru (71%; 316/445), ac yn arbennig Caerdydd (13%; 60/445) a Cheredigion (10%; 46/445). O'r 33 o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn byw y tu allan i'r DU, dywedodd 30% (10/33) ohonynt eu bod yn dod o UDA, dywedodd 12% (4/33) eu bod yn dod o Awstralia, a dywedodd 12% (4/33) arall eu bod yn byw yn Ffrainc.

Dywedodd pedwar deg dau y cant (187/445) o'r ymatebwyr eu bod mewn cyflogaeth, dywedodd 31% (136/445) eu bod wedi ymddeol a dywedodd 19% (86/445) eu bod yn hunangyflogedig. Fel y dangosir yn Nhabl 1 isod, y proffesiwn mwyaf cyffredin ymhlith yr ymatebwyr oedd darlithydd prifysgol.

Tabl 3.1: Proffesiwn cyfranogwyr yr arolwg


	N	%
Darlithydd Prifysgol	35	12.8
Awdur	21	7.7
Athro / Athrawes	13	4.7
Cyfarwyddwr	12	4.4
Llyfrgellydd	11	4.0
Rheolwr	9	3.3
Cyfieithydd	8	2.9
Artist	7	2.6
Ymgynghorydd	7	2.6
Swyddog Llywodraeth Leol	7	2.6
Academydd	6	2.2
Golygydd	6	2.2
Newyddiadurwr	6	2.2
Gweinyddwr	5	1.8
Cynorthwy-ydd Gwerthu	5	1.8
Busnes	4	1.5
Gwas Sifil	4	1.5
Meddyg	4	1.5
Peiriannydd	4	1.5
Addysg Uwch	4	1.5
Marchnata	4	1.5
Ymchwil	4	1.5

N=274, Nodwch, nid yw'r tabl ond yn dangos >4 o ymatebion

3.3. Faint o ddiddordeb sydd gennych mewn...?

Gofynnwyd i'r ymatebwyr faint o ddiddordeb a oedd ganddynt mewn materion amrywiol, yn gyffredinol ac yng Nghymru. Mae hyn yn ein galluogi i gymharu diddordeb cymharol ar draws y materion gwahanol a rhwng materion Cymreig a materion yn gyffredinol. Fel y dangosir yn y graff isod, ar gyfartaledd, roedd gan y sampl y diddordeb mwyaf mewn materion cyfoes a'r diddordeb lleiaf mewn barddoniaeth. Gan edrych ar y ffigurau ar gyfer 'yng Nghymru', roedd y lefel uchaf o ddiddordeb mewn llenyddiaeth yng Nghymru a'r diddordeb lleiaf oedd mewn barddoniaeth yng Nghymru.

Ffigur 3.1: Faint o ddiddordeb sydd gennych mewn...? Canran yr ymatebwyr a oedd â diddordeb mawr yn y pynciau dan sylw (canran)



N=445

[Percentage] Canran

[Generally] Yn Gyffredinol

[In Wales] Yng Nghymru

[Current affairs] Materion Cyfoes

[Politics] Gwleidyddiaeth

[Literature] Llenyddiaeth

[Poetry] Barddoniaeth

[Arts] Y Celfyddydau

[History] Hanes

Mae'r data yn ein galluogi i archwilio a oes gan yr ymatebwyr ddiddordeb penodol mewn materion sy'n ymwneud â Chymru, o gymharu â diddordeb yn gyffredinol. Defnyddir *prawf modd paru* i brofi'r gwahaniaeth mewn diddordeb ar draws y sampl².

Mae'r dadansoddiad yn dangos nad oes gwahaniaeth rhwng y lefelau o ddiddordeb mewn materion cyfoes, gwleidyddiaeth, llenyddiaeth neu farddoniaeth pan fyddant yn ymwneud â Chymru o gymharu â'r diddordeb yn y materion hynny'n fwy cyffredinol. **Fodd bynnag, rydym wedi canfod bod gan yr ymatebwyr lawer mwy o ddiddordeb yn y Celfyddydau yng Nghymru na'r Celfyddydau**

² Prawf o arwyddocâd ystadegol: http://en.wikipedia.org/wiki/Student's_t-test

yn gyffredinol. Mae'r un peth yn wir am Hanes, lle'r oedd yr ymatebwyr, ar gyfartaledd, yn mynegi llawer mwy o ddiddordeb mewn hanes Cymru nac mewn hanes yn gyffredinol.

Tabl 3.2: Cymhariaeth o'r lefel o ddiddordeb mewn gwahanol bynciau yng Nghymru ac yn gyffredinol, ac arwyddocâd ystadegol y gwahaniaeth hwnnw.

Maes Pwnc	Diddordeb cyffredinol	Diddordeb yng Nghymru	Prawf o'r gwahaniaeth
Materion Cyfoes	2.4667	2.4022	
Gwleidyddiaeth	2.1640	2.1798	
Llenyddiaeth	2.3978	2.4157	
Barddoniaeth	1.9011	1.9483	
Y Celfyddydau	2.2674	2.3371	***
Hanes	2.1910	2.3551	***

***= $P < 0.01$, ** = $P < 0.05$, * = $P < 0.1$, 4 o ddiddordeb, yn amrywio o 0 (dim diddordeb) i 3 (diddordeb mawr)

Mae'r canlynol yn drafodaeth bellach o'r data ar gyfer y meysydd pwnc unigol.

3.3.1. Materion cyfoes

Wrth edrych ar faterion cyfoes, mae'n bosibl gweld bod gan 55% (246/445) lawr iawn o ddiddordeb mewn materion cyfoes yng Nghymru, o gymharu â 53% (234/445) a ddywedodd bod ganddynt lawr iawn o ddiddordeb mewn materion cyfoes yn gyffredinol. Mae prawf modd paru yn dangos nad yw'r gwahaniaeth ar draws y sampl yn arwyddocaol ar gyfartaledd: nid oes gan yr ymatebwyr fwy neu lai o ddiddordeb mewn materion cyfoes yng Nghymru nac mewn materion cyfoes yn gyffredinol.

Tabl 3.3: Faint o ddiddordeb sydd gennych chi mewn Materion cyfoes?

	Materion cyfoes (%)	
	Yn gyffredinol	Yng Nghymru
Diddordeb mawr	53	55
Diddordeb	36	31
Rhywfaint o ddiddordeb	11	12
Dim diddordeb o gwbl	0	2

3.3.2. Gwleidyddiaeth

Dywedodd deugain y cant (198/445) o'r ymatebwyr bod ganddynt ddiddordeb mawr mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru, o gymharu â 41% (184/445) o ymatebwyr a ddywedodd bod ganddynt ddiddordeb mawr mewn gwleidyddiaeth yn gyffredinol. Mae prawf modd paru yn dangos nad yw'r gwahaniaeth ar draws y sampl yn arwyddocaol ar gyfartaledd: nid oes gan yr ymatebwyr fwy neu lai o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru nac mewn gwleidyddiaeth yn gyffredinol.

Tabl 3.4: Faint o ddiddordeb sydd gennych chi mewn gwleidyddiaeth?

	Gwleidyddiaeth (%)	
	Yn gyffredinol	Yng Nghymru
Diddordeb mawr	41	44
Diddordeb	36	32
Rhywfaint o ddiddordeb	21	20
Dim diddordeb o gwbl	2	3

3.3.3. Llenyddiaeth

Wrth holi'r ymatebwyr ynglŷn â llenyddiaeth, dywedodd 57% (252/445) ohonynt fod ganddynt ddiddordeb mawr mewn llenyddiaeth yng Nghymru, o gymharu â 54% (242/445) o ymatebwyr a ddywedodd bod ganddynt ddiddordeb mawr mewn llenyddiaeth yn gyffredinol. Mae prawf modd paru yn dangos nad yw'r gwahaniaeth ar draws y sampl yn arwyddocaol ar gyfartaledd: nid oes gan yr ymatebwyr fwy neu lai o ddiddordeb mewn llenyddiaeth yng Nghymru nac mewn llenyddiaeth yn gyffredinol³.

Tabl 3.5: Faint o ddiddordeb sydd gennych chi mewn Llenyddiaeth?

	Llenyddiaeth (%)	
	Yn gyffredinol	Yng Nghymru
Diddordeb mawr	54	57
Diddordeb	32	30
Rhywfaint o ddiddordeb	12	12
Dim diddordeb o gwbl	1	2

3.3.4. Barddoniaeth

Dywedodd tri deg wyth y cant (171/445) o'r ymatebwyr bod ganddynt ddiddordeb mawr mewn barddoniaeth o Gymru ac am Gymru, yn debyg i'r 39% (172/445) o ymatebwyr a ddywedodd bod ganddynt ddiddordeb mawr mewn barddoniaeth yn gyffredinol. Mae prawf modd paru yn dangos nad yw'r gwahaniaeth ar draws y sampl yn arwyddocaol ar gyfartaledd: nid oes gan yr ymatebwyr fwy neu lai o ddiddordeb mewn barddoniaeth yng Nghymru nac mewn barddoniaeth yn gyffredinol².

Tabl 3.6: Faint o ddiddordeb sydd gennych chi mewn Barddoniaeth?

	Barddoniaeth (%)	
	Yn gyffredinol	Yng Nghymru
Diddordeb mawr	39	38
Diddordeb	23	29
Rhywfaint o ddiddordeb	27	22
Dim diddordeb o gwbl	11	11

³ Gweler Atodiad 2

3.3.5. Y Celfyddydau

Wrth edrych ar y celfyddydau, mae'n bosibl gweld bod gan 50% (221/445) o'r ymatebwyr ddiddordeb mawr yn y celfyddydau yng Nghymru, o gymharu â 46% (203/445) a ddywedodd bod ganddynt ddiddordeb mawr yn y celfyddydau yn gyffredinol. Mae prawf modd paru yn dangos bod y gwahaniaeth mewn diddordeb ar draws y sampl yn arwyddocaol, ar gyfartaledd: mae gan yr ymatebwyr fwy o ddiddordeb yn y celfyddydau yng Nghymru nac yn y celfyddydau yn gyffredinol².

Tabl 3.7: Faint o ddiddordeb sydd gennych yn y Celfyddydau?

	Y Celfyddydau (%)	
	Yn gyffredinol	Yng Nghymru
Diddordeb mawr	46	50
Diddordeb	38	36
Rhywfaint o ddiddordeb	15	13
Dim diddordeb o gwbl	2	2

3.3.6. Hanes

Dywedodd pum deg tri y cant (237/445) o'r ymatebwyr bod ganddynt ddiddordeb mawr mewn hanes yng Nghymru, o gymharu â 41% (182/445) o'r ymatebwyr a ddywedodd bod ganddynt ddiddordeb mawr mewn hanes yn gyffredinol. Un waith eto, mae prawf modd paru yn dangos bod y gwahaniaeth mewn diddordeb ar draws y sampl yn arwyddocaol ar gyfartaledd: mae gan yr ymatebwyr fwy o ddiddordeb yn hanes Cymru nac mewn hanes yn gyffredinol⁴.

Tabl 3.8: Faint o ddiddordeb sydd gennych chi mewn Hanes?


	Hanes (%)	
	Yn gyffredinol	Yng Nghymru
Diddordeb mawr	41	53
Diddordeb	40	31
Rhywfaint o ddiddordeb	16	13
Dim diddordeb o gwbl	3	2

⁴ Gweler Atodiad 2

3.4. Ydych chi'n gyfarwydd â'ch cylchgronau canlynol?

Mae Ffigur 3.2 isod yn dangos mai'r cylchgrawn mwyaf cyfarwydd i'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr oedd Private Eye, gyda 78% (347/445) o'r ymatebwyr yn dweud eu bod yn gyfarwydd â'r cylchgrawn hwnnw. Yna dywedodd 73% (325/445) eu bod wedi clywed am Planet a dywedodd 73% (324/445) eu bod wedi clywed am y Times Literary Supplement. Dim ond 1% o'r ymatebwyr a oedd wedi clywed am y cylchgrawn Tank (4/445), a dim ond 11% (49/445) o'r ymatebwyr oedd wedi clywed am Red Poets, Welsh Country, Wales Arts Review (digidol) a Leaf Writer's Magazine.


Ffigur 3.2: Ymateb i'r cwestiwn: Ydych chi'n gyfarwydd â'r cylchgronau canlynol?



N=445

Mae Ffigur 3.3 isod yn grwpio'r cylchgrawn a restrwyd uchod i'r un meysydd pwnc a drafodwyd yn flaenorol. Fel y gwelwch, roedd yr ymatebwyr yn fwyaf cyfarwydd â'ch cylchgronau yn y categori 'materion cyfoes yn gyffredinol' ac yn lleiaf cyfarwydd â'ch cylchgronau yn y categori 'y celfyddydau yng Nghymru'.

Ffigur 3.3: Ymateb i'r cwestiwn: Ydych chi'n gyfarwydd ag unrhyw rai o'r cylchgronau hyn? Wedi'u categoreiddio



N=445

[Yes] Ydw

[No] Nac ydw

Materion cyfoes yn gyffredinol

Materion cyfoes yng Nghymru

Llenyddiaeth yn gyffredinol

Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru

Barddoniaeth yn gyffredinol

Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru

Y celfyddydau

Y celfyddydau yng Nghymru


Hanes yn gyffredinol

Dylid nodi nad oes categori ar gyfer 'hanes yng Nghymru' oherwydd nid oedd unrhyw rai o'r cylchgronau a restrwyd yn y categori hwnnw. Mae'r categorïau a oedd yn berthnasol i bob cylchgrawn at ddibenion y dadansoddiad yn Atodiad 4.

3.5. Pa mor rheolaidd ydych chi'n prynu cylchgronau?

Mae Ffigur 3.4 yn dangos, wrth ofyn i'r ymatebwyr pa mor rheolaidd yr oeddent yn prynu cylchgronau ar unrhyw bwnc, dywedodd 40% (176/445) eu bod yn prynu o leiaf un cylchgrawn y mis, dywedodd 30% (133/445) eu bod yn prynu cylchgronau yn achlysurol a dywedodd 22% (100/445) eu bod yn prynu o leiaf un cylchgrawn yr wythnos. Felly, roedd y mwyafrif o'n sampl (62%) yn darllen cylchgronau'n rheolaidd.

Ffigur 3.4: Ymateb i'r cwestiwn: Pa mor rheolaidd ydych chi'n prynu cylchgronau?



N=445

O leiaf un cylchgrawn yr wythnos

O leiaf un cylchgrawn y mis


Yn chwarterol

Yn achlysurol

Byth

Mae'r graff canlynol yn cymharu grŵp oedran ymatebwyr sy'n 'ddarllenwyr rheolaidd' gyda'r sampl cyfan. Fel y gwelwch, mae'r dadansoddiad o'r grwpiau oedran yn debyg ymhlith y darllenwyr rheolaidd â'r sampl cyfan.

Ffigur 3.5: Darllenwyr rheolaidd a'r sampl cyfan wedi'u rhannu yn ôl grŵp oedran



N=445 (sampl cyfan)

N=276 (darllenwyr rheolaidd)

[Regular readers] Darllenwyr rheolaidd

[Sampl as a whole] Y sampl cyfan

[would rather not say] Roedd yn well ganddynt beidio dweud

3.6. Pa gylchgronau ydych chi'n eu prynu a / neu'n eu darllen yn rheolaidd?

Roedd y cwestiwn hwn yn un agored, ac roedd yr ymatebwyr yn gallu darparu unrhyw ateb, mae'r cwmwl tag⁵ isod yn dangos y cylchgronau a brynwyd gan ymatebwyr yr arolwg. Fel y dangosir, Planet, New Welsh Review, Poetry Wales a Golwg oedd y cylchgronau a nodwyd amlaf.

Ffigur 3.6: Pa gylchgronau ydych chi'n eu prynu?


⁵ Mae cwmwl tag (cwmwl geiriau, neu restr bwysoli mewn dyluniad gweledol) yn gynrychiolaeth weledol o ddata testun. Cynhyrchwyd y cwmwl tag yn yr adroddiad hwn gan ddefnyddio meddalwedd Tag Crowd sydd ar gael ar-lein: <http://tagcrowd.com/>

agenda (15) arete (1) barn (10) bbc-history-magazine (3) bevan-
 foundation-review (3) big-issue (2) cambria (10) cardiff-life (1) carmarthenshire-
 life (1) country-living (1) economist (13) empire-magazine (2) geographical-
 magazine (2) golwg (27) heritage-railways (1) history-today (3) investors-chronicle (1)
 lady-magazine (1) lingo-newedd (3) london-review-of-books (4) marie-
 claire (2) model-rail (2) mslexia (3) natur-cymru (3) nature (1) new-scientist (5)
 new-statesman (7) new-welsh-
 review (44) new-yorker (2) pembroke-shire-life (2) planet (68)
 pn-review (4) poetry-london (2) poetry-wales (32)
 private-eye (10) prospect (2) red-pepper (1) saga (2) spectator (3) the-
 week (5) time-out (1) times-literary-supplement (10)
 uncut (3) vogue (2) welsh-country-magazine (2) writers-magazine (2) y-cymro (4) yr-
 enfys (1)

3.7. Ydych chi wedi prynu cylchgronau sy'n gysylltiedig â'r pynciau hyn unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Mae Ffigur 3.7 yn dangos pwnc y cylchgronau y dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn eu darllen neu'n eu prynu'n rheolaidd. Cylchgronau ar lenyddiaeth yng Nghymru yw'r pwnc mwyaf cyffredin y dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn ei brynu'n rheolaidd, (59%), dilynir hyn gan (51%).

Ffigur 3.7: Ydych chi wedi prynu cylchgronau sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r pynciau hyn unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? Y ganran a atebodd ydw




N=445
[Generally] Yn gyffredinol
[In Wales] Yng Nghymru
Hanes
Y Celfyddydau
Gwleidyddiaeth
Barddoniaeth
Materion Cyfoes
Llenyddiaeth

Mae'r graff canlynol yn cymharu'r ganran o ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi prynu cylchgrawn perthnasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o gymharu â'r ganran o ymatebwyr a ddywedodd bod ganddynt ddiddordeb mawr yn y pwnc yn gyffredinol (Ffigur 3.8) ac yna yng Nghymru (Ffigur 3.9).

Yn y ddau achos, mae'r bwlch mwyaf yn y pwnc 'hanes'; dywedodd 41% bod ganddynt ddiddordeb mawr mewn hanes yn gyffredinol, ond dim ond 16% a ddywedodd eu bod wedi prynu cylchgrawn am y pwnc hwnnw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r un patrwm yn amlwg ar gyfer 'hanes yng Nghymru' gyda 53% yn dweud bod ganddynt ddiddordeb mawr yn y pwnc, ond dim ond 23% oedd wedi prynu cylchgrawn perthnasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r bwlch lleiaf ar gyfer 'llenyddiaeth yng Nghymru', pwnc lle dywedodd 57% o'r ymatebwyr bod ganddynt ddiddordeb mawr yn y pwnc, a dywedodd 59% eu bod wedi prynu cylchgrawn perthnasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ffigur 3.8: Canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi prynu cylchgrawn perthnasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o gymharu â'r ganran o ymatebwyr a ddywedodd bod ganddynt ddiddordeb mawr yn y pwnc - CYFFREDINOL



N=445

[Purchased in the last year] Prynwyd yn y flwyddyn ddiwethaf

[Very interested] Diddordeb mawr

[Percentage of the sample] Canran o'r sampl

Hanes

Barddoniaeth


Y Celfyddydau

Gwleidyddiaeth

Llenyddiaeth

Materion Cyfoes

Ffigur 3.9: Canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi prynu cylchgrawn perthnasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o gymharu â'r ganran o ymatebwyr a ddywedodd bod ganddynt ddiddordeb mawr yn y pwnc – YNG NGHYMRU



N=445

[Purchased in the last year] Prynwyd yn y flwyddyn ddiwethaf

[Very interested] Diddordeb mawr

[Percentage of the sample] Canran o'r sampl

Hanes

Barddoniaeth

Y Celfyddydau

Gwleidyddiaeth

Llenyddiaeth

Materion Cyfoes

Isod ceir dadansoddiad mwy manwl o'r data ar gyfer y pynciau unigol dan sylw.

3.7.1. Materion Cyfoes

Dywedodd pedwar deg saith y cant (211/445) o'r ymatebwyr eu bod wedi prynu cylchgrawn ar faterion cyfoes yn gyffredinol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o gymharu â 51% (228/445) a ddywedodd eu bod wedi prynu cylchgronau ar faterion cyfoes yng Nghymru. Mae'r cwmwl tag isod yn dangos yr ymatebion a roddwyd pan ofynnwyd i'r ymatebwyr enwi'r cylchgronau yr oeddent wedi'u prynu ar faterion cyfoes yn gyffredinol eleni:

Ffigur 3.10: Y cylchgronau a brynwyd yn y flwyddyn ddiwethaf a oedd yn gysylltiedig â materion cyfoes yn gyffredinol



Dangosir y pum cylchgrawn ar faterion cyfoes yn gyffredinol a brynwyd amlaf yn y tabl isod:

Tabl 3.9: Y pum cylchgrawn ar faterion cyfoes yn gyffredinol a nodwyd amlaf a oedd wedi'u prynu gan yr ymatebwyr

	N	%
The Economist	50	23.7
New Statesman	37	17.5
Planet	31	14.7
Private Eye	25	11.8
The Week	17	8.1

Mae'r cwmwl tag isod yn dangos yr atebion a roddwyd pan ofynnwyd i'r ymatebwyr pa gyhoeddiadau yr oedd unigolion wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar faterion cyfoes yng Nghymru:

Ffigur 3.11: Y cylchgronau a brynwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar faterion cyfoes yng Nghymru



Mae'r tabl isod yn dangos mai'r pum cylchgrawn a nodwyd amlaf oedd Planet, Agenda, Barn, Golwg a Cambria.

Tabl 3.10: Y cylchgronau a ddarllenwyd fwyaf neu a brynwyd amlaf ar faterion cyfoes yng Nghymru

	N	%
Planet	109	47.8
Agenda	75	32.9
Barn	42	18.4
Golwg	28	12.3
Cambria	27	11.8

3.7.2. Gwleidyddiaeth

Dywedodd trideg tri y cant (146/445) o'r ymatebwyr eu bod wedi prynu, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cylchgronau ar wleidyddiaeth yn gyffredinol, dywedodd yr un ganran (148/445) eu bod wedi prynu cylchgronau ar wleidyddiaeth yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Wrth edrych ar ba gylchgronau a nodwyd fel enghreifftiau gan ymatebwyr o'r cylchgronau ar wleidyddiaeth yn gyffredinol, y rhai a nodwyd amlaf oedd The New Statesman, Planet, The Economist a Private Eye.

Ffigur 3.12: Y cylchgronau a brynwyd ar wleidyddiaeth yn gyffredinol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf



Tabl 3.11: Y pum cylchgrawn a nodwyd amlaf a oedd wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar wleidyddiaeth yn gyffredinol

	N	%
New Statesman	37	25.3
Planet	31	21.2
Private Eye	22	15.1
The Economist	22	15.1
Spectator	13	8.9

Mae'r cwmwl tag isod yn dangos yr ymatebion a roddwyd gan unigolion pan ofynnwyd iddynt nodi pa gylchgronau yr oeddent wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar wleidyddiaeth yn gyffredinol, gyda'r pum cylchgrawn a nodwyd amlaf gan ymatebwyr fel cylchgronau yr oeddent wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi'u nodi yn y tabl canlynol.

Ffigur 3.13: Y cylchgronau a ddarllenwyd neu a brynwyd ar wleidyddiaeth yng Nghymru



Tabl 3.12: Y pum cylchgrawn a nodwyd amlaf a oedd wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n gysylltiedig â gwleidyddiaeth yng Nghymru

	N	%
Planet	79	53.4
Agenda	51	34.4
Barn	31	20.9
Cambria	20	13.5
Golwg	19	12.8

3.7.3. Llenyddiaeth

Dywedodd pedwar deg tri y cant (192/445) o'r ymatebwyr eu bod wedi prynu cylchgronau ar lenyddiaeth yn gyffredinol o gymharu â 59% (262/445) a ddywedodd eu bod wedi prynu cylchgronau am Lenyddiaeth o Gymru ac am Gymru.

Mae Ffigur 3.14 yn dangos yr ymatebion a roddwyd gan unigolion pan ofynnwyd iddynt pa gylchgronau ar lenyddiaeth yr oeddent wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda'r pum cylchgrawn a nodwyd amlaf gan ymatebwyr fel cylchgronau yr oeddent wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi'u nodi yn y tabl canlynol.

Ffigur 3.14: Y cylchgronau a brynwyd sy'n gysylltiedig â llenyddiaeth yn gyffredinol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf



Tabl 3.13: Y pum cylchgrawn a nodwyd amlaf a oedd wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n gysylltiedig â llenyddiaeth yng Nghymru

	N	%
London Review of Books	43	21.9
Times Literary Supplement	32	16.7
Planet	31	16.1

Gan ganolbwyntio ar farddoniaeth, dywedodd 24% (107/445) o'r ymatebwyr eu bod yn prynu cylchgronau am farddoniaeth yn gyffredinol yn rheolaidd, fodd bynnag dywedodd 42% (185/445) o'r ymatebwyr eu bod yn prynu neu'n darllen barddoniaeth o Gymru ac am Gymru yn rheolaidd.


agenda (3) anthologies (1) arete (1) artemis (1) artesian (1) blythe-spirit (1) brand (1) cambria (2)
cannon's-mouth (1) carillon-poetry (3) cheval (1) envoi (1) folio-society (1) fourteen-magazine (1)
interpreter's-house (4) jecs (1) london-review-of-
books (4) lota (1) magma (6) modern-poetry-in-
translation (5) moth (1) mslexia (5) new-welsh-
review (10) obsessed-with-pipework (2) planet (12) pn-
review (13) poetry-book-society (4) poetry-church (1) poetry-
cornwall (2) poetry-london (8) poetry-news (1) poetry-please (1)
poetry-review (17) poetry-society (2) poetry-usa (1)
poetry-wales (23) poetry (3) shearman (1) smiths-knoll (1)
stand (2) tears-in-the-fence (3) the-delinquent (1) the-frogmore-papers (1) the-new-
writer (1) the-north (3) the-rialto (8) the-shop (2) the-wolf (1) times-
literary-supplement (2) under-the-radar (1)

Tabl 3.15: Y chwe chylchgrawn a nodwyd amlaf a oedd wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

	N	%
Poetry Wales	23	21.5
Poetry Review	17	15.9
PN Review	13	12.1
Planet	12	11.2
The Rialto	8	7.5
Poetry London	8	7.5

I'r gwrthwyneb, mae ffigur 3.17 isod yn dangos y cylchgronau a nodwyd gan yr ymatebwyr pan ofynnwyd iddynt restru pa gylchgronau o Gymru ac am Gymru yr oeddent wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ffigur 3.17: Y cylchgronau a brynwyd sy'n gysylltiedig â barddoniaeth o Gymru ac am Gymru



Mae'r tabl isod yn dangos y pum cylchgrawn a nodwyd amlaf pan ofynnwyd i'r ymatebwyr pa gylchgronau yr oeddent wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a oedd yn gysylltiedig â barddoniaeth yng Nghymru.

Tabl 3.16: Y pum cylchgrawn a nodwyd amlaf a oedd wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n gysylltiedig â barddoniaeth yng Nghymru

	N	%
Poetry Wales	102	55.1
Planet	40	21.6
New Welsh Review	37	20.0
Barddas	11	5.9
Cambria	8	4.3

3.7.5. Y Celfyddydau

Dywedodd dau ddeg saith (118/445) o'r ymatebwyr eu bod yn prynu cylchgronau ar y celfyddydau yn gyffredinol yn rheolaidd, o gymharu â 33% (146/445) o'r ymatebwyr a ddwyedodd eu bod yn prynu cylchgronau am y celfyddydau yng Nghymru yn rheolaidd.

Mae'r cwmwl tag isod yn dangos yr ymatebion a roddwyd gan unigolion pan ofynnwyd iddynt ddweud pa gylchgronau yr oeddent wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a oedd yn gysylltiedig â'r celfyddydau yn gyffredinol.

Ffigur 3.18: Y cylchgronau a brynwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau yn gyffredinol




Mae'r tabl isod yn dangos y saith ymateb a nodwyd amlaf pan ofynnwyd i'r ymatebwyr ddweud pa gylchgronau yr oeddent wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau yn gyffredinol.

Tabl 3.17: Y saith prif gylchgrawn a nodwyd gan yr ymatebwyr pan ofynnwyd iddynt pa gylchgronau yr oeddent wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau yn gyffredinol:

	N	%
Planet	30	25.4
New Welsh Review	12	10.2
London Review of Books	6	5.1
Art Monthly	5	4.2
Barn	5	4.2
Craft	5	4.2
Poetry Wales	5	4.2

Mae Ffigur 3.19 yn dangos yr ymatebion a roddwyd pan ofynnwyd i'r ymatebwyr pa gylchgronau yr oeddent wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar y celfyddydau yng Nghymru. Mae'r tabl isod yn dangos y pum prif ymateb a roddwyd.

Ffigur 3.19: Y cylchgronau a brynwyd yn y flwyddyn ddiwethaf sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau yng Nghymru



Tabl 3.18: Y pum prif gylchgrawn a nodwyd gan yr ymatebwyr pan ofynnwyd iddynt pa gylchgronau yr oeddent wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau yng Nghymru

	N	%
Planet	86	58.9
New Welsh Review	39	26.7
Barn	17	11.6
Cambria	16	11.0
Poetry Wales	11	7.5

3.7.6. Hanes

Dim ond un ar bymtheg y cant (73/445) o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi prynu neu wedi darllen cylchgronau ar hanes yn gyffredinol yn rheolaidd, o gymharu â 23% (102/445) o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn prynu neu'n darllen cylchgronau ar hanes Cymru yn rheolaidd.

Mae'r cwmwl tag isod yn dangos pa gylchgronau a nodwyd gan ymatebwyr pan ofynnwyd iddynt pa gylchgronau yr oeddent wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Ffigur 3.20: Y cylchgronau a brynwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n gysylltiedig â hanes yn gyffredinol




Gellir gweld y pum prif ymateb a roddwyd yn nhabl 3.19 isod:

Tabl 3.19: Y pum prif gylchgrawn a nodwyd gan ymatebwyr pan ofynnwyd iddynt pa gylchgronau yr oeddent wedi'u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n gysylltiedig â hanes yn gyffredinol

	N	%
History Today	17	23.3
BBC History	14	19.2
Planet	14	19.2
Archaeology	6	8.2
Barn	4	5.5

Mae’r cylchgronau a restrwyd pan ofynnwyd i’r ymatebwyr pa gylchgronau yr oeddent wedi’u prynu sy’n gysylltiedig â hanes Cymru yn y cwmwl tag isod:

Ffigur 3.21: Y cylchgronau a brynwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy’n gysylltiedig â hanes yn gyffredinol



Mae’r tabl isod yn dangos y pum cylchgrawn a nodwyd amlaf.


Tabl 3.20 Y pum prif gylchgrawn a nodwyd gan ymatebwyr pan ofynnwyd iddynt pa gylchgronau yr oeddent wedi’u prynu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy’n gysylltiedig â hanes Cymru

	N	%
Planet	33	32.4
Cambria	17	16.7
Welsh History Review	12	11.8
Llafur	11	10.8
Barn	8	7.8

3.8. Pa mor aml ydych chi'n prynu neu'n darllen y cylchgronau canlynol?

Ar gyfer y cylchgronau yr oeddent yn gyfarwydd â hwy (cyfeiriwch at Adran 3.4), gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor aml yr oeddent yn prynu neu'n darllen y cylchgronau hynny. Yn y ffigur isod, dangosir nifer yr ymatebwyr a oedd yn gyfarwydd â'ch cylchgrawn yn y cromfachau ar ôl enw'r cylchgrawn dan sylw. Yna, mae'r llun yn dangos pa mor rheolaidd yr oeddent wedi darllen / prynu'r cylchgrawn dan sylw.

Ffigur 3.22: Ymateb i'r cwestiwn – Pa mor aml ydych chi'n prynu neu'n darllen y cylchgronau canlynol? (nodwch – dim ond i'r ymatebwyr hynny a oedd yn gyfarwydd â'r cylchgronau dan sylw oedd yn gorfod ateb y cwestiwn hwn).



N= rhwng 4 a 343 (Maint y sampl – 445)

[Regularly] Rheolaidd

[Every now and again] Nawr ac yn y man

[Read it once or twice] Wedi'i ddarllen unwaith neu ddwy


[Never] Byth

Mae ffigur 3.22 yn dangos mai'r cylchgronau sy'n cael eu darllen / prynu amlaf yw Planet ac Agenda. Dywedodd hanner cant y cant (160/322) o'r ymatebwyr eu bod wedi darllen neu wedi prynu Planet a dywedodd 47% (93/197) o'r ymatebwyr eu bod yn prynu Agenda yn rheolaidd. Nid oedd y pedwar ymatebydd a oedd wedi clywed am y cylchgrawn Tank erioed wedi'i ddarllen.

Mae'r graff canlynol yn grwpio'r cylchgronau unwaith eto i'w categorïau pwnc. Mae'n dangos, yn nhermau canran, mai 'materion cyfoes yng Nghymru' yw'r categori gyda'r nifer fwyaf o ddarllenwyr (30%) a'r celfyddydau yw'r categori gyda'r nifer lleiaf (2%). Y categorïau gyda'r ganran uchaf o

ddarllenwyr ‘nawr ac yn y man’ ac ‘unwaith neu ddwy’ yw ‘hanes yn gyffredinol’ (72%) yna ‘materion cyfoes yn gyffredinol’ (67%).

Ffigur 3.23: Ymateb i'r cwestiwn – Pa mor aml ydych chi'n darllen neu'n prynu'r cylchgronau canlynol? Wedi'u categoraiddio (nodwch – dim ond i'r ymatebwyr hynny a oedd yn gyfarwydd â'r cylchgronau dan sylw oedd yn gorfod ateb y cwestiwn hwn).



[Regularly] Rheolaidd

[Every now and again] Nawr ac yn y man

[Read it once or twice] Wedi'i ddarllen unwaith neu ddwy

[Never] Byth

Materion Cyfoes yn Gyffredinol

Materion cyfoes yng Nghymru

Llenyddiaeth yn gyffredinol

Llenyddiaeth yng Nghymru

Barddoniaeth yn gyffredinol

Barddoniaeth yng Nghymru

Y celfyddydau

Y celfyddydau yng Nghymru

Hanes yn gyffredinol

3.8.1. Nodweddion y ‘farchnad darged’

Un o'r ffyrdd amlwg o gynyddu cylchrediad cylchgronau yw drwy ysgogi'r rhai sy'n gyfarwydd â chylchgrawn, ac sy'n ei ddarllen yn achlysurol, i fod yn ddarllenwyr rheolaidd; byddai hyn yn haws

yn y tymor byr i'r tymor canolig na cheisio darbwyllo'r rhai nad ydynt erioed wedi darllen cylchgrawn i ddechrau ei ddarllen.

Gellir defnyddio Ffigurau 3.22 a 3.23 i nodi'r 'farchnad darged' ar gyfer y cylchgronau a'r categorïau o gylchgronau dan sylw; h.y. yr ymatebwyr hynny sy'n ymwybodol o'r cylchgrawn ond sydd ond yn ei ddarllen 'nawr ac yn y man' neu 'unwaith neu ddwy' (h.y. rhannau coch a gwyrdd y colofnau).

Fe wnaethom edrych ar nodweddion y 'farchnad darged' hon ar gyfer trawstoriad o wyth o'r cylchgronau:

- | | |
|-----------|--------------------|
| • Agenda | • Envoi |
| • Barddas | • Poetry Wales |
| • Barn | • New Welsh Review |
| • Cambria | • Planet |

Canfu'r arolwg bod 76% (339/445) o'r sampl cyfan, wedi'u cynnwys o fewn y 'farchnad darged' ar gyfer yr wyth cylchgrawn hyn. Mae hyn yn awgrymu bod swm sylweddol o orgyffwrdd o fewn y farchnad darged ar gyfer yr wyth cyhoeddiad, ac felly'r potensial i'w cyd-farchnata. Hefyd:

- roedd 42% (143/339) o'r farchnad darged yn ferched a 58% (196/339) yn ddynion;
- roedd 38% (126/332) dros 60 oed, roedd 55% (181/332) rhwng 30 a 60 oed gan adael dim ond 8% (25/332) a oedd yn 30 oed neu'n iau;
- dywedodd 40% (137/339) o'r ymatebwyr eu bod mewn cyflogaeth a dywedodd 22% (73/339) arall eu bod yn hunangyflogedig.

Dywedodd dau ddeg tri y cant (78/339) o'r ymatebwyr yn y farchnad darged eu bod yn prynu cylchgrawn o ryw fath o leiaf unwaith yr wythnos, roedd 40% (136/339) yn prynu cylchgrawn o leiaf unwaith y mis. Dywedodd dau ddeg naw y cant (99/339) eu bod yn prynu cylchgrawn yn achlysurol, 4% (13/339) yn chwarterol a dywedodd 4% (12/339) nad ydynt byth yn prynu cylchgronau.

Dywedodd dau ddeg tri y cant (78/339) o'r ymatebwyr yn y farchnad darged eu bod yn prynu cylchgrawn o ryw fath o leiaf unwaith yr wythnos, roedd 40% (136/339) yn prynu cylchgrawn o leiaf unwaith y mis; felly, roedd 63% yn prynu cylchgronau yn rheolaidd. Nid yw'n syndod felly, o ystyried y gyfran o fewn yr is-sampl hwn, bod hyn yn gyson â nodweddion y sampl cyfan. Fodd bynnag, mae'n dystiolaeth bellach i'r ddadl mai ffordd effeithiol o gynyddu nifer y darllenwyr yn y farchnad darged yw drwy'r cyhoeddiadau eraill.

Mae dadansoddiad o'r 'farchnad darged' ar gyfer yr wyth cylchgrawn unigol yn Atodiad 3.


3.9. Y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg

Roedd yr arolwg yn edrych ar y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg, ac yna'n graddio ansawdd y ddarpariaeth hon. Yna, buom yn edrych i weld a oes perthynas rhwng y sgorau hyn.

3.9.1. Graddio'r ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg

Gofynnwyd i'r unigolion a oedd yn cwblhau'r holiadur i roi sgôr o 0-10 (0 = dim cylchgronau ar gael a 10 = digon o gylchgronau ar gael) o'u barn hwy am y ddarpariaeth bresennol (h.y. argaeledd) o gylchgronau Saesneg mewn nifer o bynciau gwahanol. Mae Ffigur 3.24 yn dangos bod yr ymatebwyr yn credu bod argaeledd y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau yn uwch yn gyffredinol na chylchgronau am Gymru. Mae'r graff hefyd yn dangos nad oes gwahaniaeth mawr mewn barn rhwng y rhai sy'n ddarllenwyr rheolaidd cylchgronau a'r rhai nad ydynt yn ddarllenwyr rheolaidd.

Ffigur 3.24: Sgôr gymedrig y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg yn ôl pa mor aml y mae'r ymatebwyr yn prynu cylchgronau.



N=445

[Overall] Yn gyffredinol

[Not regularly] Ddim yn rheolaidd

[Regularly] Rheolaidd

Materion cyfoes yn gyffredinol

Llenyddiaeth yn gyffredinol


Gwleidyddiaeth yn gyffredinol

Y celfyddydau
Hanes yn gyffredinol
Barddoniaeth yn gyffredinol
Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru
Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru
Y celfyddydau yng Nghymru
Materion cyfoes yng Nghymru
Hanes Cymru
Gwleidyddiaeth yng Nghymru
[Mean] **Cymedrig**

3.9.2. Sgorio ansawdd y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg

Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio ansawdd cylchgronau Saesneg ar raddfa o 0-10 (0 = gwael iawn a 10 = da iawn). Mae Ffigur 3.25 isod yn dangos bod yr ymatebwyr o'r farn bod ansawdd y cylchgronau Saesneg yn well yn gyffredinol na'r rhai am Gymru.

Ffigur 3.25: Sgôr gymedrig ar ansawdd cylchgronau Saesneg yn ôl pa mor aml mae'r ymatebwyr yn prynu cylchgronau




N=445

[Overall] Yn gyffredinol
[Not regularly] Ddim yn rheolaidd
[Regularly] Rheolaidd
Materion cyfoes yn gyffredinol
Llenyddiaeth yn gyffredinol
Gwleidyddiaeth yn gyffredinol
Y celfyddydau
Hanes yn gyffredinol
Barddoniaeth yn gyffredinol
Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru
Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru
Y celfyddydau yng Nghymru
Materion cyfoes yng Nghymru
Hanes Cymru
Gwleidyddiaeth yng Nghymru
[Mean] **Cymedrig**

Mae'n ddiddorol rhannu'r sgôr gymedrig yn ôl oedran. At ddiben yr astudiaeth hon, rhannwyd y newidyn ar gyfer oedran yn 3 chategori; o dan 30, 31-60 a thros 60. Mae Ffigur 3.26 isod yn dangos sut mae'r sgôr gymedrig a roddwyd ar gyfer y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg yn lleihau gydag oedran yn wyth o'r 12 achos; mae'r ymatebwyr iau o'r farn bod y ddarpariaeth gylchgronau yn well o gymharu â barn eu cymheiriaid hŷn.

Ffigur 3.26: Sgôr gymedrig y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg yn ôl oedran



N=445

[Over 60] Dros 60

[Under 30] O dan 30

Materion cyfoes yn gyffredinol

Llenyddiaeth yn gyffredinol

Y celfyddydau

Gwleidyddiaeth yn gyffredinol


Hanes yn gyffredinol

Barddoniaeth yn gyffredinol

Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru
Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru
Y celfyddydau yng Nghymru
Materion cyfoes yng Nghymru
Gwleidyddiaeth yng Nghymru
Hanes Cymru
[Mean] **Cymedrig**

Rhoddodd yr ymatebwyr hynny yn y grŵp oedran o dan 30 sgorau uwch hefyd wrth roi eu barn ar *ansawdd* cylchgronau Saesneg, o gymharu â'r grwpiau oedran hŷn. Yr unig eithriad i hyn yw hanes yn gyffredinol, lle rhoddwyd sgôr uwch gan y grŵp oedran dros 60 o gymharu â'r grŵp 31-60 a'r grŵp o dan 30.

Ffigur 3.27: Sgôr gymedrig ar ansawdd y cylchgronau Saesneg yn ôl oedran



N=445

[Over 60] Dros 60

[Under 30] O dan 30

Hanes yn gyffredinol

Llenyddiaeth yn gyffredinol

Gwleidyddiaeth yn gyffredinol

Materion cyfoes yn gyffredinol

Y celfyddydau

Barddoniaeth yn gyffredinol

Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru

Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru

Hanes Cymru

Gwleidyddiaeth yng Nghymru


Y celfyddydau yng Nghymru

Materion cyfoes yng Nghymru

[Mean] **Cymedrig**

Fel y dangosir yn ffigur 3.28, mae yna berthynas gadarnhaol rhwng barn pobl am y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r ymatebwyr hynny sy'n rhoi sgôr uwch i'r ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg yn fwy tebygol o roi sgôr uwch hefyd i ansawdd y ddarpariaeth.

Ffigur 3.28: Diagram gwasgariad sy'n dangos y berthynas rhwng y ddarpariaeth bresennol ganfyddedig ac ansawdd y ddarpariaeth



N=445

[Current provision] Y ddarpariaeth bresennol

[Quality of provision] Ansawdd y ddarpariaeth

Linear] Llinellol

3.10. A oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth?

Dywedodd cyfanswm o 37% (166/445) o'r ymatebwyr bod bwlch yn y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg. Mae Tabl 3.21 yn dangos yr ymatebion a roddwyd, ac mae'n bosibl gweld bod 8% o'r ymatebwyr wedi datgan bod bwlch yn y ddarpariaeth o gylchgronau am hanes (14/166), dywedodd 8% bod bwlch yn ddarpariaeth o gylchgronau ar faterion cyfoes (14/166) a dywedodd 7% bod bwlch yn ddarpariaeth o gylchgronau ar wleidyddiaeth (12/166).

Mae'n bwysig nodi bod y cwestiwn hwn yn un agored; ni roddwyd unrhyw opsiynau neu awgrymiadau o fylchau posibl yn y ddarpariaeth. Fel y dengys tabl 3.21, roedd nifer o bobl wedi dehongli "*bwlchau presennol yn y ddarpariaeth*"; er enghraifft, roedd rhai wedi dehongli hyn fel cwestiwn a oedd yn gofyn ym mha bynciau y mae prinder cylchgronau ac roedd eraill wedi ateb hyn fel pe bai'n gwestiwn am y ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei chwmpasu.

Tabl 3.21: A oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg y byddech yn hoffi eu gweld yn cael sylw?

	N	%
Hanes	14	8.4
Materion cyfoes	14	8.4
Gwleidyddiaeth	12	7.2
Ffocws rhy gul	10	6.0
Y celfyddydau	9	5.4
Fersiynau ar-lein	8	4.8
Y celfyddydau gweledol	7	4.2
Dim digon o ddewis	7	4.2
Pontio rhwng darllenwyr academiaidd a chyffredinol	5	3.0
Rhy academiaidd	5	3.0
Storiau byrion a ffuglen	5	3.0

N=166. Noder, dim ond atebion >5 a ddangosir


O'r 166 o ymatebwyr a ddywedodd bod bwlch yn y ddarpariaeth, roedd 67% (111/166) yn ddynion a 33% (55/166) yn ferched. Roedd dau ddeg saith y cant (43/162) o'r ymatebwyr dros 65 oed, a dim ond 16% (26/166) oedd o dan 40. Roedd tri deg pedwar y cant (55/162) o'r ymatebwyr wedi ymddeol ac roedd 37% (60/162) mewn cyflogaeth. Dywedodd chwe deg pump y cant (108/166) o'r unigolion hynny a ddywedodd bod bwlch yn farchnad eu bod yn prynu cylchgronau o leiaf unwaith y mis.

3.11. Cyfrifiaduron llechen

3.11.1. Ydych chi'n berchen ar gyfrifiadur llechen (er enghraifft iPad)?

Mae Ffigur 3.29 yn dangos mai'r grŵp mwyaf yw'r bobl nad oes ganddynt gyfrifiadur llechen ar hyn o bryd ac nad ydynt yn ystyried prynu un yn ystod y chwe mis nesaf.

Ffigur 3.29: Ymateb i'r cwestiwn: Ydych chi'n berchen ar gyfrifiadur llechen?



N=445


[Yes] Ydw

[No...] Na – ond rwy'n ystyried prynu un yn y 6 mis nesaf

[No....] Na – ac nid wyf yn ystyried prynu un yn y 6 mis nesaf

Cafodd y data hwn ei archwilio mewn mwy o fanylder er mwyn ceisio gweld a oedd pobl a ddywedodd eu bod yn prynu cylchgronau yn rheolaidd (o leiaf unwaith y mis) yn fwy tebygol o fod yn berchen ar gyfrifiadur llechen ai peidio. Fel y dengys y ffigur isod, nid oes unrhyw wahaniaethau amlwg rhwng y bobl hynny sy'n prynu cylchgronau'n rheolaidd a'r ymatebwyr yn gyffredinol.

Ffigur 3.30: Ymatebion i'r cwestiwn: Ydych chi'n berchen ar gyfrifiadur llechen? Cymharu'r darllenwyr rheolaidd a'r sampl cyfan



N=276 darllenwyr rheolaidd, 445 yn gyffredinol

[All] Pawb

[regular readers] darllenwyr rheolaidd

[Yes] Ydw


[No...] Na – ond rwy'n ystyried prynu un yn y 6 mis nesaf

[No....] Na – ac nid wyf yn ystyried prynu un yn y 6 mis nesaf

3.11.2. Ydych chi erioed wedi prynu fersiwn cyfrifiadur llechen o unrhyw rai o'r cylchgronau?

O'r ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod yn berchen ar gyfrifiadur llechen a gofynnwyd y cwestiwn dilynol iddynt: A oeddent erioed wedi prynu fersiwn cyfrifiadur llechen o unrhyw rai o'r cylchgronau. Fel y dengys ffigur 3.31, dywedodd 16% eu bod wedi gwneud hynny a'u bod yn gwneud hynny'n rheolaidd (15/96), dywedodd 22% eu bod wedi gwneud hyn ond nid yn rheolaidd (21/96), a dywedodd 63% nad oeddent erioed wedi gwneud hyn (60/95). Felly, gellir ystyried bod hwn yn faes i'w ddatblygu yn y dyfodol.

Ffigur 3.31: Ymateb i'r cwestiwn – (i'r rhai sy'n berchen ar lechen). Ydych chi erioed wedi prynu fersiwn cyfrifiadur llechen o unrhyw rai o'r cylchgronau?



N=96


[Yes...] Ydw – rydych yn gwneud hynny'n rheolaidd

[Yes...] Ydw – ond nid ydych yn gwneud hynny'n rheolaidd

[Never] Byth

Fel y dengys 3.22 isod, roedd yr ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod yn darllen cylchgronau'n rheolaidd ychydig yn fwy tebygol o brynu fersiwn cyfrifiadur llechen o gylchgronau.

Ffigur 3.22: Ymateb i'r cwestiwn – Ydych chi erioed wedi prynu fersiwn cyfrifiadur llechen o unrhyw rai o'r cylchgronau?



N=61 darllenwyr rheolaidd, 96 yn gyffredinol

[All] Pawb

[Regular ...] Darllenwyr rheolaidd


[Yes...] Ydw – rydych yn gwneud hynny'n rheolaidd

[Ydw ...] Ydw – ond nid yn rheolaidd

3.12. Gwefannau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa wefannau yr oeddent wedi ymweld â hwy ac, fel y dengys ffigur 3.23, dywedodd 66%(295/445) eu bod yn ymweld â gwefannau am faterion cyfoes yn gyffredinol, a dywedodd 60% (265/445) o'r ymatebwyr eu bod wedi ymweld â gwefannau am faterion cyfoes yng Nghymru yn unig. Dim ond 30% (135/445) o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi ymweld â gwefannau am farddoniaeth yn gyffredinol a dywedodd 28% (125/445) eu bod wedi ymweld â gwefannau am farddoniaeth o Gymru ac am Gymru.

Ffigur 3.23: Ymateb i'r cwestiwn – Ydych chi'n ymweld â gwefannau ar y pynciau canlynol?



N=445

[Yes] Ydw

[No] Na

Materion cyfoes yn gyffredinol?

Materion cyfoes yng Nghymru?

Gwleidyddiaeth yn gyffredinol?

Gwleidyddiaeth yng Nghymru?

Llenyddiaeth yn gyffredinol?

Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru?

Barddoniaeth yn gyffredinol?

Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru?

Y celfyddydau?


Y celfyddydau yng Nghymru?

Hanes yn gyffredinol?

Hanes Cymru?

Mae Ffigur 3.24 yn cymharu ymatebion y rhai sy'n darllen cylchgronau yn rheolaidd a'r rhai nad ydynt yn gwneud hyn. Mae'n dangos bod darllenwyr rheolaidd cylchgronau yn llawer mwy tebygol o ymweld â gwefannau sy'n ymwneud â materion cyfoes yn gyffredinol ac yng Nghymru, ond roedd y rhai nad oeddent yn darllen cylchgronau'n rheolaidd yn fwy tebygol o ymweld â gwefannau am farddoniaeth, y celfyddydau a hanes yn gyffredinol ac yng Nghymru.

Ffigur 3.24: Canran yr ymatebwyr a oedd yn ymweld â gwefannau wedi'u rhannu yn ôl darllenwyr rheolaidd a'r rhai nad oeddent yn ddarllenwyr rheolaidd



N=445

[Not a regular...] Nid oeddent yn darllen cylchgronau'n rheolaidd

[Regular...] Darllenwyr rheolaidd cylchgronau

Materion cyfoes yn gyffredinol?

Materion cyfoes yng Nghymru?

Gwleidyddiaeth yn gyffredinol?

Gwleidyddiaeth yng Nghymru?

Llenyddiaeth yn gyffredinol?

Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru?

Barddoniaeth yn gyffredinol?

Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru?

Y celfyddydau?

Y celfyddydau yng Nghymru?

Hanes yn gyffredinol?

Hanes Cymru?

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn cymharu'r data ar gyfer y gwefannau yr ymwelwyd â hwy gyda'r lefel o ddiddordeb a fynegwyd gan ymatebwyr i'r pynciau a oedd yn cael eu harchwilio yn yr arolwg.

Mae'n dangos bod perthynas gadarnhaol rhwng diddordeb mewn pwnc ac ymweld â gwefan berthnasol.

Tabl 3.22: Lefel diddordeb cyfranogwyr mewn pynciau o gymharu â'r cwestiwn a ydynt wedi ymweld â gwefannau ar y pynciau hynny

Mae pob ffigur yn ganrannau		Yn gyffredinol Ydych chi'n ymweld â gwefannau ar:		Cymru Ydych chi'n ymweld â gwefannau ar:	
Faint o ddiddordeb sydd gennych:		Nac ydw	Ydw	Nac ydw	Ydw
Materion cyfoes	Diddordeb mawr	41.3	58.3	32.8	70.6
	Diddordeb	39.3	33.9	42.2	23.8
	Rhywfaint o ddiddordeb	19.3	7.5	21.7	5.3
	Dim diddordeb	0.0	0.3	3.3	0.4
Gwleidyddiaeth	Diddordeb mawr	23.7	57.8	22.0	67.1
	Diddordeb	34.0	37.4	38.1	26.1
	Rhywfaint o ddiddordeb	38.1	4.8	34.5	5.9
	Dim diddordeb	4.2	0.0	5.4	0.9
Llenyddiaeth	Diddordeb mawr	32.7	76.7	37.8	79.9
	Diddordeb	43.4	21.0	41.5	15.6
	Rhywfaint o ddiddordeb	21.7	1.8	18.3	4.0
	Dim diddordeb	2.2	0.5	2.4	0.5
Barddoniaeth	Diddordeb mawr	19.4	83.0	23.4	76.8
	Diddordeb	27.4	14.1	32.2	20.0
	Rhywfaint o ddiddordeb	38.7	1.5	30.0	1.6
	Dim diddordeb	14.5	1.5	14.4	1.6
Y celfyddydau	Diddordeb mawr	30	63.5	36.6	69.5
	Diddordeb	42.2	32.2	42.2	26.6
	Rhywfaint o ddiddordeb	24.5	3.8	19.0	3.4
	Dim diddordeb	3.4	0.5	2.0	0.6
Hanes	Diddordeb mawr	29.7	63.1	41.3	77.6
	Diddordeb	43.9	32.2	36.9	19.7
	Rhywfaint o ddiddordeb	22.6	4.0	18.5	2.7
	Dim diddordeb	3.7	0.7	3.4	0.0

N=445

3.13. Aelodaeth o unrhyw grwpiau, clybiau neu gymdeithasau

Roedd tri deg un y cant o'r ymatebwyr yn aelod o grŵp, clwb neu gymdeithas (139/445), ac nid oedd 69% (306/445). Dangosir y pum grŵp, clwb neu gymdeithas a nodwyd amlaf yn nhabl 10 isod.

Tabl 3.23: Ydych chi'n aelod o grwpiau, clybiau neu gymdeithasau?

	N	%
Sefydliad Materion Cymreig	28	20.1
Cymdeithas Farddoniaeth	13	9.4
Association for Welsh Writing in English	9	6.5
CADW	6	4.3
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	6	4.3

N=139

4. Cam 2: canfyddiadau cyfweliadau manwl

4.1. Cyflwyniad

Roedd ail gam y gwaith ymchwil yn seiliedig ar 10 cyfweliad ffôn manwl gydag ymatebwyr yr arolwg a drafodwyd yn yr adran flaenorol, a oedd wedi cytuno i gymryd rhan mewn astudiaeth bellach ar y pwnc. Er y gallai'r angen i ddewis y cyfranogwyr effeithio ar y gallu i gyffredinoli o ganlyniadau'r ail gam, roedd angen gwneud hyn er mwyn targedu'r darllenwyr allweddol ac er mwyn gallu adolygu potensial cylchgronau Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru.

Yn seiliedig ar ganfyddiadau cam 1, penderfynwyd y byddai'r prif fathau o ddarllenwyr yn cael eu rhannu i'r categorïau canlynol:

- Y rhai sy'n gyfarwydd â'ch cylchgrawn ond nad ydynt yn eu prynu'n rheolaidd
- Y rhai sydd wedi nodi bwlch yn y farchnad
- Y rhai sydd â diddordeb yn y pwnc ond nad ydynt yn prynu cylchgronau am y pynciau hynny ar hyn o bryd
- Pobl ifanc
- Defnyddwyr Digidol

Yna dewiswyd dau o bob categori, yn ôl eu hymatebion cychwynnol i'r holiadur, a gofynnwyd cwestiynau pellach iddynt, gyda nifer cymharol gyfartal o ddynion a merched. Gofynnwyd yr un cwestiwn i bob cyfranogwr yn ôl y canllaw cyfweld sylfaenol, ond roedd croeso iddynt hefyd archwilio pynciau eraill os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Archwiliwyd pedwar mater:

- Pam fod llai o bobl yn prynu cylchgronau?
- Beth fyddai'n eu hysgogi i brynu cylchgronau?
- O ble yr oeddent yn cael gwybodaeth yn hytrach nac mewn cylchgronau?
- Sut y gall cylchgronau ddenu darllenwyr newydd?

Trafodir canfyddiadau'r cyfweliadau isod.

4.2. Grŵp 1: Y rhai sy'n gyfarwydd â'ch cylchgrawn ond nad ydynt yn eu prynu'n rheolaidd

Tabl 4.1: Cyfranogwyr grŵp 1

Cyfranogwr	Oedran	Rhyw	Lleoliad	Statws cyflogaeth
1	36-40	Gwryw	De Morgannwg	Cyflogedig
2	Dros 65	Benyw	Sir y Fflint	Wedi ymddeol

Ar ddechrau'r cyfweiliad, gofynnwyd i bob cyfranogwr esbonio beth oeddent yn ei ddisgwyl gan gylchgrawn o safon a pha gynnwys y byddent yn hoffi ei weld yn gyffredinol. Roedd yr atebion yn amrywio yn ôl eu pynciau diddordeb, ond roedd y ddau gyfranogwr yn yr enghraifft hon yn disgwyl dyluniad da, deniadol, hygyrch (hawdd i'w brynu) ac amrywiaeth dda o erthyglau a diddordeb yn eu dewis pwnc. Roedd y ddau'n darllen Poetry Wales a New Welsh Review yn achlysurol, ac er bod y ddau'n ysgrifennu barddoniaeth, nid oeddent yn tanysgrifio i'r cylchgronau.

Yna gofynnwyd iddynt beth fyddai'n eu hannog i brynu neu danysgrifio i'r cylchgronau a oedd o ddiddordeb iddynt hwy, gan ystyried y cydbwysedd rhwng yr erthyglau, y pris a'r fformat, yn cynnwys fersiwn argraffedig a digidol. Roedd y ddau ateb a roddwyd yn amrywio, o bosibl o ganlyniad i oedran ac amser rhydd cyffredinol. Er enghraifft, dywedodd cyfranogwr 1 ei fod wedi'i gyflogi'n llawn amser ond ei fod yn treulio ei amser rhydd yn ysgrifennu, darllen ac yn ymweld â gwyliau llenyddol. Roedd yn cydnabod bod angen cylchgrawn cynhwysfawr a fyddai ar gael ar-lein a fersiwn argraffedig a fyddai hefyd yn gweddu'r mwyafrif o ddarllenwyr. Pwysleisiodd y byddai angen ymagwedd ddigidol sy'n seiliedig ar nifer o ffactorau, yn cynnwys y gallu i hysbysebu drwy safleoedd cyfryngau cymdeithasu yn ogystal â blog/ystafell sgwrsio a fyddai'n galluogi darllenwyr i rannu barddoniaeth a phrofiadau llenyddol, ei farchnata fel ffordd effeithiol o gyfathrebu gyda thanysgrifwyr eraill y cylchgrawn, awduron a chyfranogwyr. Byddai angen fersiwn argraffedig hefyd er mwyn denu cynulleidfau ehangach a'r rhai yr oedd yn well ganddynt gopi caled. Gellid dadlau ei bod yn bosibl efelychu hyn gyda phob cylchgrawn. O ran y cynnwys, roedd cyfranogwr 1 yn dadlau bod angen cymysgedd da o erthyglau manwl ac erthyglau ysgafnach byrrach, unwaith eto er mwyn bodloni pob math o ddarllenwr. Gellid dadlau hefyd bod diffyg deunydd da a oedd yn canolbwyntio ar Gymru gyfan a dathlu llenyddiaeth o Gymru yn gyffredinol, heb estroneiddio darllenwyr Saesneg. Nid oedd cyfranogwr 1 wedi'i eni yng Nghymru, ac nid oedd yn ystyried ei hun yn Gymro go iawn, ond roedd yn gweld bod angen gwneud mwy o waith i hysbysebu llenyddiaeth Saesneg o Gymru a'i "wneud yn rhyngwladol rhywsut". Dadleuodd y byddai'r cyfryngau cymdeithasu yn helpu gyda hyn.

Fodd bynnag, nid oedd cyfranogwr 2 yn credu y byddai fersiwn digidol o'r cylchgronau yn newid ei hawydd i danysgrifio iddynt, ond cytunodd y gallai ysgogi nifer o bobl eraill i wneud hynny. Roedd cyfranogwr 2 wedi ymddeol ac yn treulio ei hamser rhydd mewn grŵp ysgrifennu a chlwb llyfrgell. Er ei bod yn mwynhau Poetry Wales, y prif reswm roedd yn ei brynu oedd i gystadlu yn y cystadlaethau a rhannu barddoniaeth, a chredai y gallai gael y farddoniaeth hon o'i grŵp barddoniaeth lleol. Fodd bynnag, dywedodd y gallai rhagolwg ar-lein o'r rhifyn nesaf ei denu o bosibl i brynu'r cylchgrawn y mis nesaf pe byddai'n cynnwys pwnc o ddiddordeb iddi. Dywedodd bod cael gafael ar y cylchgrawn yn anodd weithiau ac roedd diffyg manwerthwyr yn ei hardal leol a oedd yn gwerthu'r cylchgrawn. Nid oedd hyn yn ei gwneud yn fwy deniadol i danysgrifio, fodd bynnag, oherwydd credai bod angen gweld y cynnwys cyn prynu. Felly, rhoddwyd pwyslais ar argaeledd lleol. Roedd y pynciau uchod yn bwysig iddi wrth benderfynu i danysgrifio ai peidio i rai cylchgronau.

Yna, gofynnodd y cyfweiliad i'r darllenwyr sut y cawsant eu cyflwyno gyntaf i'r cylchgronau a beth oedd yn apelio iddynt a beth oedd eu gwendidau. Roedd y ddau gyfranogwr wedi'u cyflwyno drwy eu diddordeb mewn ysgrifennu barddoniaeth a rhannu eu profiadau o ysgrifennu a darllen gwahanol ddarnau. Roedd y ddau'n cytuno eu bod wedi'u hannog i ddarllen Welsh Poetry drwy argymhellion gan bobl eraill a mynychu cyrsiau a oedd yn hyrwyddo'r cylchgrawn. Roedd eu hawydd i gymryd rhan mewn cystadlaethau a chymharu barddoniaeth hefyd yn fantais fawr. Dywedodd cyfranogwr 1 ei fod wedi bod yn awyddus i ganfod cylchgrawn a oedd yn Gymraeg a oedd hefyd yn cysylltu â'i frwdfrydedd at ysgrifennu, ar ôl symud i fyw i Gymru wyth mlynedd yn ôl. Daeth yn gyfarwydd â Poetry Wales a dechreuodd ei brynu'n achlysurol, ond nid oedd wedi darllen unrhyw gylchgrawn eraill. Roedd hyn yn rhannol oherwydd diffyg argaeledd heb orfod tanysgrifio a'r angen i gael fersiwn 'cludadwy' boddhaol a fyddai'n cyd-fynd â'i waith. Fodd bynnag, roedd yr hyn yr oeddent wedi'i ddarllen wedi effeithio ar eu harferion prynu ac wedi'u hannog i brynu llyfrau y tu hwnt i Gymru a Lloegr, ond eu bod yn eu prynu'n achlysurol yn ôl eu diffyg tanysgrifiad i unrhyw gylchgrawn blaenllaw.

Roedd Cyfranogwr 2 yn cytuno ei bod wedi dod yn fwy ymwybodol o fentrau fel y Cinnamon Press a llyfrau Seren, a oedd wedi'i hysgogi i brynu'n fwy rheolaidd. Nid oedd cost yn broblem i'r un o'r ddau gyfranogwr. Roedd y ddau yn cytuno, os oedd rhywbeth o ddiddordeb mawr iddynt, yna ni fyddai'r gost yn effeithio ar eu harferion prynu. Roedd y ddau o'r farn mai argaeledd a diffyg gwybodaeth a hysbysebu oedd eu prif resymau dros beidio â phrynu neu danysgrifio'n gyffredinol.

O ran Cymru a'i diwylliant (a ddaeth yn thema amlwg wrth drafod y cylchgronau), dywedodd y ddau gyfranogwr y byddai'n well ganddynt weld mwy o bwyslais yn cael ei rhoi ar Gymru a diwylliant Cymru yn gyffredinol. Er bod Poetry Wales yn cyflawni'r gofynion hyn, roeddent yn credu bod y rhifynnau diweddar wedi dechrau crwydro oddi wrth yr hyn yr oeddent hwy'n credu y dylent eu cynnwys. Mae'n rhaid nodi bod y ddau gyfranogwr wedi symud i Gymru yn yr ugain mlynedd ddiwethaf a'u bod yn dymuno darganfod beth oedd yn gwneud barddoniaeth Saesneg o Gymru yn unigryw a beth oedd yn eu cysylltu â beirdd eraill. Dywedodd Cyfranogwr 1, er y gallai diddordeb o fath gael ei ystyried fel marchnad arbenigol, mae'n gwneud y pwnc yn fwy diddorol a deniadol i'r darlleneydd. Roedd Cyfranogwr 2 yn awyddus i weld ymagwedd fwy lleol wrth dargedu'r cylchgronau. Er enghraifft, oherwydd ei fod yn bwnc sy'n fwy arbenigol, roedd yn credu y byddai mwy o ffocws lleol ar grwpiau lleol yn cynyddu'r potensial i'w brynu. Er bod gan y ddau safbwynt gwahanol, roeddent yn cytuno y dylai'r cylchgronau geisio gwneud y gorau o'u gwreiddiau Cymreig.

Roedd yr angen i gynyddu nifer y darpar ddarllenwyr yn bwnc diddorol i'r ddau gyfranogwr. Er enghraifft, roedd cyfranogwr 1 wedi nodi'n flaenorol yr angen am flog digidol, ystafell sgwrsio neu safle rhwydwaith cymdeithasu a fyddai o ddiddordeb i gynulleidfaoedd gwahanol, yn ei gynnwys ef, ac roedd cyfranogwr 2 yn cytuno â hynny. Tu hwnt i hyn, fodd bynnag, dywedodd cyfranogwr 2 y byddai'n hoffi gweld sampl o gylchgronau a fyddai o ddiddordeb i'w grŵp hi. Eu diben fyddai annog grŵp i brynu neu danysgrifio i'r cylchgrawn ac na ddylid eu rhoi am ddim, ond fel ffordd o geisio cynyddu nifer y darllenwyr a'r prynwyr. Unwaith eto, roedd elfen rhagolwg i'w sylwadau, a oedd yn awgrymu y byddai rhai'n hoffi opsiwn 'gweld cyn prynu'.

Wrth lunio'r casgliad ar gyfer y grŵp hwn, y prif bwyntiau yw bod fersiwn argraffedig a digidol o'r cylchgrawn yn bwysig i wahanol ddarllenwyr. Ymddengys bod diffyg hysbysebu yn gyffredinol ac felly nid yw hyn yn annog/denu'r rhai sy'n gyfarwydd â'r cylchgrawn ond nad ydynt yn eu prynu'n rheolaidd, i wneud hynny. Ceir awgrym hefyd bod angen ymagwedd newydd er mwyn gwella profiad y darllenwyr a byddai rhagolwg digidol neu gylchgronau rhagflas yn ddefnyddiol ar gyfer y grŵp hwn.

4.3. Grŵp 2: Y rhai sydd wedi nodi bwlech yn y farchnad

Tabl 4.2: Cyfranogwyr Grŵp 2

Cyfranogwr	Oedran	Rhyw	Lleoliad	Statws Cyflogaeth
3	46-50	Benyw	Caerdydd	Cyflogedig
4	Dros 65	Gwryw	Caerdydd	Wedi ymddeol

Roedd y ddau gyfranogwr yn y grŵp hwn yn tanysgrifio i un neu fwy o'r cylchgronau sy'n cael eu hariannu gan CLIC, ac roedd y ddau ohonynt yn cytuno bod bwlech yn y farchnad a bod angen gwneud newidiadau er mwyn bodloni tueddiadau darllen presennol. Wrth ateb y cwestiwn beth fyddai'r darllenwyr yn hoffi ei weld yn y cylchgronau, roedd yna elfen o ddewis personol, fel gyda Grŵp 1, ond teimlwyd yn gyffredinol bod angen ymagwedd fwy cyfannol at faterion cyfoes Saesneg yng Nghymru, sy'n cwmpasu gwleidyddiaeth a pholisi ac sy'n cyfuno gyda chynnwys diwylliannol, yn cynnwys adolygiadau o lyfrau. Er bod cyfranogwr 4 yn dadlau bod y cylchgrawn Planet wedi cynnig a chyflawni hyn ers blynnyddoedd lawer, roedd yn credu ei fod yn dirywio a'i fod:

"...yn llai diddorol nac yr arferai fod, am nad oedd bellach yn cysylltu â'r hyn a oedd yn cael ei ysgrifennu yng Nghymru a'r sefyllfa yng Nghymru fel yr arferai ei wneud."

Roedd gan gyfranogwr 4 bob copi a oedd wedi'i argraffu erioed o'r cylchgrawn, felly roedd yn credu ei fod yn gallu cyfiawnhau ei farn. Dywedodd cyfranogwr 3 hefyd y byddai, fel darllenwr, yn hoffi gweld ymagwedd fwy cyflawn at wleidyddiaeth yng Nghymru a chredai bod diffyg arbennig ar y pwnc yn ogystal â thrafodaeth addas. Nid oedd y ddau am weld pynciau mwy arbenigol yn gyffredinol, yn hytrach, byddent yn hoffi cylchgrawn a oedd yn cynnig mwy am Gymru yn ei holl ffurfiau.

O ran yr hyn a oedd yn eu hannog i brynu neu danysgrifio i'w cylchgronau; roedd dyluniad, cynnwys a phynciau clir yn bwysig iawn iddynt, yn cynnwys mwy o bwyslais ar hysbysebu'r cylchgrawn a'i bwnc. Dywedodd cyfranogwr 3 bod nifer o'r cylchgronau Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru wedi mynd yn rhy "ddarniog", ac nad oeddent yn cynnig yr oeddent wedi'i gynnig yn y gorffennol. Unwaith eto, cytunwyd y byddai cymysgedd o fersiynau ar-lein ac argraffedig o gylchgronau yn ddefnyddiol, ond na ddylid anwybyddu'r naill na'r llall. Dywedodd cyfranogwr 3 bod gan y ddau eu lle a'u bod yn bwysig i ddarllenwyr gwahanol. Fel cyfranogwr 1, roedd cyfranogwr 4 yn dadlau bod angen lleoliad ar-lein ar gyfer mynegi barn a chynnal trafodaethau newydd, ac y gallai cylchgronau megis Planet a'r New Welsh Review ddarparu sail ar gyfer hyn drwy ddefnyddio blogiau a'r cyfryngau cymdeithasu.

Roedd cyfranogwr 4 o'r farn bod Planet a New Welsh Review wedi "colli eu ffordd" ac nad oeddent yn "ymwybodol" o'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru. Roedd angen mwy o amser ac arian ar gyfer gwneud gwaith ymchwil newydd ac y dylai'r cylchgronau ymweld â mwy o gynadleddau a grwpiau ymchwil er mwyn cael syniad o farn amrywiol y cyhoedd. Roedd hefyd yn dadlau bod dyluniad a chynnwys Planet wedi dirywio, ac "nid wyf yn teimlo bod eu bys ar faterion Cymreig a thu hwnt bellach". Dywedodd y gallai hyn atal prynwyr rhag ei brynu a bod bwlech yn y farchnad i Planet lwyddo mewn ffurf wahanol. Roedd dyluniad a chynnwys yn amlwg yn bwysig iawn i'r ddau gyfranogwr ac y byddai hyn yn effeithio ar eu penderfyniad i brynu neu danysgrifio, yn cynnwys diffyg perthnasedd a gwasanaeth cyhoeddus clir. Roedd cyfranogwr 4 hefyd yn dadlau bod

penderfyniadau golygyddol gwael a “diffyg arweiniad golygyddol cadarn” hefyd wedi’i atal rhag prynu cylchgrawn.

Roedd y ddau gyfranogwr wedi’u cyflwyno i’r cylchgronau drwy eu gwaith a’u diddordeb mewn gwleidyddiaeth a materion Cymreig. Roedd y ddau wedi darllen Planet a New Welsh Review bron o’r cychwyn. Ymddengys mai’r her oedd, nid cyflwyniad y cylchgronau eu hunain, ond sut i gynnal diddordeb eu darllenwyr. Er y byddai pris yn broblem pe byddai’r cylchgronau hyn yn ddrud, roeddent yn cytuno nad oedd eu dewisiadau hwy yn ddrud. Fodd bynnag, dywedodd cyfranogwr 4 mai “arferiad” yn hytrach na mwynhad oedd yn sicrhau ei danysgrifiad. Roedd cyfranogwr 3 yn dadlau bod y prisiau fel arfer yn uwch na chylchgronau fel The Spectator a New Statesman, ond roedd yn cydnabod na fyddai hyn yn ymarferol yng Nghymru. Roedd y ddau’n cytuno bod hyn yn aml yn golygu bod y cyhoeddwyr yn gorfod ceisio arbed arian ar farchnata er mwyn cadw’r costau yn isel, a bod hyn o bosibl yn datblygu i fod yn broblem i nifer o’r cylchgronau dan sylw.

Wrth drafod eu harferion darllen cyffredinol, roedd y ddau’n cytuno nad oedd adolygiadau cyffredinol yn eu hysgogi i brynu’r llyfrau neu’r ysgrifau yn gyffredinol. Fodd bynnag, roeddent wedi’u hannog i ystyried cyfnodolion ar-lein yn ogystal â fersiynau ar-lein o’u cylchgronau dewisol ac wedi gwneud iddynt ystyried mentrau ar-lein yn benodol. Roedd hyn yn cyd-fynd â’u barn ar y ffocws ar Gymru a diwylliant Cymru, ac roedd cyfranogwr 4 yn teimlo’n arbennig bod angen menter ddigidol a fyddai’n cynyddu bri’r cylchgronau a fyddai wedyn yn cynyddu ei boblogrwydd a’i amrywiaeth. Dywedodd cyfranogwr 3 nad oedd digon yn cael ei ysgrifennu am Gymru ac nad oedd yr adnoddau prin a’r cyfryngau yn canolbwyntio digon ar y pwnc hwn. Roedd y ddau’n cytuno y byddai hyn yn annog mwy o ddarllenwyr ac yn bodloni angen nad oedd yn cael ei gyflawni yn eu barn hwy.

I gloi, roedd yn amlwg bod nifer o’r pwyntiau a fynegwyd gan Grŵp 1, yn wir hefyd am Grŵp 2, ac roedd y cyfranogwyr yn credu bod angen mwy o adnoddau ar-lein yn ogystal â newid cyffredinol o fewn y cylchgronau eu hunain. Unwaith eto, roeddent yn credu bod angen ymagwedd ffres yn ogystal â mwy o amrywiaeth, er bod y pynciau’n wahanol.

4.4. Grŵp 3: Y rhai sydd â diddordeb yn y pynciau ond nad ydynt yn prynu cylchgronau am y pynciau hynny ar hyn o bryd

Tabl 4.3: Cyfranogwyr Grŵp 3

Cyfranogwr	Oedran	Rhyw	Lleoliad	Statws Cyflogaeth
5	Dros 65	Benyw	Conwy	Wedi ymddeol
6	56-60	Gwryw	Rhondda Cynon Taf	Wedi ymddeol

Roedd y cyfranogwyr yn Grŵp 3 yn wahanol i'r ddau grŵp arall oherwydd roedd ganddynt ddiddordebau amrywiol. Roedd gan gyfranogwr 5 ddiddordeb brwd mewn llenyddiaeth a llenyddiaeth o / am Gymru yn benodol, ac roedd gan gyfranogwr 6 ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth, yr amgylchedd, pensaernïaeth a chelf. Hefyd, roedd y ddau wedi tanysgrifio i gylchgrawn, ond nid oeddent yn tanysgrifio i rai eraill a allai fod yn addas. Er enghraifft, roedd cyfranogwr 5 yn tanysgrifio i Golwg, ond nid oedd yn ymwybodol o'r New Welsh Review, Poetry Wales, Planet ac yn y blaen. Roedd cyfranogwr 6 yn tanysgrifio i Planet yn unig ac roedd ei sylwadau'n gadarnhaol iawn ar y cyfan am y cylchgrawn, er nad oedd yn credu y byddai'n tanysgrifio i unrhyw gylchgronau eraill. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn ymddangos bod Planet wedi profi rhai newidiadau y llynedd, nad oedd yn eu hoffi, ond roedd yn gobeithio y byddai pethau'n dechrau sefydlogi ar ôl newidiadau golygyddol.

Fel y ddau grŵp arall, roedd dyluniad a nodweddion marchnata yn elfennau yr oedd y darllenwyr yn awyddus i'r cylchgronau ddarparu mwy ohonynt, gyda chyfranogwr 6 yn benodol yn dweud ei fod yn hoffi profi hanes arbenigol am Gymru, materion cyfoes o safbwynt Cymreig (a oedd wedi bod yn brin yn ddiweddar yn Planet yn ei farn ef), storïau byrion a diwylliant gweledol. Dywedodd cyfranogwr 5 y bu ganddi ddiddordeb mawr mewn gwleidyddiaeth yn ei hieuenctid, ond ei bod bellach yn mwynhau cymysgedd o faterion cyfoes, clecs, celf a'r theatr. Roedd yn credu bod Golwg yn ddewis deniadol iawn oherwydd ei erthyglau ysgafn a'i bynciau amrywiol. Wrth ofyn y cwestiwn ym mha ffurf y byddent yn hoffi gweld eu cylchgronau, roedd y ddau'n cytuno bod yn well ganddynt y fersiwn argraffedig, ond fel yn Grŵp 1 a 2, roedd consensws bod angen fersiwn digidol neu ar-lein cyffredinol a fyddai'n denu cynulleidfau bellach. Fodd bynnag, ni fyddent hwy'n eu defnyddio.

Wrth ofyn y cwestiwn pam nad oeddent yn tanysgrifio i gylchgronau eraill, roedd y ddau'n cytuno bod cost yn bwysig, gyda Chyfranogwr 6 yn dweud ei fod eisoes yn teimlo teyrngarwch brand at Planet, a'i fod wedi parhau i danysgrifio, er nad oedd bob amser yn hapus gyda'r cynnwys, ac nid oedd yn teimlo y gallai danysgrifio i gylchgrawn arall. Dywedodd cyfranogwr 5 ei bod yn aml yn rhannu ei chylchgronau gyda'i ffrindiau ac felly nid oedd yn teimlo bod angen iddi brynu neu danysgrifio i fwy o gylchgronau.

Fodd bynnag, roedd y ddau gyfranogwr wedi cael cyflwyniadau gwahanol iawn i'r cylchgronau. Roedd yn amlwg bod cyfranogwr 5 yn mwynhau darllen Golwg ar ôl dysgu Cymraeg, ac roedd hefyd wedi dechrau ysgrifennu rhai erthyglau oherwydd hynny. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod cyfranogwr 6 wedi bod yn 'danysgrifiwr oes', a'i fod yn credu bod Planet wedi dirywio i raddau. Ond, roedd y ddau wedi dechrau prynu'r cylchgronau yn dilyn cymeradwyaeth gan bobl eraill. Fel yn achos grwpiau 1 a 2, roeddent yn credu bod cost y cylchgronau yn rhesymol, ond eu bod wedi penderfynu peidio â thanysgrifio i rai eraill o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, roeddent yn aml yn prynu llyfrau neu'n ymweld â'r lleoedd a oedd wedi'u hadolygu gan Planet a Golwg, felly roedd yn effeithio ar eu harferion prynu i ryw raddau, er nad oedd hyn yn eu hannog i danysgrifio ymhellach. Er bod barn y ddau ohonynt yn gadarnhaol iawn, roedd ganddynt rai awgrymiadau ar gyfer gwneud rhai newidiadau i gylchgronau Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru, rhai a fyddai o bosibl yn eu hannog i danysgrifio neu o leiaf fodloni angen nad oedd yn cael ei fodloni'n llwyr ar hyn o bryd. Fel y dywedodd cyfranogwr 6:

"Mae Planet yn parhau i dderbyn cymorth gan Gyngor y Celfyddydau, credaf fod angen iddo roi mwy, ac mae angen iddo ganolbwyntio mwy ar ysgogi meddwl, ond i fod yn ddigon ifanc i fodloni darllenwyr hŷn y tu hwnt i newyddiaduriaeth bob dydd."

Mynegwyd barn debyg gan gyfranogwr 5, ac ychwanegodd y dylai'r cylchgronau hyn hysbysebu mwy mewn digwyddiadau hyrwyddo a chyhoeddus. Mae rhai ohonynt yn fwy amlwg nac eraill, yn cynnwys Golwg, a dyna pam yr oedd wedi penderfynu tanysgrifio. Roedd consensws hefyd wrth drafod Cymru a'i diwylliant, gyda'r ddau gyfranogwr yn credu bod angen rhoi mwy o bwyslais ar yr amrywiaeth sydd ar gael o lenyddiaeth, digwyddiadau, celf, gwleidyddiaeth a diwylliant poblogaidd yng Nghymru.

I gloi, ymddengys na fyddai'r ddau gyfranogwr, er eu bod yn danysgrifwyr i gylchgronau eraill, yn prynu unrhyw gylchgronau eraill oherwydd y gost ond hefyd oherwydd diffyg amrywiaeth rhwng cylchgronau. Roedd y grŵp hwn, fel y grwpiau eraill, yn credu bod angen newid, a chafodd y thema hon ei chrybwyll yn aml yn y cyfweiliadau.

4.5. Grŵp 4: Pobl Ifanc

Tabl 4.4: Cyfranogwyr Grŵp 4

Cyfranogwr	Oedran	Rhyw	Lleoliad	Statws Cyflogaeth
7	20-25	Benyw	Conwy	Cyflogedig
8	26-30	Gwryw	Caerdydd	Cyflogedig

Byddai rhai'n dadlau y dylai pobl ifanc fod yn grŵp targed allweddol i gyhoeddwywr wrth ystyried strategaethau marchnata a hysbysebu. Nifer fach iawn o bobl ifanc a gymerodd ran yn yr arolwg yn ystod cam 1, ac wrth eu holi ynglŷn â'u harferion prynu, nid oedd eu hymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan ac nid oedd ganddynt lawer o frwdfrydedd cyffredinol. Wrth eu holi ar eu disgwyliadau gan gylchgrawn, roedd eu hymatebion yn debyg i'r rhai uchod, er enghraifft dyluniad, apêl, ymagwedd amrywiol at y pwnc, gyda chymysgedd o gynnwys ysgytwol a phynciau ysgafn. Roedd y ddau gyfranogwr wedi mwynhau darllen nifer o'r erthyglau yn Poetry Wales, Cambria, Planet a The New Welsh Review, ond ni fyddai'r un o'r ddau ohonynt yn barod i danysgrifio neu brynu'r un o'r ddau gylchgrawn hyn yn rheolaidd. Roedd hyn yn rhannol oherwydd iddynt ddweud bod rhai o'r erthyglau'n "sych" ac nad oeddent o ddiddordeb i bobl ifanc. Er enghraifft, roedd cyfranogwr 7 o'r farn nad oedd unrhyw adolygiadau cynhwysfawr o ffuglen, digwyddiadau na gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at bobl ifanc. Fodd bynnag, dywedodd bod rhai o'r erthyglau wedi bod yn ddiddorol. Dywedodd cyfranogwr 8 ei fod yn credu bod diffyg cynllun ac ansawdd yn llawer o'r cylchgronau hyn a bod hynny wedi'i ddiflasu.

Roedd y ddau'n cytuno bod angen cylchgrawn cynhwysfawr ar-lein a fyddai'n cyfuno ymagwedd anffurfiol at ysgrifennu erthyglau, yn ogystal â diddordeb mewn pobl ifanc a'u diddordebau'n gyffredinol. Roeddent yn credu bod hyn yn brin yn y cyfryngau yng Nghymru, ac roeddent yn cytuno nad oedd hyn yn gynrychiolaeth deg o bobl ifanc o fewn diwylliant Cymru. Awgrymodd cyfranogwr 7 y byddai hysbysebu a marchnata ar safleoedd cyfryngau cymdeithasu yn ffordd effeithiol o ennyn diddordeb a chynulleidfa yn ogystal â datblygu momentwm ar gyfer cylchgrawn ar gyfer pobl ifanc yn benodol. Byddai hefyd yn gyfrwng a fyddai'n eu galluogi i fynegi eu hunain yn rhwydd, ar lefel fwy amhersonol. Dywedodd cyfranogwr 7 ei bod yn hoffi'r opsiwn "symlach" y gallai fersiwn digidol ei gynnig.

Roedd yn ymddangos bod ganddynt arferion prynu cylchgronau, papurau newydd a llyfrau achlysurol ar y cyfan, felly awgrymwyd y byddai fersiwn digidol yn addas. Roedd cost yn bwysig iddynt hefyd, gyda'r ddau'n nodi na fyddent yn tanysgrifio'n flynyddol oherwydd cyllid, ond bod gallu prynu ar-lein yn datblygu i fod yn fwyfwy cyffredin. O ganlyniad, gellid dadlau y byddai'r angen am gylchgrawn ar-lein, a fyddai'n cyfuno nifer o bynciau gwahanol sydd wedi'i anelu'n benodol at bobl ifanc, yn creu llawer iawn o ddiddordeb. Byddai hefyd yn darparu bwrdd trafod a fyddai'n sicrhau bod erthyglau a chyhoeddiadau yn gyfredol a pherthnasol.

I gloi, nid yw nifer o'r pwyntiau a grybwyllir uchod yn wahanol i bwyntiau grŵp 1, 2 a 3. Ond, roedd diffyg diddordeb cyffredinol mewn cylchgronau yn gyffredinol yn llawer mwy amlwg.

4.6. Grŵp 5: Defnyddwyr Digidol

Tabl 4.5: Cyfranogwyr Grŵp 5

Cyfranogwr	Oedran	Rhyw	Lleoliad	Statws Cyflogaeth
9	61-65	Gwryw	Caerdydd	Wedi ymddeol
10	51-55	Benyw	Rhondda Cynon Taf	Cyflogedig

Yr hyn a ddaeth yn amlwg yn ystod y gyfres olaf o gyfweiliadau oedd consensws amlwg gyda’r grwpiau eraill ond mwy o bwyslais ar offer ar-lein a digidol, a fyddai’n denu cynulleidfya fwy yn ogystal â phynciau newydd a diddorol. Roedd y ddau gyfranogwr yn darllen fersiynau ar-lein ac argraffedig o gylchgronau, ac roedd y ddau’n gyfarwydd iawn gyda chylchgronau Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru. Dywedodd cyfranogwr 9 mai dim ond “ymdeimlad o ddyletswydd” a oedd yn sicrhau ei danysgrifiad ac nad oedd yn credu bod yr erthyglau na’r pynciau dan sylw o safon uchel. Roedd cyfranogwr 10 o’r farn bod yr erthyglau yn llai anturus erbyn hyn, a’i deunydd darllen personol o ganlyniad i hynny.

Unwaith eto, roedd ansawdd, dyluniad, cynllun ac ymagwedd gynhwysfawr neu gyfannol at Gymru yn elfennau yr oedd y ddau am eu gweld mewn cylchgrawn. Roedd y ddau o’r farn nad oedd eu cylchgronau o ddewis wedi bod yn cyflawni yn ddiweddar. Roedd sylwadau cyfranogwr 9 yn arbennig o negyddol, gan ddweud bod diffyg perthnasedd i ddiwylliant Cymru a diffyg cyhoeddusrwydd yn gyffredinol, yn ogystal â diffyg presenoldeb mewn digwyddiadau byw. Roedd wedi bod yn tanysgrifio i Planet ers nifer o flynyddoedd, ond dywedodd nad oedd y cylchgrawn yn cael ei hysbysebu’n effeithiol ac y byddai’n anodd gwybod lle y gallai ei brynu oni bai ei fod yn gwybod hynny’n barod. Yn eu barn hwy, nid oedd cylchgronau Saesneg yn gwneud y defnydd gorau o ddiwylliant Cymru nac yn gwneud y defnydd gorau o’i hamrywiaeth.

Yn benodol, roedd y ddau gyfranogwr o’r farn bod mwy o angen am fersiynau digidol o’r cylchgronau, a oedd wedi’i nodi hefyd gan yr holl grwpiau blaenorol. Fodd bynnag, awgrymodd cyfranogwr 9 bod angen mwy o bresenoldeb amlycach mewn digwyddiadau byw, oherwydd nid oedd yn credu bod llawer o bresenoldeb y wasg yng Nghymru a oedd yn mynychu darlenniadau barddoniaeth o Gymru a chynadleddau Saesneg eu hiaith. Roedd hefyd o’r farn nad oedd y gwefannau sydd ar gael yn glir iawn, ac nad oes ganddynt ddiben clir wrth geisio tywys eu cynulleidfaoedd. Awgrymodd y byddai cylchgrawn digidol yn galluogi rhyngweithio, yn debyg i ddigwyddiad meicroffon agored ond fersiwn ar-lein o hynny, lle gallai pobl drafod, cymharu a rhannu gwaith neu syniadau. Roedd y thema hon yn cael ei hailadrodd gan y mwyafrif o’r darllenwyr, thema a allai fod yn effeithiol a phoblogaidd ymhlith pob grŵp oedran a chefnidir.

5. Casgliadau

Mae'r adran olaf hon yn dwyn ynghyd yr hyn sy'n cael ei ystyried yn brif ganfyddiadau'r ymchwil.

Roedd yr arolwg a gynhaliwyd fel **cam 1** wedi'i dargedu at ddarllenwyr cylchgronau sy'n cael eu cefnogi gan CLIC a'r rhai sydd â diddordeb yn y pwnc a'r materion sy'n cael eu trafod. Felly, mae'r sampl yn darparu syniad o'r farchnad ar gyfer cylchgronau Saesneg a'r pynciau sy'n cael eu trafod. Y prif ganfyddiadau yn y cyswllt hwn oedd:

- Roedd dau ddeg pedwar y cant (107/445) o'r ymatebwyr dros 65 oed ac roedd 50% dros 55. Dim ond 8% o'r ymatebwyr oedd o dan 30;
- Roedd cyfran sylweddol o'r grŵp wedi ymddeol (31%) gyda 42% mewn cyflogaeth a 19% yn hunangyflogedig.

Mae angen ystyried hyn wrth drafod unrhyw strategaeth farchnata neu hyrwyddo ar gyfer cylchgronau yn y pynciau sy'n cael eu hadolygu.

Yn nhermau eu diddordeb, ar gyfartaledd, prif ddiddordeb y sampl oedd materion cyfoes (53% yn gyffredinol a 55% yng Nghymru) a'u diddordeb lleiaf oedd barddoniaeth (39% yn gyffredinol a 38% yng Nghymru). Roedd gan gyfran ychydig yn uwch o'r ymatebwyr ddiddordeb yn y pynciau dan sylw yng Nghymru (e.e. materion cyfoes yng Nghymru) yn hytrach nac mewn pob pwnc yn gyffredinol, ac eithrio barddoniaeth, lle'r oedd gan gyfran ychydig yn uwch ddiddordeb yn y pwnc yn gyffredinol yn hytrach nac yng Nghymru (39% o'i gymharu â 38%). Fodd bynnag, mae gwaith dadansoddi'n dangos bod y gwahaniaeth ond yn arwyddocaol yn ystadegol yn achosion 'y celfyddydau yng Nghymru' o gymharu â'r 'celfyddydau yn gyffredinol' a 'hanes', lle'r oedd gan yr ymatebwyr, ar gyfartaledd, lawer mwy o ddiddordeb mewn hanes Cymru o'i gymharu â hanes yn gyffredinol.

Roedd y math o gylchgrawn (yn nhermau pwnc) yr oedd y nifer uchaf o ymatebwyr wedi'u prynu unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn ymwneud â llenyddiaeth yng Nghymru (59%) ac roedd y nifer isaf a brynwyd ganddynt ar hanes yn gyffredinol (16%). Wrth gwrs, mae angen ystyried hyn yng ngoleuni argaeledd y cylchgronau yn y pynciau hynny, yn ogystal â lefel y diddordeb yn y pynciau hynny. Wrth gymharu'r ymatebion i'r materion yr oedd gan yr ymatebwyr ddiddordeb ynddynt a'r mathau o gylchgrawn yr oeddent wedi'u prynu yn y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd bod y bwlch mwyaf ar gyfer 'hanes'; dywedodd 41% bod ganddynt lawer o ddiddordeb mewn hanes yn gyffredinol, ond dim ond 16% a ddywedodd eu bod wedi prynu cylchgrawn yr oeddent yn credu oedd yn trafod y pwnc hwnnw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr un patrwm yn amlwg ar gyfer 'hanes yng Nghymru', gyda 53% yn datgan bod ganddynt lawer o ddiddordeb yn y pwnc ond dim ond 23% a oedd wedi prynu cylchgrawn perthnasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r bwlch lleiaf ar gyfer 'lenyddiaeth yng Nghymru', lle dywedodd 57% o'r ymatebwyr bod ganddynt lawer o ddiddordeb a dywedodd 59% eu bod wedi prynu cylchgrawn perthnasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Yn nhermau pa mor rheolaidd yr oeddent yn prynu cylchgronau, roedd yn bosibl disgrifio 62% o'r sampl fel 'prynwyr rheolaidd' cylchgronau, a'u bod yn prynu o leiaf un cylchgrawn y mis sy'n awgrymu bod galw mawr yn gyffredinol am gylchgronau o fewn y sampl. Ond, roedd yn amlwg bod angen i chi fod yn gyfarwydd â chylchgrawn cyn ei brynu, ac roedd yr ymatebwyr yn fwyaf cyfarwydd â chylchgronau materion cyfoes yn gyffredinol (61%); hefyd y pynciau yr oedd ganddynt y diddordeb mwyaf ynddynt, fel y nodwyd uchod. Roeddent yn lleiaf cyfarwydd â chylchgronau am y celfyddydau yng Nghymru (11%). Ond, a yw'r rhai sy'n gyfarwydd â chylchgronau yn eu darllen neu'n eu prynu?

Yn nhermau canrannau, 'materion cyfoes yng Nghymru' yw'r categori gyda'r nifer fwyaf o brynwyr / darllenwyr rheolaidd (30%) a'r celfyddydau yw'r categori gyda'r nifer leiaf (2%).

Fel y trafodwyd yn yr adroddiad, un o'r ffyrdd amlwg y gall cylchgronau gynyddu nifer eu darllenwyr yw drwy ysgogi'r rhai sy'n gyfarwydd â chylchgrawn ac sy'n ei ddarllen yn achlysurol, i fod yn brynwyr / darllenwyr rheolaidd. Dengys y dadansoddiad bod y categorïau sydd â'r gyfran fwyaf o ymatebwyr yn y categorïau hynny yw 'hanes yn gyffredinol' (72%) a 'materion cyfoes yn gyffredinol' (67%). Canfu dadansoddiad pellach bod 76% (339/445) o'r sampl cyfan wedi'u cynnwys yn y 'farchnad darged' ar gyfer wyth cylchgrawn sy'n cael eu hystyried mewn mwy o fanylder. Mae hyn yn awgrymu bod swm sylweddol o orgyffwrdd o fewn y farchnad darged ar gyfer pob un o'r wyth cyhoeddiad ac o ganlyniad i hynny, mae yna bosibilrwydd i wneud mwy o waith marchnata ar y cyd a thraws farchnata ar eu rhan.

Gan edrych ar y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg yng Nghymru, roedd sylwadau mwyaf cadarnhaol yr ymatebwyr yn ymwneud â'r ddarpariaeth o gylchgronau materion cyfoes yn gyffredinol (7.5 allan o 10) ac roedd y sylwadau lleiaf cadarnhaol yn ymwneud â gwleidyddiaeth yng Nghymru (4.3 allan o 10). Roeddent hefyd o'r farn bod y ddarpariaeth o gylchgronau am y pynciau dan sylw yn well ar y cyfan, na'r ddarpariaeth o gylchgronau am yr un pynciau o Gymru ac am Gymru. Er enghraifft, rhoddwyd sgôr o 7.6 am y ddarpariaeth o gylchgronau am faterion cyfoes, o gymharu â chylchgronau am faterion cyfoes yng Nghymru, a dderbyniodd sgôr o 5.6. Yn y cyswllt hwn, ystyrir bod bwlch yn y ddarpariaeth o gylchgronau sy'n sôn yn benodol am bynciau yng Nghymru: nodwyd hynny hefyd yn y cyfweiliadau manwl sy'n cael eu trafod isod. Mae'r un patrwm yn amlwg pan oedd yr ymatebwyr yn trafod ansawdd cylchgronau Saesneg; ystyrir bod cylchgronau sy'n trafod pynciau yn gyffredinol yn well na'r rhai sy'n sôn yn benodol am y pwnc yng Nghymru. Yn ddiddorol, canfu'r dadansoddiad bod perthynas gadarnhaol rhwng barn pobl am y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg ac ansawdd y ddarpariaeth; mae'r ymatebwyr hynny sy'n rhoi sgôr uwch i'r ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg yn fwy tebygol o roi sgôr uchel i ansawdd y ddarpariaeth. Mae hyn yn awgrymu, po fwyaf ymwybodol yr ydych chi o'r cylchgronau sydd ar gael, y mwyaf tebygol y byddwch yn rhoi sgôr uchel i'r ddarpariaeth honno. Felly, a yw'r farn am ansawdd y cylchgronau yn cynyddu os yw'r ymwybyddiaeth o'r cylchgronau sydd ar gael yn cynyddu? Mae canfyddiadau'r dadansoddiad yn awgrymu bod hynny'n wir.

Dywedodd cyfran gymharol uchel o'r sampl (37%) eu bod yn credu bod bwlch yn y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg. Mae yna lawer o amrywiaeth yn nhermau beth oedd y bwlch hwnnw, ond y bylchau amlycaf a nodwyd oedd: hanes (3% - 14/445), materion cyfoes (3% - 14/445) a gwleidyddiaeth (3% - 12/445). Mae hyn yn dangos y pethau penodol iawn a nodwyd gan y grŵp hwn o ymatebwyr sy'n cael eu cyfrif fel bylchau, sy'n gwneud y gwaith o dargedu'r bylchau hynny yn y ddarpariaeth yn anodd.

Yn nhermau gwefannau, roedd cyfran uchel o'n sampl wedi ymweld â gwefannau sy'n sôn am faterion cyfoes yn gyffredinol (66%) a materion cyfoes yng Nghymru (60%). Fodd bynnag, dim ond 30% (135/445) o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi ymweld â gwefannau am farddoniaeth yn gyffredinol a 28% (125/445) a oedd wedi ymweld â gwefannau am farddoniaeth o Gymru ac am Gymru. Yn ddiddorol, canfu dadansoddiad o'r gwahaniaeth rhwng darllenwyr rheolaidd a darllenwyr achlysurol y cylchgronau bod darllenwyr rheolaidd yn fwy tebygol o ymweld â gwefannau am faterion cyfoes yn gyffredinol ac yng Nghymru, ond bod darllenwyr achlysurol cylchgronau yn fwy tebygol o ymweld â gwefannau am farddoniaeth, y celfyddydau a hanes yn gyffredinol ac yng Nghymru.

Canfu **Cam 2** bod y pwyntiau isod yn berthnasol i bob un o'r 10 cyfranogwr wrth brynu neu danysgrifio i gylchgrawn:

- Mae'r dyluniad a'r cynllun, yn cynnwys cyfuniad da o gynnwys manwl ac ysgafn, yn bwysig i ddarllenwyr cylchgronau;
- Diffyg cyffredinol o ymgyrch farchnata a hysbysebu effeithiol o gylchgronau Saesneg;
- Mae'r ffocws ar Gymru a diwylliant perthnasol o Gymru yn dirywio yn y cylchgronau hynny sydd ar gael ar hyn o bryd;
- Mae angen cylchgrawn 'cyffredinol' sy'n benodol ar gyfer pobl ifanc;
- Mae angen offer ar-lein ac offer digidol yn cynnwys blogiau, mathau o rwydweithio cymdeithasu er mwyn darparu rhagflas o gylchgrawn, rhannu syniadau ymhlith darllenwyr ac yn y blaen;
- Dylid cael mwy o bresenoldeb mewn digwyddiadau byw, cynadleddau a grwpiau ymchwil cyffredinol.

Er bod y cyfranogwyr o oedrannau amrywiol a bod ganddynt ddiddordebau gwahanol iawn, roedd eu safbwyntiau yn debyg iawn, yn cynnwys yr hyn yr oeddent hwy'n ei gredu oedd nodweddion negyddol a chadarnhaol cylchgronau Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru. Er enghraifft, roedd consensws cyffredinol wrth drafod yr angen am wasanaeth ar-lein cynhwysfawr, yn ogystal â'r diffyg perthnasedd ynglŷn â Chymru a diwylliant Cymru. Fodd bynnag, nid oedd cost yn flaenoriaeth i nifer o bobl, a mynegwyd y farn gyffredinol bod pobl yn barod i wario os yw'r cynnwys yn addas ac yn ddiddorol.

O'r data a gasglwyd, gellir dadlau bod cylchgronau yn dylanwadu, a hyd yn oed yn penderfynu arferion prynu darllenwyr, felly gallai cynnydd yn nifer y darllenwyr a'r tanysgrifwyr arwain at gynnydd cyffredinol yn y diddordeb mewn llenyddiaeth yng Nghymru / o Gymru yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod angen gwneud llawer o waith er mwyn denu a chynnal darllenwyr newydd, gyda hysbysebu, argaeledd ac ansawdd ymhlith y blaenoriaethau a nodwyd. Er nad yw'n bosibl cyffredinoli o'r canlyniadau uchod oherwydd natur y gwaith ymchwil, mae'n amlwg bod gan nifer o'r bobl yr un farn, a bod yr angen i addasu a moderneiddio yn datblygu i fod yn flaenoriaeth uchel.

Atodiad 1: Holiadur yr arolwg

This questionnaire is available either in English or in Welsh. Please select the language in which you would prefer to complete the questionnaire:

Mae'r holiadur hwn ar gael naill ai yn Saesneg neu yn y Gymraeg. Dewiswch yr iaith y byddai'n well gennych i lenwi'r holiadur os gwelwch yn dda:

English / Saesneg	☐
Welsh / Cymraeg	☐

Cefndir

Mae'r holiadur hwn yn rhan o waith ymchwil sy'n cael ei gynnal i gasglu safbwyntiau pobl sy'n byw yng Nghymru, sydd â diddordeb ym materion llenyddol, diwylliannol a materion cyfoes cyfredol yng Nghymru. Yn arbennig, mae'r ymchwil yn archwilio arferion darllen y rhai sydd â diddordeb o'r fath, a'u safbwyntiau ar gylchgronau Saesneg yn y maes hwnnw a gyhoeddir yng Nghymru.

Ni ddylai gymryd mwy na 10 munud i chi gwblhau'r holiadur, yn dibynnu wrth gwrs, ar faint o wybodaeth y byddwch yn ei rhoi.


Fel diolch, bydd enw pawb sy'n llenwi'r holiadur yn cael ei roi mewn het. Y wobwr gyntaf fydd gwerth £100 o docynnau llyfr ac yna bydd pedair gwobr arall o docynnau llyfr £25 yr un.

Mae'r ymchwil yn cael ei gomisiynu gan Gyngor Llyfrau Cymru (www.clc.org.uk), corff cenedlaethol sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, sy'n darparu ffocws ar gyfer y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Mae'n darparu nifer o wasanaethau arbenigol (ym meysydd golygu, dylunio, marchnata a dosbarthu), gyda'r bwriad o wella safonau cynhyrchu a chyhoeddi llyfrau Cymraeg a Saesneg. Mae hefyd yn dyfarnu grantiau i gyhoeddwr ac yn hyrwyddo darllen a llythrennedd yn weithredol yng Nghymru.

Mae'r gwaith ymchwil yn cael ei gynnal gan gwmni ymchwil annibynnol o Orllewin Cymru (www.wavehill.com).

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol a roddwch yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei defnyddio at ddibenion eraill ar wahân i'r ymchwil hwn. Ni fydd eich enw yn ymddangos mewn unrhyw adroddiadau sy'n cael eu cynhyrchu sy'n seiliedig ar ganfyddiadau'r holiadur hwn.

Os ydych yn fodlon cwblhau'r holiadur, cliciwch yma:



1.

1. Faint o ddiddordeb sydd gennych chi yn y materion canlynol?

	Diddordeb mawr	Diddordeb	Rhywfaint o ddiddordeb	Dim diddordeb o gwbl
Materion cyfoes yn gyffredinol				
Materion cyfoes yng Nghymru				
Materion diwylliannol				
Materion diwylliannol yng Nghymru				
Gwleidyddiaeth yn gyffredinol				
Gwleidyddiaeth Cymru				
Llenyddiaeth yn gyffredinol				
Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru				
Barddoniaeth yn gyffredinol				
Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru				
Y celfyddydau				
Y celfyddydau yng Nghymru				
Hanes yn gyffredinol				
Hanes Cymru				

2. A oes gennych chi ddiddordeb arbennig mewn unrhyw bynciau eraill? Os ydych chi, nodwch hwy isod.

--

3. Pa mor rheolaidd ydych chi'n prynu *cylchgronau* (am unrhyw bwnc)?

O leiaf un cylchgrawn yr wythnos	
O leiaf un cylchgrawn y mis	
Yn achlysurol	
Byth	
Arall (nodwch)	

4. Beth oedd y cylchgrawn diwethaf i chi ei brynu a phryd y gwnaethoch ei brynu?

5. Pa gylchgronau, os o gwbl, ydych chi'n eu prynu a/neu'n eu darllen yn rheolaidd? Os nad ydych yn prynu unrhyw gylchgronau'n rheolaidd, gallwch adael y blwch yn wag.

--

6. Ydych chi wedi prynu cylchgronau sy'n trafod unrhyw rai o'r materion hyn unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

	Nac ydw	Ydw	Os ydych, pa rai? (os ydych yn gwybod)
Materion cyfoes yn gyffredinol			
Materion cyfoes yng Nghymru			
Gwleidyddiaeth yn gyffredinol			
Gwleidyddiaeth Cymru			
Llenyddiaeth yn gyffredinol			
Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru			
Barddoniaeth yn gyffredinol			
Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru			
Y celfyddydau			
Y celfyddydau yng Nghymru			
Hanes yn gyffredinol			
Hanes Cymru			

7. Ydych chi'n gyfarwydd â'r cylchgronau canlynol?

	Ydw	Nac ydw		Ydw	Nac ydw
Granta			Poetry Wales		
Times Literary Supplement			New Welsh Review		
London Review of Books			Agenda		
PN Review			Cambria		
The Rialto			Welsh Country		
Literary Review			Envoi		
Modern Poetry in Translation			Wales Arts Review		
New York Review of Books			Leaf Writer's Magazine		
Art Review			The Big Issue Cymru		
Quarterly Review			Roundyhouse		
Tank			Red Poets		
Private Eye			Barddas		
The New Statesman			Taliesin		
New Internationalist			Golwg		
The Spectator			Barn		
The Economist			Planet		
BBC History					

8. [Ar gyfer y cylchgronau y mae'r ymatebwyr yn gyfarwydd â hwy yn unig] Pa mor rheolaidd ydych chi'n darllen y cylchgronau canlynol?

	Yn rheolaidd (pob rhifyn neu bron pob rhifyn)	Nawr ac yn y man (cymharol reolaidd)	Wedi'i ddarllen unwait h neu ddwy	Byth
<i>Rhestrwch y cylchgronau a nodwyd yn y cwestiwn blaenorol yma</i>				

[Mae cwestiynau 9 i 12 ar gyfer ymatebwyr sy'n ateb eu bod wedi darllen Planet, New Welsh Review, Poetry Wales, Envoi neu Welsh Agenda]

9. A wnaethoch chi brynu'r copi o XXXX y gwnaethoch ei ddarllen?

Do	Naddo	Ddim yn cofio
----	-------	---------------

10. [Os do] Ble gwnaethoch ei brynu?

11. [Os naddo] Ble gwnaethoch ei ddarllen / cael eich copi?

12. Ar raddfa o 0 (gwael iawn) i 10 (da iawn), pa sgôr y byddech chi'n ei rhoi i'r cylchgrawn?

13. Esboniwch eich ateb.

14.

14. Rhowch sgôr i'r ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg yn y pynciau canlynol: 0 = *dim cylchgrawn ar gael*. 10 = *mae digon o gylchgronau perthnasol ar gael*.

	0	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	Ddim yn gwybod
Materion cyfoes yn gyffredinol												
Materion cyfoes yng Nghymru												
Gwleidyddiaeth yn gyffredinol												
Gwleidyddiaeth yng Nghymru												
Llenyddiaeth yn gyffredinol												
Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru												
Barddoniaeth yn gyffredinol												
Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru												
Y celfyddydau												
Y celfyddydau yng Nghymru												
Hanes yn gyffredinol												
Hanes Cymru												

15. Nodwch unrhyw sylwadau a allai fod gennych i gefnogi'r sgoriau rydych wedi'u rhoi uchod yma

16. Rhowch sgôr i ansawdd y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg ar y pynciau canlynol: 0 = *gwael iawn*. 10 = *da iawn*

[Ni ddylid cynnwys y pynciau hynny y bydd yr ymatebwyr wedi rhoi sgôr o '0' neu 'ddim yn gwybod' yn y cwestiwn blaenorol yn y tabl hwn]

	0	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	Ddim yn gwybod
Materion cyfoes yn gyffredinol												
Materion cyfoes yng Nghymru												
Gwleidyddiaeth yn gyffredinol												
Gwleidyddiaeth yng Nghymru												
Llenyddiaeth yn gyffredinol												
Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru												
Barddoniaeth yn gyffredinol												
Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru												
Y celfyddydau												
Y celfyddydau yng Nghymru												
Hanes yn gyffredinol												
Hanes Cymru												

17. Nodwch unrhyw sylwadau a allai fod gennych i gefnogi'r sgoriau rydych wedi'u rhoi uchod yma

18. A oes unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth bresennol o gylchgronau Saesneg yr hoffech eu gweld yn cael eu trin a'u trafod?

--

19. Ydych chi'n berchen ar gyfrifiadur llechen (er enghraifft, iPad)?

Ydw	
Nac ydw – ond rwy'n ystyried prynu un yn y 6 mis nesaf	
Nac ydw – ac nid wyf yn ystyried prynu un yn y 6 mis nesaf	

20. Os [Ydw] Ydych chi erioed wedi prynu fersiwn cyfrifiadur llechen o unrhyw gylchgrawn?

Ydw – rydych yn gwneud hyn yn rheolaidd	
Ydw – ond nid ydych yn gwneud hynny mor rheolaidd	
Byth	

21. Ydych chi'n ymweld â gwefannau sy'n gysylltiedig â'r pynciau canlynol?

	Nac ydw	Ydw
Materion cyfoes yn gyffredinol		
Materion cyfoes yng Nghymru		
Gwleidyddiaeth yn gyffredinol		
Gwleidyddiaeth yng Nghymru		
Llenyddiaeth yn gyffredinol		
Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru		
Barddoniaeth yn gyffredinol		
Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru		
Y celfyddydau		
Y celfyddydau yng Nghymru		
Hanes yn gyffredinol		
Hanes Cymru		

22. Ydych chi'n ymweld â gwefannau sy'n gysylltiedig â materion eraill yn rheolaidd? Os ydych chi, pa faterion sy'n cael eu trafod ar y gwefannau hynny?

--

23. Ydych chi'n aelod o unrhyw grŵp, clwb neu gymdeithas sy'n gysylltiedig â'r cylchgronau a'r pynciau sy'n cael eu trafod yn yr holiadur hwn? Os ydych chi, nodwch hwy yma.

--

24. Beth yw eich rhyw?

Gwryw	
Benyw	

25. I ba grŵp oedran ydych chi'n perthyn iddo?

O dan 20		46 i 50	
20 i 25		51 i 55	
26 i 30		56 i 60	
31 i 35		61 i 65	
36 i 40		Dros 65	
41 i 45		Byddai'n well gennyf beidio dweud	

26. Ym mha sir ydych chi'n byw?

Y tu allan i'r DU	Nodwch lle yma:
Byddai'n well gennyf beidio dweud	

27. Beth yw eich cod post? Rydym yn gofyn hyn oherwydd rydym am weld lle mae'r bobl sydd wedi ymateb i'n harolwg yn byw a gweld a oes unrhyw batrymau. Ni fydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio at unrhyw ddiben arall.

28. Beth yw eich statws cyflogaeth?

Mewn Cyflogaeth (fel cyflogai)	
Hunangyflogedig	
Di-waith	
Ni allaf weithio oherwydd Salwch Hirdymor neu anabledd	
Mewn addysg	
Gweithiwr Teulu Di-dâl (gwraig tŷ, gwr tŷ, gofalwr ac yn y blaen)	
Wedi ymddeol	
Ar gwrs hyfforddiant cyflogaeth dan gymorth y llywodraeth (dywedwch pa un)	
Byddai'n well gennyf beidio dweud	

29. Os ydych yn gweithio, beth yw eich proffesiwn?

Diolch i chi am gwblhau'r holiadur

30. Fel diolch, bydd eich enw yn cael ei roi mewn het ar gyfer cystadleuaeth. Y wobwr gyntaf yw gwerth £100 o docynnau llyfr a bydd pedair gwobr arall o docynnau llyfr £25 yr un. Os hoffech gael eich cynnwys yn y gystadleuaeth hon, rhowch eich enw a'ch manylion cyswllt isod:

Enw	
E-bost	
Rhif ffôn	

Os nad ydych eisiau cymryd rhan yn y gystadleuaeth, ticiwch y ☐ blwch hwn

31. Fel rhan o'r gwaith ymchwil byddwn hefyd yn cynnal nifer o grwpiau ffocws byr (llai nac awr) i drafod ymhellach y materion sydd wedi'u trafod yn yr holiadur hwn mewn gwahanol leoliadau ar hyd a lled Cymru. A fydddech yn fodlon i ni gysylltu â chi os byddwn yn cynnal grŵp ffocws yn eich ardal chi? Fel diolch, bydd pawb sy'n cymryd rhan yn y grŵp ffocws yn derbyn £10 o dalebau'r stryd fawr.

Os ydych yn fodlon i ni gysylltu â chi, a wnewch chi nodi eich enw a'ch manylion cyswllt isod, os nad ydych eisoed wedi gwneud hynny uchod. Nodwch nad oes rheidrydd arnoch i gymryd rhan mewn grŵp ffocws os byddwch yn darparu eich manylion cyswllt yma. Gallwch bob amser ddweud na os a phryd y byddwn yn cysylltu â chi.

Enw	
E-bost	
Rhif ffôn	

Os nad ydych eisiau i ni gysylltu â chi i ofyn i chi gymryd rhan mewn grŵp ffocws, ticiwch y blwch hwn ☐

32. Yn olaf, efallai y bydd Cyngor Llyfrau Cymru'n dymuno cysylltu â chi yn y dyfodol i holi rhai cwestiynau pellach i chi am eich dewisiadau a/neu arferion darllen. A fydddech chi'n fodlon iddynt wneud hynny? Os byddwch yn cytuno iddynt gysylltu â chi, byddant ond yn cysylltu â chi at ddibenion ymchwil ac ni fydd eich manylion cyswllt yn cael eu trosglwyddo i drydydd parti ar gyfer unrhyw ddibenion eraill o dan unrhyw amgylchiadau.

Os ydych yn fodlon iddynt gysylltu â chi yn y dyfodol, nodwch eich enw a'ch manylion cyswllt, os nad ydych eisoed wedi gwneud hynny uchod.

Enw	
E-bost	
Rhif ffôn	

Os nad ydych yn fodlon i ni gysylltu â chi at ddibenion ymchwil yn y dyfodol, ticiwch y ☐ Blwch hwn

Os hoffech wybod mwy am Wavehill, ewch i'n gwefan www.wavehill.com <<http://www.wavehill.com>>

Mae ein holl waith ymchwil yn cael ei gynnal gan ddilyn Cod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad - <http://www.mrs.org.uk/standards>. Os oes gennych unrhyw sylwadau am yr holiadur neu'r gwaith ymchwil yn fwy cyffredinol, gallwch eu hanfon ataf drwy e-bost at endaf.griffiths@wavehill.com. Fel arall, gallwch gysylltu â Chyngor Llyfrau Cymru: gwybodaeth@cllc.org.uk / info@wbc.org.uk

Atodiad 2: Llythyr / e-bost dosbarthu'r holiadur

Market Research: English-language magazines published in Wales

We are hoping that you will be able to contribute to an important research project that has been commissioned by the Welsh Books Council by completing a very short questionnaire.

The purpose of the research is to collate the views of people who have an interest in literary, cultural and current affairs issues in Wales. In particular, the research is exploring the reading habits of those with such an interest and views on English-language magazines in that field published in Wales. The findings of the research will be used to inform the ongoing activities of the Welsh Books Council including the funding of magazines published in Wales.

The questionnaire that we would like you to complete should take no more than 10 minutes to fill-in depending of course on how much information you're providing. It is available on-line at the following website:

- English language version: www.magazinesfromwales.co.uk
- Welsh language version: www.cylchgronauaesneg.co.uk

Alternatively, you can book an appointment to complete the questionnaire via a telephone conversation with one of our researchers by calling our freephone on 0800 917 5249 or by emailing your contact details to magazinesfromwales@wavehill.com or cylchgronauaesneg@wavehill.com.

As a thank you, everybody who completes a questionnaire either on-line or by telephone is entered into a prize draw. The first prize is £100 of book tokens and there will be four other prizes of £25 of book tokens each.

You have received this letter because you subscribe to one of the magazines that is supported by the Welsh Books Council; **XXXXXXXXXX**. Your name and address was provided to us by the publishers of that magazine on postage labels only. We have not reproduced this information for our research, nor have we passed on any of your personal details to any third parties.

We want to ensure that as many people as possible participate in this research so please feel free to forward this information to any of your colleagues or friends who you believe would be interested in participating.

I hope that you will be able to contribute to this important research project.

Yours faithfully



Endaf Griffiths

Lead researcher for the project

01545 571711 | endaf.griffiths@wavehill.com

Ymchwil i'r Farchnad: cylchgronau Saesneg a gyhoeddir yng Nghymru

Rydym yn gobeithio y gallwch gyfrannu at brosiect ymchwil pwysig sydd wedi'i gomisiynu gan Gyngor Llyfrau Cymru drwy lenwi holiadur byr iawn.

Pwrpas yr ymchwil yw casglu barn pobl sydd â diddordeb mewn materion llenyddol, diwylliannol a chyfoes yng Nghymru. Yn benodol, mae'r ymchwil yn ymchwilio i arferion darllen y rheiny sydd â'r diddordebau hyn yn ogystal ag ymchwilio i'w barn ar gylchgronau Saesneg yn y meysydd hyn a gyhoeddir yng Nghymru. Defnyddir canfyddiadau'r ymchwil i roi gwybodaeth i weithgareddau parhaus Cyngor Llyfrau Cymru gan gynnwys ariannu cylchgronau a gyhoeddir yng Nghymru.

Ni ddylai'r holiadur yr hoffem i chi ei lenwi gymryd mwy na 10 munud i chi, yn dibynnu wrth gwrs ar faint o wybodaeth yr ydych am ei rhoi. Mae'r holiadur ar gael ar-lein ar y wefan ganlynol:

- Fersiwn Cymraeg: www.cylchgronauaesneg.co.uk
- Fersiwn Saesneg: www.magazinesfromwales.co.uk

Neu fel arall gallwch drefnu amser i lenwi'r holiadur drwy sgwrs ffôn ag un o'n hymchwilyddwr drwy ffonio 0800 917 5249 neu drwy e-bostio eich manylion cysylltu i cylchgronauaesneg@wavehill.com neu magazinesfromwales@wavehill.com.

Fel diolch, bydd enw pawb sy'n llenwi'r holiadur – naill ai ar-lein neu dros y ffôn — yn cael ei roi mewn het. Y wobwr gyntaf fydd gwerth £100 o docynnau llyfr ac yna bydd pedair gwobr arall o docynnau llyfr £25 yr un.

Rydych wedi cael y llythyr hwn gan eich bod yn tanysgrifio i un o'r cylchgronau sy'n cael cefnogaeth Cyngor Llyfrau Cymru, sef **XXXXXXXXXX**. Rhoddodd cyhoeddwr y cylchgrawn eich enw a'ch cyfeiriad i ni ar labeli postio yn unig. Nid ydym wedi atgynhyrchu'r wybodaeth hon ar gyfer ein hymchwil, ac nid ydym wedi trosglwyddo eich manylion personol o gwbl i unrhyw un arall.

Rydym am gael cynifer o bobl â phosibl i gymryd rhan yn yr ymchwil hwn, felly mae croeso i chi anfon y wybodaeth at unrhyw un o'ch cydweithwyr neu ffrindiau os credwch y byddai ganddynt ddiddordeb cymryd rhan.

Gobeithio y byddwch yn gallu cyfrannu at y prosiect ymchwil pwysig hwn.

Yr eiddoch yn gywir



Endaf Griffiths

Prif ymchwilydd y prosiect

01545 571711 | endaf.griffiths@wavehill.com

Atodiad 3: Dadansoddiad o'r farchnad darged ar gyfer cylchgronau unigol

Agenda

Wrth edrych ar yr ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod yn darllen Agenda nawr ac yn y man neu'n ei ddarllen unwaith neu ddwy, mae'n bosibl gweld bod 60% (52/86) yn ddynion a 40% (34/86) yn ferched, sy'n debyg i'r gymhareb rhwng y rhywiau a nodwyd yn y prif arolwg.

Roedd pedwar deg dau y cant (37/86) o'r ymatebwyr mewn cyflogaeth ac roedd 27% (23/86) pellach yn hunangyflogedig; Dywedodd dau ddeg tri y cant (20/86) o'r ymatebwyr eu bod wedi ymddeol, mae hyn 8 pwynt canran yn is na'r nifer a nodwyd yn y prif arolwg. Roedd tri deg chwech y cant (31/86) o'r ymatebwyr dros 60 oed sy'n dri phwynt canran yn is na'r prif arolwg, ac roedd 17% yn dod o Gaerdydd, sydd bedwar pwynt canran yn uwch na'r nifer a nodwyd yn y prif arolwg. Yn ddiddorol, dywedodd 19% (16/86) o'r ymatebwyr eu bod yn prynu o leiaf un cylchgrawn yr wythnos, a dywedodd 49% (42/86) eu bod yn prynu o leiaf un cylchgrawn y mis.

Barddas

Mae'r 'farchnad darged' ar gyfer y cylchgrawn Barddas yn dangos bod 44% (20/45) yn y farchnad arbenigol hon yn ferched a 56% (20/86) yn ddynion, mae hyn yn gymhareb ychydig yn uwch o ferched i ddynion, o gymharu â'r hyn a welwyd yn y prif arolwg. Wrth drafod y proffil oedran, fe welwn fod 29% (13/45) o'r ymatebwyr yn y grŵp hwn dros 60 a bod 13% o dan 30 oed, sydd bum pwynt canran yn uwch nac yn y prif arolwg. Roedd dau ddeg dau y cant o'r ymatebwyr yn dod o Gaerdydd, sydd 8 pwynt canran yn uwch na'r prif arolwg a dywedodd 58% (26/45) o'r ymatebwyr eu bod mewn cyflogaeth, sydd 16 bwynt canran yn uwch na'r prif arolwg, dywedodd 24% (11/45) eu bod wedi ymddeol, ac mae hyn saith pwynt canran yn is na'r prif arolwg. Mae hefyd yn ddiddorol nodi bod 44% (20/45) o'r ymatebwyr wedi dweud eu bod yn prynu o leiaf un cylchgrawn yr wythnos a dywedodd 38% (17/45) arall eu bod yn prynu o leiaf un cylchgrawn y mis, 82% sydd 12 pwynt canran yn uwch na'r cyfanswm a nodwyd yn y prif arolwg.

Barn

O'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn darllen Barn 'nawr ac yn y man' neu 'wedi'i ddarllen unwaith neu ddwy', roedd 61% (45/74) yn ddynion a 39% (29/74) yn ferched. Roedd pedwar deg un y cant (30/74) o'r ymatebwyr dros 60 oed, a dim ond 7% (5/74) o'r grŵp targed hwn oedd o dan 30. Dywedodd dau ddeg chwech y cant (19/74) eu bod yn prynu cylchgrawn unwaith yr wythnos a dywedodd 46% (34/74) arall eu bod yn prynu o leiaf un cylchgrawn y mis. Roedd un deg saith y cant (13/74) yn dod o ardal Caerdydd, ac roedd 12% (9/74) yn dod o'r tu allan i'r DU. Roedd pedwar deg naw y cant (36/74) y cant o'r ymatebwyr mewn cyflogaeth ac roedd 31% (23/74) wedi ymddeol.

Cambria

Mae'r 'grŵp targed' a nodwyd ar gyfer y cylchgrawn Cambria yn cynnwys 62% (85/136) o ddynion a 38% (51/136) o ferched. Roedd pedwar deg pedwar y cant (59/135) o'r ymatebwyr dros 60 a dim ond 7% (10/136) oedd o dan 30. Dywedodd pedwar deg pump y cant (61/136) o'r ymatebwyr eu bod mewn cyflogaeth, dywedodd 27% (36/136) eu bod wedi ymddeol a dywedodd 21% (28/136) o'r ymatebwyr eu bod yn hunangyflogedig. Dywedodd saith deg dau y cant (97/136) o'r ymatebwyr eu bod yn prynu o leiaf un cylchgrawn y mis.

Envoi

Roedd pum deg chwech y cant (25/45) o'r 'farchnad darged' a nodwyd ar gyfer y cylchgrawn Envoi yn ddynion a 44% (20/45) yn ferched. Roedd tri deg pedwar y cant (15/45) dros 60. Roedd tri deg y cant (13/45) mewn cyflogaeth, roedd 32% (14/45) wedi ymddeol ac roedd 34% (15/45) yn hunangyflogedig. Dywedodd dau ddeg pedwar y cant (11/45) o'r ymatebwyr eu bod yn prynu cylchgrawn o leiaf unwaith yr wythnos a dywedodd 47% (21/45) eu bod yn prynu o leiaf un cylchgrawn y mis.

New Welsh Review

Wrth edrych ar y 'grŵp targed' ar gyfer New Welsh Review, roedd 58% (80/137) yn ddynion a 42% (57/137) yn ferched, roedd 39% (52/134) o'r ymatebwyr dros 60, roedd 50% (67/134) rhwng 30 a 60 oed ac roedd 11% o dan 30 (15/134). Roedd tri deg naw y cant (52/134) o'r ymatebwyr mewn cyflogaeth, roedd 28% (37/134) wedi ymddeol ac roedd 26% (35/134) yn hunangyflogedig. Dywedodd ugain y cant (28/137) o'r ymatebwyr sydd yn y farchnad darged ar gyfer New Welsh Review eu bod yn prynu o leiaf un cylchgrawn o leiaf unwaith yr wythnos, a dywedodd 42% (86/137) o'r ymatebwyr eu bod yn prynu o leiaf un cylchgrawn o leiaf unwaith y mis.

Planet

Mae'r 'farchnad darged' ar gyfer Planet yn cynnwys 53% (72/135) o ddynion a 46% (63/135) o ferched. Mae tri deg naw y cant (52/134) dros 60, mae 49% (66/134) rhwng 30 a 60 ac mae 12% (16/134) o dan 30. Dywedodd pedwar deg y cant (55/134) o'r farchnad darged eu bod mewn cyflogaeth a dywedodd 27% (36/133) eu bod wedi ymddeol. Dywedodd chwe deg tri y cant (85/135) o'r ymatebwyr eu bod yn prynu cylchgrawn o leiaf unwaith y mis.

Poetry Wales

Mae pum deg y cant (73/137) o'r 'farchnad darged' yn ddynion, ac mae 47% (64/137) yn ferched. Roedd deuddeg y cant (16/135) o dan 30 ac roedd 40% (54/135) dros 60. Dywedodd pedwar deg dau y cant (56/134) o'r farchnad darged ar gyfer Poetry Wales eu bod mewn cyflogaeth, a dywedodd 28% (37/134) eu bod wedi ymddeol. Dywedodd pum deg wyth y cant (80/137) o'r ymatebwyr eu bod yn prynu cylchgrawn yn rheolaidd (o leiaf unwaith y mis) a dywedodd 4% nad oeddent byth yn prynu cylchgrawn.

Atodiad 4: Y cylchgronau a drafodwyd yn yr adroddiad yn ôl categori

Noder: Yn achos y cylchgronau hynny sy'n cwmpasu pynciau sydd mewn mwy nac un categori, mae'r cylchgrawn wedi'i gategoreiddio yn ôl prif ffocws cynnwys neu ymagwedd olygyddol y cylchgrawn.

Private Eye	Materion Cyfoes yn Gyffredinol
Planet	Materion Cyfoes yng Nghymru
Times Literary Supplement	Llenyddiaeth yn Gyffredinol
New Statesman	Materion Cyfoes yn Gyffredinol
The Economist	Materion Cyfoes yn Gyffredinol
New Welsh Review	Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru
Poetry Wales	Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru
The Spectator	Materion Cyfoes yn Gyffredinol
London Review of Books	Llenyddiaeth yn Gyffredinol
The Big Issue Cymru	Materion Cyfoes yng Nghymru
Golwg	Materion Cyfoes yng Nghymru
Agenda	Materion Cyfoes yng Nghymru
Granta	Llenyddiaeth yn Gyffredinol
Cambria	Materion Cyfoes yng Nghymru
The New York Review of Books	Llenyddiaeth yn Gyffredinol
Barn	Materion Cyfoes yng Nghymru
Taliesin	Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru
Literary Review	Llenyddiaeth yn Gyffredinol
New Internationalist	Materion Cyfoes yn Gyffredinol
BBC History	Hanes yn Gyffredinol
Barddas	Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru
PN Review	Barddoniaeth yn Gyffredinol
Modern Poetry in Translation	Barddoniaeth yn Gyffredinol
Envoi	Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru
The Rialto	Barddoniaeth yn Gyffredinol
Roundyhouse	Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru
Quarterly Review	Y Celfyddydau
Art Review	Y Celfyddydau
Leaf Writers' Magazine	Llenyddiaeth o Gymru ac am Gymru
Wales Arts Review	Y Celfyddydau yng Nghymru
Welsh Country	Materion Cyfoes yng Nghymru
Red Poets	Barddoniaeth o Gymru ac am Gymru
Tank	Y Celfyddydau

wavehill ymchwil gwerthuso arolygon
research evaluation surveys

t: 01545 571 711
e: info@wavehill.com
w: www.wavehill.com

Wavehill Ltd, 21 Alban Square | Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB